# AWDURDOD TÂN AC ACHUB
# GOGLEDD CYMRU

# CYNLLUN CYFUNOL I LEIHAU RISG A GWELLA

# 2010-11 hyd at 2012-13

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **Adran 1 – Gwybodaeth gyffredinol** | |
| Cyflwyniad | 3 |
| Gwneud gwelliannau a lleihau risg | 6 |
| Ymdrechu'n barhaus i wella | 7 |
| Trefniadau'r Awdurdod ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus | 8 |
| Datganiad Cyffredinol | 9 |
| Trosolwg o'r Awdurdod a'r Gwasanaeth | 10 |
| Ffeithiau a ffigyrau am yr Awdurdod | 17 |
| | |
| **Adran 2 – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn 2010-11** | |
| Perfformiad y flwyddyn a aeth heibio | 31 |
| Newidiadau i ffigyrau perfformiad a gyhoeddwyd eisoes | 72 |
| Gwella ansawdd bywydau pobl | 73 |
| Cydweithredu | 75 |
| Barn allanol am Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | 76 |
| | |
| **Adran 3 – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn 2011-12** | |
| Ymgynghoriad 2010 ar leihau risg/gwella yn 2011-12 a thu hwnt | 80 |
| Cynlluniau gwasanaeth y flwyddyn gyfredol | 81 |
| | |
| **Adran 4 – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn 2012-13** | |
| Ymgynghoriad 2011 ar leihau risg/gwella yn 2012-13 a thu hwnt | 91 |
| Amcanion ar gyfer gwella 2012-13 | 94 |
| Cynlluniau amlinellol am y flwyddyn i ddod 2012-13 | 95 |
| | |

| | |
|---|---|
| **Adran 5 – Gwybodaeth arall** | |
| Manylion cysylltu | 96 |
| Gwybodaeth ychwanegol | 96 |
| Trefniadau ymyrryd | 98 |
| Amserlen ar gyfer gweithredu'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 | 99 |
| Sicrwydd Gweithredol ar gyfer Darparu Gwasanaethau | 101 |
| | |
| **Adran 6 – Gwybodaeth am Berfformiad** | |
| Tablau gwybodaeth am berfformiad | 102 |
| Ymgynghoriadau a sut i gyfrannu | 110 |

# ADRAN 1

## Cyflwyniad

**Diben y Ddogfen hon**

Lluniwyd y ddogfen hon i ateb tri diben gwahanol:

a) mae'n darparu gwybodaeth am Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, a'r cyd-destun y maent yn gweithredu o'i fewn.

b) mae'n cofnodi'r blaenoriaethau uchaf ar gyfer yr Awdurdod, ac yn olrhain y cynnydd tuag at gyrraedd rhai nodau penodol.

c) mae'n ddogfen ddefnyddiol i gyfeirio ati, sy'n cadw cofnod hanesyddol o berfformiad dros dair blynedd ariannol.

Fe'i lluniwyd yn unol â dyletswyddau penodol sy'n codi o ddwy ffynhonnell:

1. y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi **Cynlluniau Gwella** blynyddol;
2. y Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub ar gyfer Cymru 2008-11, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi **Cynlluniau Lleihau Risg** blynyddol.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn rhoi, o fewn un ddogfen, gyfrif o weithgareddau a pherfformiad yr Awdurdod yn 2009-10, disgrifiad o'r trefniadau sydd ganddo yn eu lle ar gyfer 2010-11, a disgrifiad o'r hyn mae'n ei gynnig ar gyfer 2011-12.

# Cyflwyniad

**<u>Amseru'r Ddogfen</u>**

Mae'r dyddiad cyhoeddi a bennir ar gyfer y ddogfen hon – sef cyn 31 Hydref 2011 – yn bwysig. Lle bo Awdurdodau Gwella Cymru eraill yn cyhoeddi eu Cynlluniau gwella Rhan 1 toc wedi dechrau Ebrill bob blwyddyn, bydd Awdurdodau Tân ac Achub Cymru yn cyhoeddi eu rhai hwy yn fuan wedi diwedd Medi.

Mae'r Cynlluniau Gwella Rhan 1 a gyhoeddir yn Ebrill gan Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol gyffredinol, ond mae'r rhai a gyhoeddir yn Hydref gan Awdurdodau Tân ac Achub Cymru yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol sydd i ddod. Felly, bydd yr olaf yn wastad yn ddibynnol ar allu sicrhau'r adnoddau ariannol angenrheidiol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol.

Y rheswm am y gwahaniaeth hwn yw bod yr Awdurdodau Tân ac Achub, ers nifer o flynyddoedd, wedi bod yn cyhoeddi eu Cynlluniau Lleihau Risg erbyn 31 Hydref cyn y flwyddyn ariannol yr oeddent yn ymwneud â hi, felly roedd yn ymddangos yn briodol i Lywodraeth y Cynulliad wneud llunio'r Cynlluniau Gwella gyd-fynd â'r un amserlen.

Trwy gyfuno'r prosesau Cynllunio i Wella a'r Cynllunio i Leihau Risg, mae'r awdurdodau tân ac achub yn gallu cynnal un broses ymgynghori, a chyhoeddi un ddogfen, cyn diwedd mis Hydref bob blwyddyn.

**<u>Effeithiau'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009</u>**

Wedi degawd o ddeddfwriaeth Gwerth Gorau, roedd y Mesur newydd yn cyflwyno "Awdurdodau Gwella Cymru", yn gweithredu yn unol â dwy egwyddor rhyng-gysylltiedig o reolaeth gyhoeddus – sef gwelliannau tymor byr a chynlluniau cymunedol mwy tymor hir.

Roedd arweiniad a ddaeth gan Lywodraeth y Cynulliad yn datblygu'r rhesymau y tu ôl i Raglen Cymru ar gyfer Gwella 2006 i greu diffiniad ehangach o ystyr 'gwella' sydd yn y Mesur newydd, ac sy'n mynd y tu hwnt i'r diffiniad cyfyngedig blaenorol o 'effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac economi'.

Yn hytrach na chanolbwyntio ar enillion mesuradwy o ran allbwn gwasanaeth, mae'r diffiniad o wella nawr yn cynnwys unrhyw beth sy'n gwella ansawdd bywyd dinasyddion a chymunedau lleol.

Felly, mae disgwyl i Awdurdodau Tân ac Achub bennu eu blaenoriaethau eu hunain ar gyfer gwella, a'r rheini wedi eu teilwra'n lleol, ac i fynd i'r afael â hwy ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â sefydliadau eraill.

## Cyflwyniad

Mae Awdurdodau Tân ac Achub Awdurdodau, fel Awdurdodau Gwella Cymru, wedi cael eu canllawiau penodol eu hunain yn gysylltiedig â Rhan 1 o'r Mesur sy'n ymwneud â gwella.

Bydd eu gweithrediadau yn agored i Asesiad Gwella gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (yn gweithredu trwy Swyddfa Archwilio Cymru) a wneir trwy Asesiad Corfforaethol sy'n edrych ymlaen, ac Asesiad Perfformiad sy'n edrych am yn ôl ymhob blwyddyn ariannol.

Yn Adran 5 o'r ddogfen hon, ceir yr amserlen ar gyfer gweithredu'r Mesur newydd.

**Lleihau Risg a Gwella – y Dull Cyfunol Newydd**

Mae arweiniad Llywodraeth y Cynulliad ar Raglen Cymru ar gyfer Gwella mewn perthynas ag awdurdodau tân ac achub yn cydnabod mai lleihau risg i gymunedau yw conglfaen agendâu gwella'r Awdurdodau Tân ac Achub, ac felly mae'n cefnogi datblygu dull cyfunol i wella gwasanaethau a lleihau risg.

Mae copi o'r ddogfen arweiniad ar gael ar wefan y Cynulliad
http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/publications/?skip=1&lang=cy

**Ein cenhadaeth yw gwneud Gogledd Cymru yn ardal fwy diogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi.**

## Gwneud Gwelliannau a Lleihau Risg

Daeth y **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** i rym ar Ebrill 2010. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Gwella Cymru (cynghorau sir, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) osod amcanion gwella a gwneud trefniadau ar gyfer eu cyflawni.

Gall amcanion gwella fod yn unrhyw beth y gellir dangos eu bod yn gwella'r hyn y mae'r Awdurdod Gwella Cymru yn ei wneud (ei 'swyddogaethau') a hynny o safbwynt o leiaf un o'r saith agwedd ar wella, sef:

1. effeithiolrwydd strategol;
2. ansawdd gwasanaeth;
3. argaeledd gwasanaeth;
4. tegwch;
5. cynaliadwyedd;
6. effeithlonrwydd; ac
7. arloesed.

Mae'r **Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2008-11** yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub Cymru sefydlu Cynlluniau Lleihau Risg gyda'r nod o:

1. ostwng nifer y tanau a digwyddiadau brys eraill;
2. gostwng nifer y marwolaethau mewn tanau a digwyddiadau brys eraill;
3. gostwng nifer a difrifoldeb yr anafiadau mewn tanau a digwyddiadau brys eraill;
4. lleihau effaith fasnachol, economaidd a chymdeithasol tanau a digwyddiadau brys eraill;
5. gwarchod yr amgylchedd a'r dreftadaeth, adeiledig a naturiol;
6. darparu gwasanaethau sy'n golygu Gwerth am Arian;
7. integreiddio gweithgarwch yr Awdurdod Tân ac Achub o fewn yr agenda cyfiawnder cymdeithasol ehangach; a
8. mynd i'r afael â'r bwriadau cydraddoldeb ac amrywiaeth sydd yn y Fframwaith.

[Sylwer – ym Medi 2010, penderfynodd Llywodraeth Cymru ohirio llunio trydydd Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub hyd 2011, gan adael Fframwaith 2008-11 (yr ail) yn ei le, ac i ymgynghori'n anffurfiol ar gynnig adolygu'r Fframwaith trwy ei ymestyn hyd at 31 Mawrth 2012 (oni bai y daw un i'w ddisodli cyn hynny).]

## Ymdrechu'n Barhaus i Wella

Mae rôl yr Awdurdod Tân ac Achub yn cael ei ddiffinio mewn ystod o gyfreithiau a rheoliadau, ond mae'r Awdurdod yn wastad wedi ceisio gwella a helaethu'r gwasanaethau y mae'n eu darparu, a gwneud mwy na dim ond ateb y gofynion lleiaf.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymrwymo i wella bywydau pobl mewn sawl ffordd wahanol. Mae'r rhain yn cynnwys chwarae ei ran i ofalu bod:

- dinasyddion, gweithwyr ac ymwelwyr yn cael eu diogelu, fel eu bod yn gallu byw bywydau hir ac iach;
- cymunedau cyfan yn cael eu diogelu, fel bod pobl yn gallu byw bywydau llawn;
- diwylliant, treftadaeth ac iaith yr ardal yn cael eu diogelu, fel bod pobl yn gallu byw bywydau cyfoethocach;
- dinasoedd, trefi a phentrefi yn cael eu diogelu, fel eu bod yn llefydd sy'n ffynnu yn economaidd ac yn gymdeithasol i bobl fyw ynddynt, gweithio ynddynt ac ymweld â hwy;
- y cefn gwlad a'r arfordir yn cael eu diogelu, fel eu bod yn gallu parhau i ddarparu cynefinoedd naturiol a bod yn llefydd sy'n rhoi boddhad i bobl fyw ynddynt, gweithio ynddynt ac ymweld â hwy;
- cartrefi unigol yn cael eu diogelu, fel bod gan bobl fynediad at dai da a diogel;
- adeiladau cyhoeddus yn cael eu diogelu, fel bod pobl yn gallu teimlo'n ddiogel pan fyddont yn cynnal busnes yno;
- gweithleoedd yn cael eu diogelu, fel bod pobl yn gallu teimlo'n ddiogel pan fyddont yn gweithio yno;
- rhwydweithiau cludiant yn cael eu diogelu, fel bod pobl a nwyddau'n gallu teithio rhwng llefydd yn rhwydd a diogel;
- yr amgylchedd ac adnoddau'r byd yn cael eu diogelu, fel ein bod yn gadael y byd yn lle gwell.

At hynny, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau ei fod yn:

- peidio â gwastraffu'r arian a'r adnoddau eraill a ymddiriedir iddo;
- cefnogi ei weithwyr i gyflawni eu potensial llawn a rhannu eu gwybodaeth a'u sgiliau gydag eraill.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi gwneud trefniadau arbennig ar gyfer cefnogi'r gwaith o gyflawni ei strategaethau i leihau risg a gwella.

Mae'r Awdurdod ei hun wedi ei drefnu mewn modd sy'n caniatáu i'w 28 o aelodau etholedig gael rhan go iawn mewn cynlluniau strategol, gwneud penderfyniadau, a monitro lefelau perfformiad y gwasanaeth. Mae'r Awdurdod llawn yn cwrdd yn rheolaidd, o leiaf bedair gwaith y flwyddyn, gyda chyfarfodydd amlach o'r Panel Gweithredol rhwng yr adegau hynny. Mae ganddo Bwyllgor Archwilio a Phwyllgor Safonau ar wahân, sy'n cwrdd i ystyried materion penodol. At hynny, mae'r Awdurdod yn cael cefnogaeth ei Glerc a'i Drysorydd i weithredu'n gywir. Mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd, ac mae cofnodion o drafodion yr Awdurdod ar gael ar wefan yr Awdurdod.

Caiff y Gwasanaeth ei arwain gan Brif Swyddog Tân, ac yn ei gefnogi mae tîm o brif swyddogion, yr uwch dîm rheoli, arbenigwyr i gynghori, a strwythur trefniadaethol pendant.

Mae strwythur y Gwasanaeth yn dilyn ardaloedd y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, ac mae'n gweithio mewn partneriaeth trwy drefniadau cydweithredol penodol gydag ystod eang o sefydliadau, gan gynnwys gwasanaethau brys eraill, aelodau o'r fforwm cydnerthedd lleol, y sectorau addysg a gwirfoddol, asiantaethau a chomisiynau penodol a byrddau gwasanaeth lleol. Lle bo'n briodol, gwneir cytundebau ffurfiol ar gyfer rhannu data.

Caiff cynnydd yn erbyn cynlluniau adrannol a phrosiectau penodol, cynlluniau gwasanaeth blynyddol a chynlluniau cyllideb manwl eu monitro a'u hadrodd yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn, gan gytuno ar wneud addasiadau i gynlluniau yn ystod y flwyddyn lle bo angen.

Darperir prosesau sicrwydd ar wahân trwy archwiliadau mewnol ac allanol, gan gynnwys archwiliadau ariannol.

Mae rhaglen o Sicrwydd Gweithredol, sy'n golygu hunanasesiad yn erbyn fframwaith a ddarperir yn ganolog, sy'n cael ei dilyn gan asesiad cymheiriaid o'r ddau wasanaeth tân ac achub yng Nghymru, yn cael ei arsylwi gan Swyddfa Archwilio Cymru a Llywodraeth y Cynulliad a'i gydlynu trwy swyddfa'r Ymgynghorydd Tân ac Achub. Ceir rhagor o fanylion yn Adran 5 o'r ddogfen hon.

Mae gwaith ar y cyd â gwasanaethau tân ac achub yn cefnogi ystod o weithgareddau ar gyfer gwella, gan gydgyfrannu arbenigedd a rhannu adnoddau (e.e. caffael eiddo ar y cyd, recriwtio diffoddwyr tân amser cyflawn ar y cyd) lle bo'n briodol, a hynny ar lefel Cymru ac ar lefel y Deyrnas Unedig.

# Datganiad Cyffredinol

Gyda dyfodiad y Mesur Llywodraeth Leol 2009 daeth dyletswydd gyffredinol i Awdurdodau Gwella Cymru wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau.

Er na ellid cael dyletswydd absoliwt i wella, mae disgwyl i awdurdodau wneud trefniadau addas ar gyfer gwella ac i osod amcanion realistig, perthnasol ac uchelgeisiol i'w hunain.

Mae gofyn i awdurdodau wneud datganiad cyffredinol yn amlinellu natur eu bwriadau ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i wella.

Yn unol â'r ddeddfwriaeth hon, mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn datblygu ac yn cyhoeddi cynllun blynyddol i leihau risg a gwella y bu'n ymgynghori yn ei gylch. Cyhoeddir y cynllun hwn erbyn 31 Hydref yn y flwyddyn cyn y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi, ac mae'n nodi'r amcanion gwella a'r mesurau cysylltiedig o lwyddiant am y flwyddyn sydd i ddod.

Unwaith y bydd cytundeb ynglŷn â lefel y cyllid y bydd gan yr awdurdod ar gael (erbyn Chwefror cyn dechrau'r flwyddyn ariannol), dyrennir cyllidebau ar gyfer dibenion penodol. Mae hyn yn cynnwys gwariant refeniw a rhoi'r rhaglen gyfalaf ar waith fesul cam.

Mae cynlluniau adrannol sy'n dangos sut y bydd amcanion lefel uchel yn cael eu cyflawni (gyda thargedau ansoddol cysylltiedig lle bo hynny'n briodol) yn cael eu datblygu erbyn diwedd Mawrth.

Mewn cyfarfodydd bob chwarter trwy gydol y flwyddyn, bydd yr uwch reolwyr yn gwneud y gwaith o fonitro'r gwariant a chwblhau'r amcanion a gynlluniwyd, a hynny er mwyn gallu gwneud unrhyw newidiadau ystod-blwyddyn os oes angen. Darperir adroddiadau cynnydd i'r Awdurdod trwy gydol y flwyddyn. Gwneir asesiadau allanol o'r cynnydd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Trwy gyfrwng Cynllun Gwella ac Adroddiad y Trysorydd y flwyddyn ganlynol, darperir crynodeb ar ddiwedd y flwyddyn ynglŷn â chyflawni amcanion.

## Dyletswyddau Craidd yr Awdurdod

Prif ddyletswyddau'r Awdurdod Tân ac Achub, fel y'u diffinnir yn y **Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004**, yw:

1. Hyrwyddo diogelwch tân trwy ddarparu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd ac anogaeth er mwyn atal tanau a marwolaethau oherwydd tân;
2. Rhoi cyngor, pan wneir cais amdano, ynglŷn â sut i atal tanau a chyfyngu ar eu lledaeniad mewn adeiladau ac eiddo arall, ac ar ffyrdd i ddianc mewn achos o dân;
3. Gwneud darpariaeth ar gyfer amddiffyn bywyd ac eiddo mewn achos o danau;
4. Gwneud darpariaeth ar gyfer achub ac amddiffyn pobl rhag niwed difrifol mewn achos o ddamweiniau ar y ffyrdd;
5. Ymateb i argyfyngau neu ddigwyddiadau eraill fel y bo'r angen er mwyn amddiffyn pobl, eiddo, neu'r amgylchedd.

## Nodau Corfforaethol yr Awdurdod

Mabwysiadwyd y gyfres hon o bum nod corfforaethol gan yr Awdurdod yn 2001. Mae'n crynhoi pob agwedd ar yr hyn y mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ceisio ei gyflawni trwy weithrediadau ei Wasanaeth o ddydd i ddydd.

**1.** Atal tanau damweiniol a maleisus.

**2.** Amddiffyn pobl rhag cael eu lladd neu eu hanafu oherwydd tân neu beryglon eraill.

**3.** Amddiffyn y gymuned, busnesau a'r amgylchedd rhag cael niwed oherwydd tân a pheryglon eraill.

**4.** Ceisio ffyrdd i wella er mwyn ateb disgwyliadau'r gymuned.

**5.** Gweithredu mor effeithiol ac effeithlon ag y gallwn, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael inni.

# Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth

Mae gwerthoedd craidd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn crynhoi'r egwyddorion y mae'n eu dilyn a'r gwerthoedd personol y mae'n annog y staff i'w mabwysiadu a'u harddangos.

Y gwerthoedd craidd hyn yw:

## Gwasanaeth i'r gymuned

Rhoi gwerth ar wasanaeth i'r gymuned trwy:

- Weithio gyda phob grŵp er mwyn lleihau risg
- Trin pawb yn deg a chyda pharch
- Bod yn atebol i'r rhai yr ydym yn eu gwasanaethu
- Ymdrechu i gael rhagoriaeth ymhob peth a wnawn

## Pobl

Rhoi gwerth ar ein holl weithwyr, trwy arfer a hybu:

- Tegwch a pharch
- Cydnabod rhinwedd
- Gonestrwydd, didwylledd a chydymddiriedaeth
- Datblygiad personol
- Cydweithio a bod yn gynhwysol

## Amrywiaeth

Rhoi gwerth ar amrywiaeth yn y Gwasanaeth a'r gymuned trwy:


- Trin pawb yn deg a chyda pharch
- Darparu atebion gwahanol ar gyfer gwahanol anghenion a disgwyliadau
- Hyrwyddo cyfle cyfartal mewn cyflogaeth, gyda dilyniant o fewn y Gwasanaeth
- Herio rhagfarn a chamwahaniaethu

## Gwella

Rhoi gwerth ar wella ar bob lefel o'r Gwasanaeth trwy dderbyn cyfrifoldeb am ein perfformiad trwy:

- Gael meddwl agored
- Ystyried pob beirniadaeth yn feddylgar
- Dysgu o'n profiadau
- Ymgynghori ag eraill

# Y Cyfrifoldeb am Wasanaethau Tân ac Achub




Un o ddim ond trwy awdurdod tân ac achub yng Nghymru yw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Ei rôl yw:

- Cyflawni holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau Awdurdod Tân yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau priodol, yn enwedig Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 – a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2006, a'r Cynllun Cyfuno 1995.

- Cytuno ar y cynlluniau gwasanaeth blynyddol, y cyllidebau refeniw a chyfalaf a chyfraniad y cynghorau cyfansoddol.

- Monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf, ac ymdrin ag unrhyw amrywiadau arwyddocaol, gan gynnwys penderfyniadau ynglŷn ag unrhyw gyfraniadau atodol.

Sefydlwyd yr Awdurdod yn Ebrill 1996, ac mae'n cynnwys 28 o gynghorwyr o'r chwe awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru: sef Cyngor Sir Ynys Môn (3); Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (5); Cyngor Sir Ddinbych (4); Cyngor Sir y Fflint (6); Cyngor Gwynedd (5); Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (5). Caiff nifer y cynrychiolwyr o bob awdurdod cyfansoddol ei phennu ar sail poblogaeth.

Pennaeth **Gwasanaeth Tân ac Achub** Gogledd Cymru yw'r Prif Swyddog Tân, ac mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol am y Gwasanaeth o ran rheolaeth gorfforaethol a gweithrediadau. Mae hefyd yn darparu cyngor proffesiynol i'r Awdurdod.

Mae'r cyfrifoldeb llywodraethol am y gwasanaethau tân ac achub a hyrwyddo diogelwch tân yng Nghymru yn dod dan **Lywodraeth Cymru**. Mae'r cyfrifoldeb gweinidogol am y gwasanaethau tân ac achub, gan gynnwys diogelwch tân cymunedol, gan y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau. Yn Rhydycar, Merthur Tudful y mae Cangen y Gwasanaethau Tân ac Achub o Is-adran Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cymru.


Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw y dylai awdurdodau tân ac achub yng Nghymru:

- Geisio gwneud cymunedau yn fwy diogel ond wrth wneud hynny bod wrth wraidd y cymunedau a wasanaethant, gan feddu ar broses dryloyw ar gyfer gwneud penderfyniadau, proses sy'n cynnwys y cymunedau hynny.
- Gweithio'n ddi-dor gyda'i gilydd, gwasanaethau brys eraill, partneriaid eraill a'r gymuned, i ddarparu gwasanaethau cydlynol sy'n gwneud y gorau nid yn unig o adnoddau'r Awdurdodau ond hefyd adnoddau cyrff partner eraill.
- Cydnabod yr effaith y gallant ei chael ar yr amgylchedd (naturiol ac adeiledig) a'i wneuthuriad cymdeithasol gan gyfrannu at fodloni amcanion cynaliadwyedd Llywodraeth y Cynulliad trwy weithgareddau gweithredol, gweithredu ataliol a thrwy archwilio effaith gwaith eu sefydliad eu hunain.
- Cydnabod yr amrywiaeth o fewn eu cymunedau a sicrhau bod eu staff yn adlewyrchu'r amrywiaeth yn y gymuned a'u bod yn gallu cyrraedd eu potensial yn llawn, gan sicrhau cyfle cyfartal i bawb wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

*(Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2008-2011)*

Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn cyfrannu at gyflawni'r weledigaeth hon mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys trwy gymryd rhan weithredol yn y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, gweithio gyda phartneriaid er mwyn lleihau'r achosion o droseddu a chamddefnyddio sylweddau.

# Strwythur Rheolaethol y Gwasanaeth



## Strwythur Gweithlu'r Gwasanaeth

| | **Pob swydd** | Swyddogaethau canolog a sirol† | Hyfforddi a datblygu staff | Diog. Tân Deddfwriaeth-ol | Diog. Tân Cymunedol | Gorsafoedd Tân | Swyddi 'r System yn ôl y galw fel unedau gofal 24 awr | Ystafell Reoli |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Swyddog | **5** | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rheolwr Maes | **4** | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Rheolwr Grŵp | **12** | 9 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Rheolwr Gorsaf | **34** | 11 | 3‡ | 16 | 1 | 0 | 0 | 3 |
| Rheolwr Gwylfa | **101** | 4 | 9 | 11 | 2 | 22 | 44 | 9 |
| Rheolwr Criw | **141** | 0 | 0 | 0 | 3 | 48 | 90 | 0 |
| Diffoddwr Tân | **567** | 0 | 0 | 0 | 0 | 130 | 422 | 15 |
| Staff Cefnogol | **142.53** | 88.03 | 10 | 7 | 30.5 | 7 | 0 | 0 |
| A ariennir yn allanol* | **11** | 2 | 0 | 0 | 9 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfansymiau** | **1017.53** | **122.03** | **23** | **35** | **46.5** | **207** | **556** | **28** |

‡ = swyddi lifrai nad ydynt yn rhai'r ochr weithredol

Mae’r tabl yn dangos nifer y swyddi a ariennir gan yr Awdurdod (nid y bobl unigol a gyflogir) **fel yr oedd pethau ar 31ain Mawrth 2011.** Nid yw pob swydd yn swydd lawn amser. Ni chynhwyswyd swyddi dros dro a sefydlwyd ar gyfer prosiectau arbennig tymor byr.

*A ariennir yn allanol = swyddi nad ydynt yn rhai parhaol a grëwyd trwy ffynonellau ariannu gwahanol neu sy’n cael eu rhannu, e.e. gan Lywodraeth y Cynulliad.

†Mae swyddogaethau canolog a sirol yn cynnwys:


- Gweinyddu a Gwasanaethau Ysgrifenyddol
- Gwasanaethau Aelodau’r Awdurdod
- Rheoli Parhad Busnes
- Arlwyo
- Cyfathrebu Corfforaethol
- Cynllunio Corfforaethol
- Cydraddoldeb
- Rheoli’r Ystâd
- Cyllid a’r Gyflogres
- Rheoli a Chynnal a Chadw’r Fflyd
- Iechyd a Diogelwch
- Adnoddau Dynol
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)
- Deddfwriaeth Gwybodaeth
- Derbynfa a Switsfwrdd
- Cofnodi Digwyddiadau’r Ochr Weithredol (IRS)
- Cydnerthedd Lleol
- Cydnerthedd Cenedlaethol
- Cefnogaeth i’r Ochr Weithredol
- Dadansoddi Data am Berfformiad
- Rheolaeth Strategol ac Adrannol
- Cyflenwadau a Storfeydd
- Gwasanaethau Cyfieithu.

# FFEITHIAU A FFIGYRAU

## Cyffredinol

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithredu ar draws ardal y chwe awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru, gan gynorthwyo i amddiffyn poblogaeth sydd tua 678,750 o bobl[1], 306,805 o eiddo domestig[2] a 27,419 o eiddo annomestig[3]. Hefyd, mae'n amddiffyn ymwelwyr, defnyddwyr y rhwydwaith drafnidiaeth, yr amgylchedd naturiol (gan gynnwys y tu hwnt i'w arfordir), a seilweithiau cyhoeddus, busnes ac eraill.

Mae'n cefnogi gwasanaethau tân ac achub eraill yn y Deyrnas Unedig pan fo angen, ac mae'n wastad ar gael i amddiffyn petai argyfyngau ar raddfa fawr.




Map yn dangos y saith ardal sirol yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

---

[1] Amcangyfrif Canol Blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2009 www.statswales.wales.gov.uk. Tabl 016889 Amcangyfrifon Canol-Blwyddyn (2001 ymlaen)

[2] Ffurflen Anheddau Treth Cyngor (CT1) www.statswales.wales.gov.uk Tabl 000330 Anheddau treth cyngor yn ôl Awdurdod Lleol (2011-12)

[3] Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (NDR1) www.statswales.wales.gov.uk Tabl 001546 Amcangyfrifon Ardrethi Annomestig yn ôl awdurdod (NDR)

# Gwybodaeth Ariannol

Yn 2010-11, cafodd cyfraniadau, a oedd yn gyfanswm o £32,093,400, eu defnyddio i ariannu gwariant refeniw gan y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru – sef cynnydd o 2.5% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Yn Rhagfyr 2010, cytunodd yr Awdurdod Tân ac Achub i gael 2.5% o ostyngiad yn y gyllideb bob blwyddyn am y tair blynedd nesaf er mwyn efelychu'r cyfyngiadau ariannol a osodir ar ei awdurododau cyfansoddol yn yr hinsawdd economaidd cyfredol. Bydd y gostyngiadau hyn dros y cyfnod o 3 blynedd yn arwain at arbediad cyffredinol o £2.4 miliwn yn y gyllideb.

Dan drefniadau arferol, bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn pennu'r symiau i'w chyfrannu ar gyfer 2012-13 cyn canol Chwefror 2012.

| Awdurdod | Cyfraniad 2010/11 (+2.5%) | Amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn 2008 | Amcangyfrif poblgaeth canol blwyddyn 2009 | Cyfraniad 2011/12 |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | £5,280,536 | 111,395 | 111,353 | 5,240,568 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | £3,253,187 | 68,799 | 68,768 | 3,236,545 |
| Cyngor Gwynedd | £5,572,851 | 118,590 | 118,767 | 5,588,685 |
| Cyngor Sir Ddinbych | £4,601,610 | 96,737 | 96,732 | 4,549,039 |
| Cyngor Sir y Fflint | £7,119,294 | 149,731 | 149,923 | 7,051,716 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | £6,265,922 | 132,719 | 133,207 | 6,266,101 |
| **Cyfanswm** | **£32,093,400** | **677,971** | **678,750** | **£31,932,654** |

Y costau gweithredu net yn 2010-11 oedd £31,870,461.

Gan fod y gwir wariant yn 2010-11 yn is na'r disgwyl, roedd yr Awdurdod yn gallu neilltuo £223,000 i gronfa gyffredinol wrth gefn, a bydd honno'n rhoi rhywfaint o sicrwydd bod arian ar gael i gynorthwyo mewn blynyddoedd i ddod, ac yn golygu y gall yr awdurdod dynnu oddi ar y cronfeydd hyn yn hytrach na gorfod gofyn am ardollau ychwanegol.

Yn ystod 2010-11, gosodwyd gorwariannu o'u cymharu â rhai llinellau yn y gyllideb (e.e. costau cludiant a ffïoedd proffesiynol ar brosiectau cyfalaf a ataliwyd) yn erbyn

rhai tanwariannu o'u cymharu â rhai eraill (e.e. ariannu dyledion a Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu).

Derbyniodd yr Awdurdod nifer o grantiau refeniw gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn i hyrwyddo gwahanol gynlluniau o fewn y gogledd. Cyfanswm y grantiau a dderbyniwyd oedd £1,776,841. Ar gyfer y prosiectau canlynol yr oedd rhai o'r grantiau mwyaf:

| | |
|---|---|
| Y Ffenics | £171,672 |
| Ymyriadau | £486,694 |
| Lleihau Llosgi Bwriadol | £275,767 |
| Dimensiynau Newydd | £292,706 |
| Firelink | £55,977 |
| Cydnerthu | £133,786 |

Dyma'r ail flwyddyn y mae Awdurdodau Tân ac Achub wedi gallu dal cronfeydd wrth gefn, a hynny ers dyfodiad deddfwriaeth yn ddiweddar. Felly, mae arian wedi ei neilltuo mewn Cronfa Gyffredinol Wrth Gefn. Balans y gronfa ar 31 Mawrth 2011 oedd £641,451.

# Cymharu Costau

Mae adnabod awdurdodau tân ac achub addas i gymharu â hwy yn beth cymhleth. Gan ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd gan CIPFA[4], mae'r tabl isod yn dangos yr amrywiaeth o agweddau y gellid eu defnyddio i'r diben hwn.

- Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Lincoln yn debyg i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru mewn nifer o ffyrdd, ond mae ganddo lai o orsafoedd tân ac mae'n cyflogi llai o staff. Mae'n gwario ychydig llai na Gogledd Cymru.
- Er bod Swydd Wiltshire yn debyg o ran poblogaeth, mae'n fwy cywasgedig, mae ganddo lai o orsafoedd tân ac mae ganddo lawer llai o eiddo annomestig yn ei ardal. Mae'n gwario llai na Gogledd Cymru.
- Mae Swydd Suffolk yn debyg o ran nifer yr eiddo domestig ac annomestig i Ogledd Cymru, ond mae'r rhain o fewn ardal sydd dipyn llai. Er bod ganddo lai o orsafoedd tân, mae'n cyflogi llai o bobl, ac mae ganddo wariant llai.

| | | | | | | | **Gwir 2010-11** | | | **Amcangyfrifon 2010-11** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | (1) | (2) | (24) | (71) | (7) | (8) | **(10)** | **(12)** | **(13)** | **(14)** | **(16)** | **(17)** |
| Awdurdod | Poblogaeth | Ardal (hect) | Gorsaf -oedd | Cyfan-swm y Staff | Dom. | Annom. | Gwariant Gros £000 | Gwariant Net £000 | Taliadau Cyfalaf, £000 | Gwariant Gros £000 | Gwariant Net £000 | Taliadau Cyfalaf, £000 |
| Gogledd Cymru | 680,800 | 617,248 | 44 | 955 | 305,583 | 27,419 | 26,652 | 26,157 | 1,150 | 32,625 | 31,997 | 1,367 |
| Swydd Lincoln | 697,900 | 592,062 | 38 | 722 | 307,144 | 24,630 | 28,766 | 26m395 | 1,394 | 27,634 | 25,427 | 868 |
| Swydd Wiltshire | 654,900 | 348,543 | 24 | 629 | 275,645 | 19,111 | 24,170 | 23,237 | 1,656 | 23,858 | 23,207 | 1,845 |
| Swydd Suffolk | 714,000 | 380,172 | 35 | 753 | 309,045 | 27,328 | 24,542 | 21,628 | 1,047 | 24,237 | 23,913 | 1,047 |
| | | | | | | | | | | | | |
| | 454,100 | 348,762 | 26 | 609 | 193,893 | 15,704 | 17,446 | 16,965 | 5m348 | 18,377 | 18,233 | 1,011 |
| Swydd Amwythig | 1,005,800 | 234,276 | 24 | 936 | 441,208 | 32,221 | 36,625 | 34,562 | 1,985 | 37,724 | 36,741 | 2,365 |
| Swydd Gaer | 1,350,600 | 64,489 | 26 | 1,443 | 603,255 | 36,629 | 68,534 | 63,242 | 9,334 | 71,831 | 68,736 | 5,311 |
| Glannau Mersi | 875,000 | 1,179,569 | 58 | 1,368 | 394,005 | 33,813 | 39,947 | 36,559 | 1,391 | 39,909 | 38,784 | 1,391 |
| | | | | | | | | | | | | |

Cymdogion agosaf Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn Lloegr yw Swydd Amwythig, Swydd Gaer a Glannau Mersi. Y ddau Awdurdod Tân ac Achub arall yng Nghymru yw ATA Canolbarth a Gorllewin Cymru ac ATA De Cymru. Rhoddir eu manylion yma er gwybodaeth.

[4] Ystadegau'r Gwasanaeth Tân ac Achub 2010, Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), Ebrill 2011.

# Cymhariaeth Dadansoddiad Gwrthrychol - Am bob 1,000 o Bobl

Gan ddefnyddio'r un gwasanaethau tân ac achub i ddangos gwahaniaethau, yr hyn a welir yn y tabl isod yw'r pwyslais ychwanegol a roddir ar ddiogelwch cymunedol yng Ngogledd Cymru, a chost gymharol isel ei gostau craidd corfforaethol a democrataidd.

| Awdurdod | Diogelwch Cymunedol | Gweithrediadau diffodd tân ac achub | Costau craidd corfforaethol a democrataidd | Cyfanswm gwariant y gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|
| | £ am bob 1,000 o bobl | £ am bob 1,000 o bobl | £ am bob 1,000 o bobl | £ am bob 1,000 o bobl |
| | (118) | (119) | (121) | (123) |
| Gogledd Cymru | 8,170 | 30,834 | 315 | 40,228 |
| Swydd Lincoln | 2,672 | 37,146 | - | 39,818 |
| Swydd Wiltshire | 4,723 | 32,352 | 936 | 38,010 |
| Swydd Suffolk | 2,310 | 29,282 | 165 | 31,756 |
| | | | | |
| | | | | |
| Swydd Amwythig | 5,712 | 41,996 | 1191 | 49,137 |
| Swydd Gaer | 4,526 | 31,055 | 656 | 36,336 |
| Glannau Mersi | 5,435 | 39,620 | 767 | 45,876 |
| | | | | |

## Cymhariaeth Dadansoddiad Goddrychol – Niferoedd Staff a £oedd am bob 1,000 o Bobl

Mae'r tabl isod yn cymharu nifer y staff sy'n gyfwerth â llawn amser (C.Ll.A.) a gyflogir ymhob categori fel yr oedd pethau ar 31 Mawrth 2010, a chyfanswm y bil cyflogau a wariwyd ar staff am bob 1,000 o bobl yn 2009-10. Dangosir y staff sydd yn golofn 'staff arall' fel dau rif – mae'r cyntaf yn ymwneud â staff diogelwch tân cymunedol, ac mae'r ail yn ymwneud â staff arall nad ydynt ar yr ochr weithredol. O'u cymharu â chymaryddion tân ac achub Lloegr, mae costau staffio Cymru yn uwch am bob 1,000 o boblogaeth, ond nid dyma'r achos (a derbyn addasiadau) wrth eu cymharu â'r ATA eraill yng Nghymru.

Mae'r nifer gymharol uchel o staff a gyflogir yng Ngogledd Cymru yn cael ei adlewyrchu yn y gwariant cyffredinol ar staff am bob 1,000 o boblogaeth.

| Awdurdod | Diffoddwyr tân amser cyflawn | | Diffoddwyr tân rhan amser | | Staff yr Ystafell Reoli | | Staff Arall | | Cyfanswm y Gweithwyr | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | C. Ll. A Mawrth 2009 | £ am bob 1,000 o bobl | C. Ll. A Mawrth 2009 | £ am bob 1,000 o bobl | C. Ll. A Mawrth 2009 | £ am bob 1,000 o bobl | C. Ll. A Mawrth 2009 | £ am bob 1,000 o bobl | C. Ll. A Mawrth 2009 | £ am bob 1,000 o bobl |
| | (66) | (85) | (71) | (91) | (72) | (97) | (73)+(74) | (103) | (75) | (106) |
| Gogledd Cymru | 294 | 19,822 | 490 | 7,288 | 29 | 1,690 | 30+112 | 5,259 | 955 | 34,744 |
| Swydd Lincoln | 226 | 14,314 | 429 | 6,656 | 27 | 1,171 | 25+65 | 3,757 | 772 | 28,351 |
| Swydd Wiltshire | 224 | 15,809 | 283 | 5,984 | 23 | 1,628 | 2+97 | 5,044 | 629 | 29,777 |
| Swydd Suffolk | 249 | 18,062 | 408 | 5,585 | 23 | 1,347 | 7+66 | 3,595 | 753 | 29,021 |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| Swydd Amwythig | 214 | 14,314 | 298 | 6,457 | 19 | 1,711 | 11+67 | 4,356 | 609 | 30,040 |
| Swydd Gaer | 524 | 20,184 | 144 | 1,669 | 25 | 880 | 71+173 | 4,509 | 936 | 28,177 |
| Glannau Mersi | 923 | 29,676 | 67 | 747 | 44 | 1,203 | 115+295 | 9,280 | 1443 | 42,112 |
| | | | | | | | | | | |

*Yn cynnwys costau cyflogau eraill o (£5,120) am bob 1,000 o boblogaeth.
** Yn cynnwys costau cyflogau eraill o (£55) am bob 1,000 o boblogaeth.

## Dadansoddi Canlyniadau

Yn y tabl isod, gwelir pa mor gymhleth yw dadansoddi'r modd y llwyddir i gael canlyniadau. Mae nifer y tanau a galwadau ffug wedi gostwng yn y rhan fwayf o'r ATAau, ond roedd y ffigyrau am yr anafusion yr adroddwyd yn eu cylch yn amrywio. Gwneir dadansoddiad pellach o ganlyniadau anafusion Gogledd Cymru yn ystod 2011-12.

| Awdurdod | Tanau | | Galwadau diangen | | TDC | | Marwolaethau TDC | | Anafiadau TDC | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tabl 3a | | Tabl 3d(i) | | Tabl 4a | | Tabl 4b | | Tabl 4c | |
| | 2008/09 | 2009/10 | 2008/09 | 2009/10 | 2008/09 | 2009/10 | 2008/09 | 2009/10 | 2008/09 | 2009/10 |
| Gogledd Cymru | 2009/10 | 2010/11 | 2009/10 | 2010/11 | 2009/10 | 2010/11 | 2009/10 | 2010/11 | 2009/10 | 2010/11 |
| Swydd Lincoln | 3,384 | 3,299 | 3,726 | 3,689 | 478 | 469 | 6 | 10 | 45 | 54 |
| Swydd Wiltshire | 2,874 | 2,701 | 2,773 | 2,701 | 393 | 381 | 2 | 2 | 17 | 21 |
| Swydd Suffolk | 1,993 | 1,981 | 3,070 | 2,900 | 327 | 360 | 2 | 1 | 29 | 20 |
| | 2,732 | 2,527 | 2,994 | 3,077 | 339 | 355 | - | 4 | 14 | 28 |
| | | | | | | | | | | |
| Swydd Amwythig | | | | | | | | | | |
| Swydd Gaer | 2,089 | 1,967 | 1,612 | 1,656 | 265 | 243 | 0 | 1 | 14 | 15 |
| Glannau Mersi | 4,415 | 4,194 | 4,636 | 4,656 | 474 | 465 | 2 | 1 | 24 | 34 |

TDC = Tanau Damweiniol yn y Cartref.

# Asedau

**Adeiladau**

Yng Ngogledd Cymru, mae 44 o orsafoedd tân, 3 ohonynt (yn Wrecsam, Queensferry a'r Rhyl) sydd ar agor 24 awr; 5 sydd â staff parhaol yno rhwng 12:00 a 10:00 y.h. ac yn gweithredu fel gorsafoedd tân yn ôl y galw y tu allan i'r oriau hynny; a 36 ohonynt sy'n gweithredu'n llwyr fel gorsafoedd tân yn ôl y galw. Cafodd yr orsaf dân gymunedol bwrpasol gyntaf yng Ngogledd Cymru ei hagor yn swyddogol yn y Rhyl ym mis Hydref 2008.

Ers 2005, mae gwaith y prif bencadlys wedi cael ei redeg o'r safle ar Barc Busnes Llanelwy, gyda rhai swyddogaethau canolog (gan gynnwys y Ganolfan Hyfforddi a Datblygu) yn y Rhyl a Chonwy. Mae swyddfa ddiogelwch sirol ymhob un o ardaloedd y cynghorau sir, a chyfleusterau hyfforddi ychwanegol mewn nifer o leoliadau trwy'r gogledd.
Mae gweithdai cynnal a chadw'r fflyd a'r storfeydd yng Nghyffordd Llandudno.

Symudodd gwaith y brif Ystafell Reoli o'r Rhyl i'r Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd ar Barc Busnes Llanelwy yn 2008, ond gyda'r ystafell reoli yn y Rhyl yn aros fel ystafell reoli wrth gefn.

**Cerbydau**

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn rheoli fflyd o gerbydau ar gyfer yr ochr weithredol a'r ochr gefnogol, a hynny er mwyn ymateb i lu o sefyllfaoedd brys a chyffredinol [ffigyrau fel ar 31ain Mawrth 2010]:

- 54 o beiriannau tân ac achub gweithredol
- 4 o beiriannau cyrraedd yn uchel
- 33 o beiriannau tân ac achub at ddiben arbennig
- 9 o beiriannau wrth gefn
- 3 o beiriannau hyfforddi
- 144 o gerbydau fflyd cyffredinol (ceir a faniau)
- 2 uned ymateb i ddigwyddiadau
- 1 uned rheoli digwyddiadau
- 26 o beiriannau arbennig gweithredol eraill (symudwyr cyntaf)

## Gwariant Cyfalaf yn 2009-10

Dan y Cod Darbodus, gall yr Awdurdod gyllido ei raglen gyfalaf yn unol ag unrhyw ddull sydd fwyaf cost-effeithiol. Yn 2010-11 cafodd ei raglen gyfalaf ei gyllido'n bennaf trwy fenthyciadau gan y Bwrdd Benthyca Gwaith Cyhoeddus (£6,033,000) a derbyniadau cyfalaf (£38,526).

Cafodd yr Awdurdod £251,000 o arian grant gan Lywodraeth Cymru, a defnyddiwyd hwnnw i uwchraddio a gwella'r cyfleusterau hyfforddi mewn nifer o eiddo, a chyfrannu at offer TG i'w ddefnyddio ar gynlluniau penodol.

Yn ystod 2010-11 fe wnaeth yr Awdurdod wario £6,322,000 ar brosiectau cyfalaf:

| | |
|---|---|
| SAFLEOEDD yn cynnwys mân waith adeiladu, gwaith cynnal a chadw wedi ei gynllunio, gwaith cydymffurfio, ailfodelu gorsafoedd tân a phrynu tir. | £1,880,000 |
| | |
| CLUDIANT yn cynnwys tendrau dŵr, cerbydau ysgafn, cychod pŵer, cerbydau eraill ac uwchraddiadau. | £3,112,000 |
| | |
| CYFLENWADAU yn cynnwys offer gwarchod personol, lifrai, technoleg gwybodaeth ac offer arall. | £1,329,000 |

Roedd y gwariant ar y rhaglen gyfalaf yn 2010-11 yn is na'r hyn a ragwelwyd, a hyn oherwydd oedi ar amserlenni adeiladu. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu cario drosodd i 2011-12.

## Gweithwyr

Ar 31ain Mawrth 2011, roedd cyfanswm o 1,058 o unigolion yn cael eu cyflogi gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru – 266 o ddynion ac 19 o ferched fel diffoddwyr tân amser cyflawn/rheolwyr ar yr ochr weithredol, 560 o ddynion a 26 o ferched fel diffoddwyr tân yn ôl y galw, 4 o ddynion a 29 o ferched fel staff yr ystafell reoli, a 63 o ddynion a 91 o ferched mewn amrywiaeth o swyddi cefnogol arbenigol[5].

Mae proffiliau o'r staff ar y dudalen nesaf yn rhoi rhagor o fanylion am weithlu sy'n dod yn fwyfwy amrywiol.

Cafwyd £23,842,694 o gostau gweithwyr yn ystod 2010-11, ac roedd hynny'n cynnwys cyflogau, hyfforddiant ffurfiol a phensiynau.

[5] Darparwyd yr wybodaeth yn Ffurflenni Gweithredol Blynyddol 2010-11, HRFW10-17

# PROFFILIAU O'R GWEITHLU
# FEL YR OEDD PETHAU AR 31AIN MAWRTH 2011

## Proffil Oedran:

Mae rhan o'r broses o foderneiddio'r gwasanaeth tân ac achub yn genedlaethol yn ymwneud â chreu gweithlu sy'n adlewyrchu'r cymunedau lleol y mae'n eu gwasanaethu. Trwy wneud hyn, bydd y gwasanaeth mewn gwell sefyllfa i feithrin perthynas gyda'r cymunedau hynny - a thrwy hynny eu hamddiffyn.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i degwch a chydraddoldeb, ac mae'n hyrwyddo camau a fydd yn gymorth i gael gweithlu sy'n fwy amrywiol.

Ar ddiwedd Mawrth 2011, roedd y rhan fwyaf - 78% - o'r gweithlu rhwng 25 a 49 mlwydd oed.

| **Oedran fel ar 31 Mawrth 2010** | **16-24** | **25-34** | **35-49** | **50-54** | **55-59** | **60+** | **Pawb** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ochr Weithredol yn ôl y galw | 67 | 173 | 291 | 34 | 18 | 3 | **586** |
| Ochr Weithredol amser cyflawn | 1 | 53 | 185 | 35 | 11 | 0 | **285** |
| Ochr gefnogol | 5 | 33 | 63 | 22 | 19 | 12 | **154** |
| Ystafell Reoli | 2 | 7 | 21 | 2 | 1 | 0 | **33** |
| **Yr holl staff** | **75** | **266** | **560** | **93** | **49** | **15** | **1058** |
| **Fel canran** | **7%** | **25%** | **53%** | **9%** | **5%** | **1%** | |

## Gender:

O blith y 1,058 o bobl a gyflogid ar ddiwedd Mawrth 2011, roedd 893 (84%) yn ddynion, a 165 (16%) yn ferched. Cyflogid 19 o ferched fel diffoddwragedd tân amser cyflawn, ac 26 fel diffoddwragedd tân yn ôl y galw.

Mae'r Awdurdod yn parhau i ymdrechu i gael gwell cydbwysedd o ran gender yn y Gwasanaeth - yn enwedig yn yr ochr weithredol o'r Gwasanaeth sydd yn dal yn ddynion yn bennaf. Mae'n gwneud hyn trwy ymgyrchoedd camau cadarnhaol pan fo swyddi'n codi, a thrwy negeseuon mwy cyffredinol sy'n herio stereoteipiau ac sy'n dangos bod gyrfa yn y gwasanaeth tân ac achub yn ddeniadol i ferched a dynion. Yn yr ymgyrch recriwtio amser cyflawn fwyaf diweddar, daeth bron i 12% o'r ceisiadau gan ferched.

## Hil:

O blith y 1,058 o bobl a gyflogid, roedd mymryn dros 98% yn eu categoreiddio eu tarddiad hil fel gwyn. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gael gweithlu sy'n adlewyrchu proffil ethnig Gogledd Cymru, gan gydnabod yr effaith gadarnhaol y gall gweithlu amrywiol ei gael o ran gwella diogelwch.

Roedd 0.6% o'r staff yn eu categoreiddio eu hunain gyda chefndir ethnig lleiafrifol, sydd fymryn yn is na'r 1%[6] o bobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol sydd rhwng 18 a 64 mlwydd oed yn byw yng Ngogledd Cymru.

## Iaith:

Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg ar gyfer cyfathrebu bob dydd. Mae polisïau, cynlluniau a dangosyddion perfformiad i'w cael yng Nghynllun Iaith Gymraeg diwygiedig yr Awdurdod (2010 - 2013), ac maent yn cael eu hadlewyrchu yng nghynlluniau adrannau. Derbyniodd y Cynllun diwygiedig hwn gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg dan Adran 16 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar 21ain Ionawr, 2010. Mae'n adeiladu ar ddau gynllun cyntaf y Gwasanaeth a gyhoeddwyd yn 1999 a 2006.

I'r diben hwn, mae'r Gwasanaeth wedi mabwysiadu Strategaeth Sgiliau Iaith gyda'r nod o wireddu gweledigaeth yr Awdurdod i gyflwyno gwasanaeth yn newis iaith y cyhoedd bob amser. Darparwyd cyfres o sesiynau codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar gyfer yr holl staff, ac mae cefnogaeth ar gael i'r rhai sy'n dymuno dysgu'r iaith.

Mae'r Gwasanaeth yn defnyddio lefelau'r Gymdeithas Profwyr Iaith yn Ewrop (*Association of Language Testers in Europe - ALTE*) i bennu gallu ieithyddol ei staff. Ers Ionawr 2009, mae gofyn i bob aelod newydd o'r staff fod ag o leiaf sgiliau cwrteisi sylfaenol yn y Gymraeg (Lefel 1 ALTE) pan fyddant yn ymuno â'r Gwasanaeth.

Ers Ionawr 2010, mae disgwyl i bob gweithiwr newydd gyrraedd o leiaf Lefel 2 ALTE o wrth ymuno â'r Gwasanaeth, a bydd disgwyl hefyd i unrhyw aelodau presennol o'r staff sy'n ceisio dyrchafiad gyrraedd yr un lefel.

Roedd dadansoddiad o sgiliau Cymraeg y Gwasanaeth fel yr oedd pethau ym mis Mai 2011 yn dangos bod mymryn dros hanner swyddi staff wedi eu llenwi gan staff gyda sgiliau dwyieithog i'r safon a ddynodwyd ar gyfer y swydd. Mae hyn yn dangos man cychwyn calonogol ar gyfer datblygu sgiliau ieithyddol y gweithlu cyfan yn y dyfodol.

## Anabledd:

Fel yr oedd pethau ar 31[ain] Mawrth 2011, roedd 13 o ddiffoddwyr tân gweithredol (1.5%) yn eu categoreiddio eu hunain fel rhai ag anabledd, fel y gwnaeth 8 aelod o

[6] Ffynhonell tabl Cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol S101.

staff yr ystafell reoli a’r ochr gefnogol (4.3%). Mae hyn yn gyfanswm o 2%, o’i gymharu ag 17.6%[7] o bobl rhwng 18 a 64 mlwydd oed yng Ngogledd Cymru sy’n dod o fewn yr un categori.

Er bod y gwasanaeth tân ac achub yn draddodiadol wedi eithrio pobl sydd ag anabledd, mae profiad diweddar yn genedlaethol wedi dangos na ddylai anabledd fod yn rhwystr o reidrwydd i yrfa lwyddiannus yn y gwasanaeth.

Bellach, mae polisïau recriwtio a chyflogaeth yn eu lle i sicrhau nad yw anabledd, ynddo’i hun, yn atal pobl rhag cael eu cyflogi yn y gwasanaeth tân ac achub.

## Hyfforddiant a Datblygu:

Yn 2010-11, treuliwyd 6,749 o ddiwrnodiau/shifftiau gan staff ar weithgareddau hyfforddi a datblygu, ac mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus yr Awdurdod i ddarparu cyfleoedd ar gyfer datblygu staff, gan gydnabod pwysigrwydd gweithlu sy’n sgilgar iawn a brwdfrydig iawn.

[7] Ffynhonell tabl Cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol S16.

# ADRAN 2

Fe wnaeth yr Awdurdod gyhoeddi Cynllun Lleihau Risg Llawn yn Hydref 2006 ar gyfer 2007-08 a thu hwnt. Roedd y cynllun gweithredu blynyddol ar gyfer 2009-10 yn cynnwys pedwar cynnig, gydag un ohonynt yn cael ei roi o'r neilltu yn ddiweddarach yn dilyn yr ymgynghoriad dros 12 wythnos yn Haf 2008.

Er mwyn symud ymlaen gyda dau amcan allweddol y Gwasanaeth o gynyddu diogelwch cymunedol a gwella rhagoriaeth yr ochr weithredol, penderfynodd yr Awdurdod barhau gyda'r gwaith yn 2010-11 ar y tair menter i leihau risg a ddechreuwyd eisoes yn 2009-10.

Roedd y rhain yn ymwneud ag

1. Adolygu'r modd y mae'r Gwasanaeth yn darparu gofal goruchwyliol gan reolwyr canol ac uwch reolwyr mewn digwyddiadau brys, a hynny gyda'r nod o ddarparu adnoddau ar gyfer tîm sicrwydd gweithredol a gwaith diogelwch cymunedol.
2. Torri ar ddeuddeg swydd sy'n benodol i'r Peiriannau Ysgol ac Esgynlawr (*ALPs*), gan drosglwyddo'r gwaith i griwiau tân ac ailddyrannu adnoddau i waith ataliol.
3. Sefydlu gweithgor bychan i gynnal adolygiad o Risg drwy Ogledd Cymru er mwyn canfod a yw'r safonau gofal tân yn briodol mewn perthynas â'r risg o fewn y gymuned, ac i edrych a yw'r adnoddau gorau yn y llefydd gorau i ymateb i'r risgiau hynny.

Y llynedd, roedd y Cynllun Lleihau Risg/Gwella yn rhestru deugain o bethau y byddai'r Gwasanaeth yn talu sylw arbennig iddynt yn ystod 2010-11.

# Y FLWYDDYN A AETH HEIBIO 2010-11

## MAES FFOCWS 2010-11 – AMDDIFFYN AC ATAL

Prif rôl yr awdurdod tân ac achub yw cynorthwyo i amddiffyn Gogledd Cymru rhag cael niwed oherwydd tân a pheryglon eraill. Mae hyn yn cyfrannu at gael cymunedau diogel, ac sy'n gadarn yn economaidd, ac at wella ansawdd a hyd bywydau pobl.

Roedd gwaith y Gwasanaeth yn y maes hwn yn canolbwyntio ar ddau edefyn penodol:

1. Gostwng nifer y tanau damweiniol a bwriadol, a'r marwolaethau a'r anafiadau cysylltiedig, trwy ddarparu cefnogaeth a chyngor sy'n amserol ac wedi eu targedu (gan gynnwys trwy rwydweithio cymdeithasol a negeseuon ar ffonau symudol) ar y cyd â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, asiantaethau gwirfoddol ac Atal Tân fel y bo'n briodol.

2. Cefnogi asiantaethau eraill i ostwng nifer y gwrthdrawiadau ar y ffyrdd a'r marwolaethau a'r anafiadau cysylltiedig.

Gan mwyaf, mae'r Gwasanaeth wedi cael blwyddyn lwyddiannus, gan weithio'n effeithiol i leihau'r effaith y mae rhai agweddau ar fregusrwydd yn ei gael ar wneud rhai pobl yn fwy agored i gael tanau damweiniol. Aethpwyd â'r neges allan i'r gymuned gan griwiau'r ochr weithredol a staff arbenigol megis gweithwyr cefnogaeth cartref, a hynny i unigolion, ysgolion, gweithleoedd a digwyddiadau arbennig. Yn ganolog, cafodd cytundebau eu harwyddo, dechreuwyd ar bartneriaethau, a gwnaed cysylltiadau trwy'r cyfryngau, cyhoeddiadau a rhwydweithio cymdeithasol. Roedd cydweithredu'n chwarae rhan bwysig, yn lleol ac yn genedlaethol, gan arwain at ddull mwy cydgysylltiedig o adnabod a lleihau risgiau penodol. Er enghraifft, cafodd y Strategaeth Plant a Phobl Ifanc ei lansio yn Rhagfyr 2010 fel cydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru. Bu'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol hefyd yn gweithio'n lleol gyda Heddlu Gogledd Cymru ac mewn nifer o gymunedau lle mae troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys cynnau tanau bwriadol, wedi cael eu hadnabod fel mater arbennig o broblemus. Mae'r canlyniadau i'w cael ar dudalennau XXX i XXX.

Hefyd, bu'r Gwasanaeth yn brysur yn cynorthwyo i wella diogelwch ar y ffyrdd yn yr ardal trwy ei waith gyda disgyblion ysgol a myfyrwyr hŷn, gan roi arddangosfeydd y Sioe Deithiol Ardrawiad a chymryd rhan mewn diwrnodiau diogelwch ar y ffyrdd amlasiantaethol, gan gefnogi'r Cynllun Addysg Moduron sydd wedi ei anelu at newid ymddygiad wrth yrru ynghyd â'r cynllun Pass Plus Cymru, a chynghori rhieni ar osod seddi plant yn gywir mewn cerbydau.

Bu'r broses Sicrwydd Gweithredol yn 2010 yn edrych yn benodol ar reoli risg cymunedol a diogelwch cymunedol – mae barn y tîm asesu cymheiriaid i'w cael ar dudalen XXX.

# Y FLWYDDYN A AETH HEIBIO 2010-11

## MAES FFOCWS 2010-11 – EFFEITHIOLRWYDD YR OCHR WEITHREDOL

Mae'r Gwasanaeth yn wastad yn ceisio gwella ei ymateb brys trwy adolygu a diweddaru'r ffordd y mae'n gweithredu a'r offer y mae'n eu defnyddio.

Roedd y gwaith yn y maes ffocws hwn yn ymwneud ag amrywiaeth o brosiectau a mentrau:

3. Symud ymlaen gyda dyfodiad arfaethedig systemae cenedlaethol newydd ar gyfer cyfathrebu radio a gwybodaeth.

4. Symud ymlaen gyda'r cynlluniau ar gyfer gwella'r gallu i chwilio ac achub mewn trefi (USAR), achub â rhaff, achub o ddŵr, ac achub anifeiliaid mawr.

5. Cyflwyno chwe pheiriant tân newydd, yr Uned Meistroli Digwyddiadau newydd, a symud ymlaen gyda'r adolygiad ar nifer a lleoliad pympiau symudol ysgafn.

6. Darparu dillad newydd ar gyfer yr ochr weithredol (cyfarpar amddiffyn personol) i ateb manyleb ar gyfer Cymru gyfan

7. Adeiladu ar y mesurau presennol ar gyfer monitro perfformiad gweithredol criwiau tân cyn, yn ystod, ac wedi digwyddiadau.

8. Canolbwyntio ar wella effeithiolrwydd y gofal a ddarperir trwy'r System Dyletswydd yn ôl y Galw.

9. Parhau i wella gwaith yr ystafell reoli tân trwy gydweithio gyda gwaith ystafelloedd rheoli'r heddlu a'r ambiwlans.

10. Parhau i wella adeiladau'r Awdurdod trwy gyflwyno rhaglen arfaethedig o brosiectau cyfalaf, cynnal a chadw a mân waith.

Gwnaeth y Gwasanaeth gynnydd rhagorol mewn perthynas â'r camau arfaethedig hyn.

Cafodd dyfodiad arfaethedig y system radio a chyfathrebu genedlaethol newydd ei gwblhau'n llwyddiannus. Ceir trosolygon o brosiect Firelink project ar http://www.communities.gov.uk/documents/fire/pdf/firelinkupdate.pdf a http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/fire/firelink/?skip=1&lang=cy

Mae hyn yn darparu system gydnerth ar gyfer llais radio a data er mwyn galluogi'r Gwasanaethau Tân ac Achub a'r gwasanaethau golau glas eraill i gyfathrebu â'I gilydd, nid yn unig yn lleol ond dros y ffin â Lloegr a'r Alban.

Llwyddwyd i gael gwell gallu ar gyfer mathau penodol o ddigwyddiadau, a daeth y chwe pheiriant tân newydd. Cwblhawyd yr adolygiad o bympiau symudol ysgafn hefyd, ac mae'r Uned Meistroli Digwyddiadau wrthi'n cael ei hadeiladu.

## MAES FFOCWS 2010-11 – EFFEITHIOLRWYDD YR OCHR WEITHREDOL (parhad)

Cafodd dillad gwaith yr ochr weithredol (cyfarpar amddiffyn personol) ei ddarparu i ddiffoddwyr tân yr ochr weithredol trwy gaffael ar y cyd yn llwyddiannus fel tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru. Roedd y cydweithrediad yn golygu bod costau'r prosiect, yr adnoddau dynol, yr wybodaeth a'r arbenigedd yn cael eu rhannu.

Cyflwynwyd proses ffurfiol o fonitro ac asesu perfformiad gweithredol y criwiau tân, ynghyd â ffocws mwy clir-ddiffiniedig yn cael ei roi ar safonau perfformiad.

Hefyd, dechreuodd y Gwasanaeth ar brosiect cymhleth wedi ei anelu at adnabod y rhwystrau sy'n effeithio ar y gofal a ddarperir trwy'r System Dyletswydd yn ôl y Galw a datblygu ffyrdd o oresgyn y rhwystrau hynny.

Parhaodd y cydweithredu rhwng swyddogaethau ystafell reoli'r tri gwasanaeth brys, gyda lleoli ystafelloedd rheoli'r heddlu a thân gyda'i gilydd yn y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd ar Barc Busnes Llanelwy ers 2008.

Gweithredwyd rhaglen o brosiectau cyfalaf, cynnal a chadw, a mân waith fesul cam ar safleoedd y Gwasanaeth drwy'r gogledd. Fodd bynnag, roedd y gwariant ar y rhaglen gyfalaf yn is na'r hyn a ragwelwyd oherwydd oedi gyda phrosiect i gael gorsaf dân newydd yn Wrecsam. Derbyniodd yr Awdurdod £215,000 o arian grant gan Lywodraeth Cymru, a defnyddiwyd hwnnw i uwchraddio a gwella cyfleusterau hyfforddi mewn sawl lleoliad.

# Y FLWYDDYN A AETH HEIBIO 2010-11

**MAES FFOCWS 2010-11 – CYDNERTHU**

Adolygir a chryfheir yn gyson gydnerthedd y Gwasanaeth Tân ac Achub mewn perthynas â digwyddiadau sy'n tarfu'n lleol a chenedlaethol.

Roedd pedwar cam penodol wedi eu cynllunio ar gyfer y maes hwn:

11. Parhau gyda'r prosiect cydnerthedd Cymru gyfan rhwng ystafelloedd rheoly yng Nghymru, gan gynnwys gwneud gwelliannau i ddata, polisïau a gweithdrefnau, a chaledwedd a meddalwedd electronig.

12. Parhau gyda rhoi'r fersiwn newydd o'r rhwydwaith ardal eang a'r datrysiad data symudol (ill dau yn rhan o brosiect cenedlaethol) ar waith fesul cam.

13. Parhau i wella systemau gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) .

14. Parhau i adolygu a defnyddio Rheolaeth Parhad Busnes, a gwella gallu'r Gwasanaeth I ddelio â digwyddiadau ar raddfa fawr.

Cafodd y prosiect cydnerthedd Cymru gyfan ei gwblhau, gan alluogi'r tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru i weithredu system lefn o gefnogi ei gilydd. Mewn achos anhebygol o system yn methu'n ddifrifol yn ystafell reoli unrhyw un o'r gwasanaethau tân ac achub, neu petai nifer anarferol o uchel o alwadau 999 yn dod, gellir erbyn hyn ddargyfeirio'r galwadau hyn i'w prosesu gan un o'r ddwy ystafell reoli arall yng Nghymru.

Gosodwyd terfynellau data symudol yng ngherbydau'r Gwasanaeth fel rhan o'r prosiect cenedlaethol Firelink er mwyn cefnogi unrhyw ymateb cydlynedig i argyfyngau ar raddfa fawr, ac i gynyddu diogelwch yn gyffredinol gan nad oes modd bellach i aelodau'r cyhoedd wrando ar negeseuon. Un fantais ychwanegol a ddaw gyda'r dechnoleg hon yw ei bod yn galluogi'r Gwasanaeth i anfon y peiriant agosaf sydd ar gael i ddigwyddiadau, gan arwain, o bosib, at dorri amseroedd ymateb.

Roedd ailstrwythuro yn Ebrill 2011 wedi neilltuo cyfrifoldeb yn fewnol am Reoli Parhad Busnes, gan ychwanegu symbyliad i adolygu ac ymarfer cynlluniau wrth gefn er mwyn sicrhau bod pob adran wedi ystyried ac wedi cynllunio ar gyfer sefyllfaoedd a allai fygwth eu gweithrediad llyfn a pharhaus.

# Y FLWYDDYN A AETH HEIBIO 2010-11

## MAES FFOCWS 2010-11 – CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Mae'r gwasanaeth tân ac achub yn genedlaethol yn dal yn bennaf yn wyn ac yn ddynion, ond mae wedi ymrwymo i gael gweithlu mwy amrywiol sy'n adlewyrchu amrywiaeth y bobl y mae'n eu gwasanaeth, ac i sicrhau bod y gwasanaethau y mae'n eu darparu yn cwrdd ag anghenion a disgwyliadau'r amrywiaeth lawn o bobl yn y gymuned.

Roedd dau faes ffocws penodol ar gyfer 2010-11:

15. Symud ymlaen gyda datblygu Cynllun Cydraddoldeb Sengl sy'n adlewyrchu gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb newydd.

16. Darparu hyfforddiant a datblygu mewn agweddau penodol ar faterion amrywiaeth ar gyfer aelodau'r awdurdod, uwch reolwyr a phenaethiaid adrannau.

Derbyniodd y Ddeddf Cydraddoldeb newydd 2010 gydsyniad brenhinol yn Ebrill 2010, a daeth y dyletswyddau cysylltiedig ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru i rym flwyddyn yn ddiweddarach. Mae gan gyrff sydd wedi eu rhestru (sy'n cynnwys yr Awdurdodau Tân ac Achub) hyd at Ebrill 2012 i gyhoeddi eu hamcanion cydraddoldeb a'u Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol.

Mae gofyn i benderfynwyr, wrth ystyried eu darpariaeth gwasanaeth, dalu sylw dyledus i ddymunoldeb lleihau anghydraddoldeb sosio-economaidd, dileu camwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n seiliedig ar naw nodwedd sydd wedi eu diffinio a'u diogelu, sef oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

# Y FLWYDDYN A AETH HEIBIO 2010-11

## MAES FFOCWS 2010-11 – IAITH A THREFTADAETH

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i'r egwyddor y gall, trwy werthfawrogi iaith a threftadaeth Cymru, nid unig gyfrannu at yr ymdeimlad o les sydd gan bobl, ond hefyd eu diogelwch.

**Iaith –**

Boed mewn sefyllfaoedd o argyfwng neu mewn sefyllfaoedd busnes arferol, mae pobl yn gwerthfawrogi medru cyfathrebu â ni yn eu dewis iaith. At hynny, wrth i nifer y siaradwyr Cymraeg godi, mae'n dod yn fwyfwy amlwg mai mater o arfer dda yw cynnig dewis iaith, nid consesiwn. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu Gwasanaeth sydd o safon cyn uched yn Gymraeg ag yn Saesneg.

Yn 2009, fe wnaeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ddiwygio ei Gynllun Iaith Gymraeg ac ymestyn ei gynlluniau hyd at 2010-13. Mae nifer o'r camau arfaethedig yn ymwneud â meithrin Gwasanaeth sy'n llwyr mewn cytgord â'n cyhoedd Cymraeg. Mae'r Cynllun ar gael yn yr adran gyhoeddiadau ar wefan y Gwasanaeth – www.gwastan-gogcymru.org.uk.

**Treftadaeth –**

Mae gan Ogledd Cymru dreftadaeth hynod gyfoethog, y byddai rhannau ohoni yn amhosib eu hail-greu petaent yn cael eu colli trwy dân neu lifogydd. Er enghraifft, mae adeiladau neu strwythurau eraill sy'n bwysig yn hanesyddol neu o ran pensaernïaeth; gwarchodfeydd bywyd gwyllt, môr a natur; safleoedd sy'n bwysig yn ddaearegol; gerddi hanesyddol, planhigion a thirweddau cynlluniedig; llyfrgelloedd, orielau a chasgliadau arbennig; safleoedd o bwysigrwydd gwyddonol arbennig a safleoedd sy'n bwysig yn gymunedol, yn bwysig un ac oll. Yn ogystal â gwella ansawdd bywyd pobl, mae sawl bywoliaeth a chymuned yn dibynnu ar barhad y safleoedd hyn.

17. Monitro'r modd y cwblheir y camau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig 2010-13

Mae'r meysydd ffocws eleni yn cynnwys:

- prosesau recriwtio;
- cyflwyno proses newydd ar gyfer cofnodi nifer y galwadau brys y bydd yr Ystafell Reli yn eu trin yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- codi ymwybyddiaeth o'r Cynllun ymhlith contractwyr allanol y mae'r adran Rheoli Cyfleusterau yn eu dwyn i mewn i wneud gwaith, a sicrhau y bydd unrhyw arwyddion ffurfiol sy'n cael eu caffael trwy'r adran hon yn rhai dwyieithog

Gwnaed cynnydd sylweddol yn 2010-11 mewn perthynas â'r bwriadau yng Nghynllun Iaith Gymraeg 2010-13. Mae gofyniad i holl aelodau newydd y staff, a'r rhai sy'n llwyddo i gael dyrchafiad, ddysgu Cymraeg sgyrsiol hyd at safon Lefel 2, ac eto yn ystod 2010-11 mae hyn wedi parhau i gael ei hyrwyddo ymhlith y staff presennol. Yn 2010-11, cafodd cyfanswm o 59 o aelodau o'r staff lwyddiant mewn Cymraeg Lefel 1, 103 mewn Cymraeg Lefel 2, ac 8 mewn Cymraeg Lefel 3.

Yn Ionawr 2010, cytunwyd ar set newydd o ddangosyddion perfformiad ar gyfer y Gwasanaeth, sy'n ymwneud â'r Gymraeg, ac erbyn hyn mae data ynghylch sgiliau a dysgu Cymraeg yn cael eu casglu a'u cofnodi yn y gronfa ddata Adnoddau Dynol.

Mai 2011 oedd y tro cyntaf i'r data hwn fod ar gael i ddarparu darlun cyfredol o'r sgiliau yn 2010-11, a bydd yn darparu erfyn gwerthfawr ar gyfer monitro cynnydd a thargedu meysydd ar gyfer gwella yn y dyfodol .

# Y FLWYDDYN A AETH HEIBIO 2010-11

## MAES FFOCWS 2010-11 – CYNALIADWYEDD

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn wastad wedi ceisio gweithredu mor effeithiol ac effeithlon ag y bo modd ac i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ganddo ar ei gyfer. At hynny, mae'r Awdurdod yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr y mae'r gwasanaeth tân ac achub yn ei wneud i ansawdd bywydau pobl.

Trwy ein Cynllun Datblygiad Cynaliadwy, ein nod yw sicrhau ein bod yn cyfrannu i Gymru sy'n well, yn fwy diogel ac yn wyrddach. Rydym yn cydnabod bod arnom ni hynny nid yn unig i'r bobl leol sy'n talu am wasanaethau heddiw, ond hefyd i genedlaethau trigolion Gogledd Cymru yn y dyfodol, fel y byddwn cyhyd ag y bo modd, yn:

- gwastraffu cyn lleied â phosib yn ein gweithrediadau ein hunain; ac yn
- atal ac yn rheoli tanau a digwyddiadau eraill a allai niweidio'r amgylchedd.

Mae gostwng nifer y tanau yn gymorth i leihau allyriadau carbon a llygredd i'r awyr, dŵr a'r tir. Mae hefyd yn gallu bod yn gymorth i amddiffyn cynefinoedd naturiol pwysig.

Mae gostwng nifer y galwadau diangen yn gymorth i gwtogi ar nifer y teithiau a wneir gan injanau tân a cherbydau eraill, sy'n gallu cyfrannu at ostyngiad cyffredinol yn y defnydd o danwydd.

18. Gwella'r modd y caiff galwadau ffug eu hadnabod, a thrwy hynny ostwng nifer y teithiau diangen a gwastraffus lle nad oes unrhyw argyfwng.

19. Talu sylw arbennig i ostwng nifer y tanau yn gyffredinol, ac yn benodol danau yn yr awyr agored sy'n achosi difrod i gefn gwlad.

20. Gwella systemau ar gyfer monitro'r defnydd o danwydd, ac olrhain cerbydau o safbwynt gwella rheolaeth amgylcheddol ac arbed ynni lle bo modd.

Yr Ystafell Reoli yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer mwyafrif helaeth y bobl sy'n galw. Mae gweithredwyr yr Ystafell Reoli wedi cael eu hyfforddi i herio galwadau y maent yn eu hamau o fod yn ffug, ac i ymateb yn unol â hynny. Mae eu sgiliau yn cael eu harchwilio yn ffurfiol ac yn systematig er mwyn sicrhau bod safonau sgiliau uchel yn cael eu cynnal. Hefyd, defnyddir dulliau electronig i adnabod ffynhonnell galwadau o'r fath.
Aeth y gwasanaaeth allan at 3,743 o alwadau diangen yn ystod 2010-11 – 1% yn is na'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, yn yr is-set penodol o alwadau ffug maleisus yr aethpwyd allan atynt, roedd 16% o ostyngiad, o 140 i 118, ac mae hyn yn ganlyniad rhagorol.

Gostyngodd cyfanswm nifer y tanau hefyd 2% i 3,289 yn 2010-11. Fodd bynnag, o fewn y cyfanswm hwnnw, roedd cynnydd o 23% yn y tanau glaswelltir, coetir a chnydau, o 675 i 829. O blith yr 829 hynny, roedd 96% yn cael eu categoreiddio fel tanau llai, 'eilaidd' sy'n golygu bod llai na phum injan dân wedi mynd atynt a lle na chafwyd dim anafiadau.

Ystyriwyd bod 58% yn rhai wedi eu cynnau'n fwriadol. Ceir dadansoddiad mwy manwl ar www.statswales.wales.gov.uk Tabl 032981.

Gwnaed cynnydd da wrth gyflwyno ffyrdd i fonitro'r defnydd o danwydd ac olrhain cerbydau. Mae technoleg ychwanegol wedi ei gwneud yn bosib i adran y fflyd fonitro'r defnydd o'r fflyd yn llawer agosach, a manteiswyd ar gyfleoedd i dorri milltiroedd, adnabod prisiau tanwydd is ar y cwrt blaen, a chael mwy o economi tanwydd trwy osod cyfyngwyr cyflymder.

# Y FLWYDDYN A AETH HEIBIO 2010-11

## MAES FFOCWS 2010-11 – NEWID CYFREITHIOL A GWLEIDYDDOL

Fel sefydliad yn y sector cyhoeddus, mae'r Awdurdod yn ceisio cymryd rhan ar y llwyfan gwleidyddol er mwyn cael cymaint o effeithiolrwydd â phosib. Mae newidiadau yn y ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar y ffordd y mae'r awdurdod tân ac achub yn cael ei gyfarwyddo a'i reoli hefyd yn rhan bwysig o'r rheolaeth effeithiol hon.

### 21. Parhau i gynnal perthnasoedd effeithiol gyda rhanddeiliaid gwleidyddol wedi etholiad cyffredinol 2010

### 22. Addasu i'r prosesau newydd a'r amserlen sy'n gysylltiedig â dyfodiad y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

Cyflawnwyd y camau arfaethedig hyn.

## PAST YEAR 2010-11

**MAES FFOCWS 2010-11 – GWYBODAETH**

Mae'r gwasanaeth yn dibynnu'n fawr ar wybodaeth sy'n amserol, yn berthnasol ac yn ddigonol er mwyn gallu seilio penderfyniadau arnynt, gyrru gwelliannau, a mesur ei berfformiad ei hun.

23. Parhau i gynyddu argaeledd gwybodaeth amserol a pherthnasol yn ymwneud â pherfformiad (gan gynnwys y system Ffynnon genedlaethol); a diweddaru mewnrwyd y gwasanaeth.

24. Cyfrannu at ddatblygiad cydweithredol System Cofnodi Digwyddiadau (*IRS*) Cymru gyfan sydd wedi ei deilwra'n benodol ar gyfer anghenion Cymru.

25. Parhau i ymateb i faterion y tynnwyd sylw atynt yn arolwg y staff o safbwyntiau am gyfathrebu corfforaethol, gan gynnwys datblygu system o friffiadau tîm

26. Parhau i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y broses ymgynghori ynglŷn â'r gyllideb; cynllunio blynyddol ar lefel y gwasanaeth, siroedd a gorsafoedd; cofnodi ac adrodd gwybodaeth am y staff a'r gweithlu; cofnodi ac adrodd gwybodaeth am y fflyd; gwybodaeth yr ochr weithredol a rheoli cofnodion diogelwch tân; gwariant ar oramser, ac effeithlonrwydd.

Gwnaed rhywfaint o gynnydd mewn perthynas â darparu gwybodaeth, er bod pwysau ar y gyllideb wedi lleihau'r cynnydd mewn rhai meysydd (e.e. diweddaru mewnrwyd y gwasanaeth).

Nid yw'r defnydd o'r system genedlaethol y Ffynnon wedi ei rhoi ar waith eto (er bod y Gwasanaeth wedi parhau i ymwneud â rhaglen y Ffynnon). Bydd cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer hyn yn dod i ben yn Rhagfyr 2012.

Mae astudiaeth ddichonoldeb dechnegol wedi ei chynllunio mewn perthynas â mabwysiadu fersiwn o'r System Brydeinig ar-lein ar gyfer Cofnodi Digwyddiadau, a hynny ar weinydd ar gyfer Cymru er mwyn cofnodi ac adrodd gwybodaeth am ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt. Yn y cyfamser, mae'r Gwasanaeth yn parhau i ddefnyddio'r system Brydeinig sy'n rhad ac am ddim i'w defnyddio.

# Y FLWYDDYN A AETH HEIBIO 2010-11

## MAES FFOCWS 2010-11 – TECHNOLEG

Fel gyda phob sefydliad, mae'r tân ac achub yn dibynnu'n fawr ar dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gefnogi ei effeithiolrwydd yn weithredol ac yn gorfforaethol.

27. Parhau i gyflwyno a diweddaru systemau a gallu o ran technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) er mwyn cefnogi gwaith effeithlon, effeithiol a diogel. Mae'r rhain yn cynnwys gosodiadau clyweled, teclynnau hysbysu a radios safle tân, cyfrifiaduron ac argraffwyr, systemau'r ystafell reoli, systemau gwybodaeth am ddigwyddiadau; a systemau cyfrifyddu ariannol.

Mae'r camau arfaethedig hyn yn rhan o raglen barhaus o uwchraddio o fewn cyfyngiadau ariannol. Gweler hefyd yr adroddiad ar adolygiad thematig Swyddfa Archwilio Cymru o'r defnydd o Dechnoleg Gwybodaeth ar dudalen XX.

# Y FLWYDDYN A AETH HEIBIO 2010-11

**MAES FFOCWS 2010-11 – TREFNIADAU AR GYFER GWEITHLY RHAGOROL A THEG**

Fel cyflogwr mawr gyda gweithlu amrywiol, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gyson yn ceisio dod o hyd i ffyrdd i gadw gweithlu sgilgar a brwdfrydig, sydd ar gael pan fo angen, er mwyn bod yn effeithiol wrth ddarparu a chefnogi'r gwaith o gyflwyno gwasanaethau tân ac achub.

28. Cwblhau newidiadau yn dilyn adolygiad o staff yn yr ystafell reoli.

29. Cwblhau archwiliad o gyflog cyfartal.

30. Creu Cynllun Cydraddoldeb Sengl.

31. Cytuno ar Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda chwmni cyfraith cyflogaeth.

32. Cytuno ar Gytundeb Lefel Gwasanaeth neu benodi swyddog ymchwilio mewnol.

33. Parhau i symud ymlaen gyda'r Adolygiad o Swyddogion.

34. Ymestyn yr amrywiaeth o gytundebau ar y System Dyletswydd yn ôl y Galw i gynnwys cytundebau 25% a 50% er mwyn sicrhau 100% o argaeledd o ran peiriannau'r System yn ôl y Galw.

35. Datblygu proffil nodweddion a phriodweddau personol o'r Gwasanaeth o'r cofnodion cyfredol.

36. Adolygu'r cofnodion datblygiad personol a mewnosod Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol diwygiedig ar gyfer diffoddwyr tân.

37. Sefydlu systemau sicrwydd ansawdd ar gyfer dysgu a datblygu staff hyfforddi.

38. Adolygu'r ddarpariaeth hyfforddiant gyrru ar gyfer gyrwyr cerbydau brys.

39. Atgyfnerthu'r rhaglen ddatblygu sgiliau rheolwyr goruchwyliol.

40. Darparu gwybodaeth i weithwyr y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ynglŷn â'r opsiynau sydd ar gael i gynyddu'r buddion pensiwn, gan gynnwys mesurau effeithiol i gynilo ar gyfer ymddeoliad.

Gwnaed cynnydd mewn perthynas â'r rhan fwyaf o'r camau arfaethedig hyn, er bod rhai (yn enwedig cam 32) wedi eu rhoi o'r neilltu oherwydd cyfyngiadau ariannol, ac eraill yn dal yn yr arfaeth ond o fewn amserlen hwyach.

Trodd yr Adolygiad arfaethedig o Swyddogion yn Ailstrwythuriad Rheolaethol o 1af Ebrill 2011 ymlaen. Siapiwyd y strwythur newydd gan adolygiadau swyddogaethol llai a wnaed yn 2010-11, ac wedi trafodaethau manwl gyda'r staff a'r cyrff cynrychioliadol. Bydd y strwythur newydd yn arwain yn y pen draw at arbedion o ryw £450,000 y flwyddyn, tra hefyd yn gwella rhai meysydd mewn darpariaeth gwasanaethau.

# Y FLWYDDYN A AETH HEIBIO 2010-11

## CANLYNIADAU A PHERFFORMIAD - DIGWYDDIADAU BRYS YR AETHPWYD ATYNT


### GALWADAU 999 YR YMDRINIWYD Â HWY

Fel arfer, y pwynt cyswllt cyntaf gyda'r Gwasanaeth mewn argyfyngau yw'r ystafell reoli. Cafodd cyfanswm o 17,611 o alwadau yn gysylltiedig â digwyddiadau brys eu trin gan staff yr ystafell reoli yn 2009-10, sydd 2.3% yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol[8].

### TANAU A DIGWYDDIADAU GWASANAETH ARBENNIG YR AETHPWYD ATYNT

Yn ystod y flwyddyn, aeth criwiau tân a rheolwyr yr ochr weithredol at gyfanswm o 3,297 o danau a 1,355 o ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig nad oedd yn ymwneud â thân (yn cynnwys 617o wrthdrawiadau ar y ffyrdd). Roedd hyn 73 yn llai o danau a 149 yn llai o ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig na'r flwyddyn flaenorol.

**Cyfanswm y tanau a'r digwyddiadau gwasanaeth arbennig arbennarbennig rvice incidents attended**




Mae'r 48.57 o danau am bob 10,000 o boblogaeth yng Ngogledd Cymru yn cymharu'n ffafriol iawn gyda'r 68.91 am bob 10,000 o boblogaeth trwy Gymru gyfan.

COMMENT ABOUT WHY AND WHERE


[8] Darparwyd yr wybodaeth yn Ffurflenni Blynyddol OPSW6 2010-22 – 17,215.

## CANLYNIADAU A PHERFFORMIAD - TANAU YR AETHPWYD ATYNT

### TANAU YR AETHPWYD ATYNT

Yn y blynyddoedd diwethaf, cafwyd tueddiad cyson am i lawr yn nifer y prif danau a thanau eilaidd yng Ngogledd Cymru, er y gall y nifer amrywio o fis i fis yn ôl y tywydd (yn achos tanau yn yr awyr agored) a lefel y llosgi bwriadol.

| [redacted] | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2009-10 | 1,485 | 1,538 | 347 | 3,370 |
| Am bob 10,000 o boblogaeth | 21.90 | 22.69 | 5.12 | 49.71 |
| | | | | |
| 2010-11 | 1,347 | 1,625 | 325 | 3,297 |
| Am bob 10,000 o boblogaeth | 19.84 | 23.94 | 4.79 | 48.57 |
| | | | | |
| **Newid** | **-9.4%** | **+5.5%** | **-7.8%** | **-2.4%** |




Yn 2006-07, aeth y Gwasanaeth at **68.30** o danau am bob 10,000 o boblogaeth. Mae gwelliant cyson, yn seiliedig ar strategaeth ffocysedig o gynyddu diogelwch tân cymunedol trwy'r gogledd, wedi gweld y nifer hwnnw'n disgyn bob blwyddyn i **56.90** yn 2007-08, **49.95** yn 2008-09, **49.71** in 2009-10 a **48.57** yn 2010-11. Mae hyn hefyd yn cymharu'n dda iawn gyda chyfartaledd 2010-11 ar gyfer Cymru gyfan sef XXX o danau am bob 10,000 o boblogaeth[9].

Mae gostyngiad yn y prif danau yn un o'r mesurau gorau o ddiogelwch cynyddol, ac felly mae'n flaenllaw o ran lleihau risg. Mae llwyddiant dau ddull y Gwasanaeth o addysgu pobl i osgoi tanau damweiniol ac i gymryd camau i atal achosion o losgi bwriadol, i'w weld yn glir yn y dangosydd hwn.

[9] ADD REFERENCE TO data Bwletin Ystadegol Llywodraeth CymruWelsh Government Statistical Bulletin XXX/2011 (a gyhoeddwyd 13 Hydref 2011) sef XXXXX o danau yng Nghymru, ac amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Tabl StatsWales 016889), sef 2,999,319 o bobl yng Nghymru.

Cafodd y cynnydd pendant yn nifer y tanau simnai yn 2008-09 (i fyny o 280 yn y flwyddyn flaenorol i 376) ei wrthdroi yn 2009-10 (i lawr i 347) a daeth i lawr eto yn 2010-11 (i lawr i 325).


Does dim syndod nad yw nifer y tanau simnai yn gysylltiedig â'r tywydd, felly mae gostyngiad yn y categori hwn o danau yn adlewyrchu'r tymheredd a'r negeseuon amserol a roddir gan y Gwasanaeth i atgoffa pobl i gael glanhau eu simneiau gan lanhäwyr simnai cyfrifol.

## CANLYNIADAU A PHERFFORMIAD – TANAU MEWN CARTREFI

Dangoswyd mai tanau yn y cartref yw'r rhai lle mae pobl yn fwyaf tebygol o gael eu lladd neu eu hanafu, ac felly mae gostwng nifer y rhain yn un o brif amcanion yr Awdurdod.




Yn ogystal â chynyddu lefel diogelwch y cyhoedd, mae unrhyw ostyngiad yn y digwyddiadau i'r ochr weithredol hefyd yn newyddion da o ran y gost ariannol i'r Awdurdod. Gyda dau draean o weithlu'r ochr weithredol yn gweithio ar y System Dyletswydd yn ôl y Galw, lle mae cysylltiad rhwng y cyflog ag union nifer y digwyddiadau yr aethpwyd atynt a'r amser a gymerwyd i ymdrin â'r digwyddiadau hynny, mae effeithiolrwydd strategaeth ataliol y Gwasanaeth hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y gost gyffredinol o ymateb i argyfyngau.





Yn 2006-07, aeth y Gwasanaeth at **68.30** o danau am bob 10,000 o boblogaeth. Mae gwelliant cyson bob blwyddyn wedi gweld y nifer hwnnw'n disgyn i **56.90** yn 2007-08, **49.95** yn 2008-09 a **49.71** yn 2009-10. Mae hyn yn cymharu'n dda gyda chyfartaledd 2009-10 am Gymru i gyd, sef 63.98 o danau am bob 10,000 o bobl.

Mae cynnydd pendant yn nifer y tanau simnai yn 2008-09 (i fyny o 280 yn y flwyddyn flaenorol i 376) hefyd wedi gostwng fymryn yn 2009-10 (347). Felly, bydd y Gwasanaeth yn dilyn strategaeth ragweithiol debyg yn 2010-11, sef darparu cyngor amserol i ddeiliaid cartrefi ynglŷn â glanhau simneiau cyn misoedd y gaeaf er mwyn ceisio gostwng yr achosion o danau simnai hyd yn oed yn fwy.

## TANAU MEWN CARTREFI

Dangoswyd mai tanau yn y cartref yw'r rhai lle mae pobl yn fwyaf tebygol o gael eu lladd neu eu hanafu, ac felly mae gostwng nifer y rhain yn un o brif amcanion yr Awdurdod.




Mae tua 300,000 o gartrefi yng Ngogledd Cymru. Yn 2010-11, cafodd 469 o'r rheini eu difrodi gan danau damweiniol lle'r oedd rhaid i un injan dân o leiaf droi allan. Mae gostwng nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi yn un o nodau allweddol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, a da o beth yw gweld y gostyngiad mawr a gafwyd dros y degawd diwethaf.

Mae cyfran uchel (rhwng 90% a 95% bob blwyddyn) o'r tanau hyn yn cael eu diffodd cyn iddynt ledaenu y tu hwnt i'r ystafell lle bu iddynt gychwyn.

Mae'r canlyniadau hyn yn gysylltiedig â strategaeth Diogelwch Tân Cymunedol y Gwasanaeth, a phobl yn talu sylw i'r cynghorion am atal a chyfyngu tanau yn eu cartrefi, sicrhau eu bod yn cael rhybudd cynnar os bydd tân yn cychwyn, a gwybod sut i ymateb er mwyn sicrhau eu bod yn gallu dianc yn ddiogel o unrhyw ystafell yn eu cartref.

Mae strategaeth y Gwasanaeth ar gyfer cynyddu ei allu i gyfeirio ei waith ataliol i'r aelodau mwyaf bregus yn ein cymunedau yn cynnwys hyfforddi staff o asiantaethau gofal eraill i gynnal Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref fel rhan o'u cyswllt o ddydd i ddydd gyda'r bobl hyn. Defnyddir atgyfeiriadau a rhannu gwybodaeth hefyd fel ffordd i symud y rhwystrau sefydliadol sy'n bodoli rhag cadw pobl yn ddiogel. Hyd yn hyn, mae'r Gwasanaeth wedi sicrhau protocolau rhannu gwybodaeth a memoranda cyd-ddealltwriaeth gyda:

- Pob un o’r 6 awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Heddlu Gogledd Cymru
- Ambiwlans Cymru (Rhanbarth Gogledd Cymru)
- Tai Gogledd Cymru
- Grŵp Tai Pennaf
- Cymdeithas Dai Gogledd Cymru
- Cartrefi Conwy
- Pob un o’r 6 asiantaeth Gofal a Thrwsio yng Ngogledd Cymru
- Y Groes Goch
- Age Concern Gogledd Ddwyrain Cymru.

Fel rhan o gynllun archwilio 2010-11, cynhaliwyd Archwiliad Mewnol o waith y Gwasanaeth mewn partneriaeth ag asiantaethau a sefydliadau eraill. Daeth yr archwiliad i’r casgliad fod gwaith mewn partneriaeth wedi ei fewnblannu yn y Gwasanaeth, ac yn ganolog i gynnydd llwyddiannus gweithgarwch diogelwch cymunedol ond hefyd yn nodi bod, er bod hynny’n ddigonol, le i wella o ran y trefniadau llywodraethu.


Yn ogystal â gweithredu’r gwelliannau argymelledig, mae’r Gwasanaeth hefyd yn gweithio tuag at gydymffurfio â Chytundeb Cymru ar Rannu Gwybodaeth http://www.waspi.org/ - sef fframwaith rhannu gwybodaeth ar gyfer Cymru fel rhan o raglen Gwybodaeth Rhannu Gwybodaeth Bersonol Llywodraeth Cymru.

Mae llwyddiant y Gwasanaeth wrth dargedu cartrefi sy’n gymharol uwch o ran risg, yn adlewyrchu’r ffaith fod 134 o blith y 469 o danau damweiniol mewn cartrefi a ddigwyddodd yn 2009-10, wedi derbyn o leiaf un Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref yn ystod y ddwy flynedd cyn hynny.

Yn ogystal â’r targed blynyddol o gyflwyno 30,000 o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref am ddim, mae gan yr Awdurdod darged ategol a fyddai’n gweld 25% o’r cyfanswm a wnaed yn digwydd o ganlyniad i atgyfeiriad gan asiantaeth bartner.

## CANLYNIADAU A PHERFFORMIAD – GWEITHGAREDDAU DIOGELWCH TÂN CYMUNEDOL

Yn ystod 2010-11, aeth y Gwasanaeth at 396 o achlysuron arbennig, gan fynd â'r neges diogelwch tân i gynulleidfa yr amcangyfrifir ei bod yn 52,905 o bobl. Cafodd 827 o sgyrsiau eraill eu rhoi i grwpiau, sef cyfanswm o 17,007 o bobl. Mae hyn yn gynnydd o 9,155 o bobl y llwyddwyd i'w cyrraedd, gan dreulio 510 o oriau ar y gweithgareddau hyn o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol.




Yn dilyn cynnydd yn nifer y marwolaethau tân yng Ngogledd Cymru yn 2006, dechreuodd y Gwasanaeth ar raglen heriol iawn o weithgarwch Diogelwch Tân Cymunedol oedd wedi cynyddu'n sylweddol, ac a oedd yn cynnwys gosod targed cychwynnol i gyflwyno 30,000 o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref i drigolion bob blwyddyn.


Yn ystod 2010-11, aeth Gwasanaeth y tu hwnt i'w darged blynyddol ei hun o ran yr archwiliadau hyn, gan dreulio 47,532 o oriau staff yn ystod y flwyddyn, a darparu cyfanswm o 36,905 o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref am ddim.

Mae Strategaeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn seiliedig ar ddealltwriaeth o ffactorau sydd wedi cael eu hadnabod fel rhai cyfrannog, ac sy'n tueddu i wneud rhai pobl yn fwy tebygol nag eraill o gael tân yn eu cartref. Arweiniodd dadansoddiad manwl, a alwyd gan Dasglu'r Prif Swyddog Tân yn 2007, i'r casgliad mai'r ffordd ymlaen oedd trwy dargedu unigolion agored i beryglon yn hytrach na dibynnu ar fapiau cyfrifiadurol i fesur risg, - mapiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Prydain yn 2004 (*Fire Service Emergency Cover, FSEC*).

Er bod Gogledd Cymru wedi mabwysiadu dull gwahanol, mae hwnnw'n gyson â gweddill Cymru o ran yr Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref, ac ychydig yn well o ran eu darparu mewn ardaloedd mwy anghysbell.

Gan gymryd y cartrefi hynny sydd mewn ardaloedd yng nghategori FSEC 'risg uwch na'r cyfartaledd' a'r un cartrefi fel rhai sy'n cael eu dangos trwy gategorïau safon gwasanaeth 5 munud a 10 munud Llywodraeth Cymru, a throshaenu nifer yr Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gynhaliwyd yno gan y Gwasanaeth yn

2009-10, gwelwyd bod Gogledd Cymru yn cyd-fynd â'r cyfartaledd yng Nghymru, ac yn well mewn perthynas â'r safleoedd mwy anghysbell sydd y tu allan i'r safon gwasanaeth 10 munud.




Ar dudalen XXX darperir disgrifiad mwy manwl o'r safonau gwasanaeth ar gyfer cyrraedd digwyddiadau.

## CANLYNIADAU A PHERFFORMIAD – POBL SYDD Â LEFEL UCHEL O WYBODAETH A CHYFARPAR

Efallai nad yw un tân am bob 600 o gartrefi yng Ngogledd Cymru i'w weld yn uchel i ddechrau, mae ystadegau cenedlaethol dros nifer o flynyddoedd wedi dangos mai tanau yn y cartref yw'r rhai mwyaf angheuol, lle ceir y nifer uchaf o farwolaethau tân. Y rheini hefyd yw'r rhai y byddai hawsaf eu hatal petai trigolion yn dilyn canllawiau a ddylai fod yn gyfarwydd erbyn hyn.

Dros nifer o flynyddoedd, mae'r Gwasanaeth wedi rhoi negeseuon caled am y peryglon hyn (ymhlith rhai eraill):

- defnyddio sosban saim
- gadael bwyd yn coginio heb gadw golwg
- coginio dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau
- peidio â diffodd offer trydanol ar ôl eu defnyddio
- bod yn esgeulus wrth osod canhwyllau â fflam arnynt
- ysmygu yn y gwely
- bod yn esgeulus wrth gael gwared ar sigaréts
- chwarae â matsis
- peidio â rhoi giard o flaen tân agored
- peidio â gofalu bod simneiau'n cael eu glanhau'n rheolaidd
- peidio â chynnal a chadw weiars trydanol, a gorlwytho socedi
- gosod dillad i grasu o flaen gwresogyddion a thanau agored


Mae'r cynghorion a'r Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref, sydd am ddim, yn cynnwys cyflenwi a gosod larymau mwg yng nghartrefi pobl, ac maent yn gallu cynnwys rhoi offer arbenigol eraill i'w gynorthwyo i fod yn ddiogel. Bydd staff y Gwasanaeth Tân ac Achub yn rhoi cymorth i drigolion ystyried eu cynlluniau dianc petai yna dân, sy'n beth arbennig o bwysig os bydd y trigolion yn ifanc iawn, yn fregus neu'n anabl.

Hefyd, rhoddir cyngor ar y drefn cyn noswylio, sef gwirio bod drysau wedi cau'n iawn, offer trydanol wedi eu diffodd, canhwyllau a sigarét wedi eu diffodd yn ddiogel, tanau agored wedi eu gwneud yn ddiogel, ac yn y blaen.

## CANLYNIADAU A PHERFFORMIAD – PERCHNOGAETH LARYMAU MWG

Roedd yr Arolwg Byw yng Nghymru mwyaf diweddar yn dangos bod gan y rhan fwyaf o gartrefi yng Nghymru o leiaf un larwm mwg, a bod y nifer heb yr un wedi gostwng i tua 10% o'r cyfanswm yn 2008 o tua 14% bedair blynedd ynghynt. Y nod yn y pen draw yw sicrhau bod gan bob cartref o leiaf un larwm mwg, a hwnnw'n gweithio.

Er ei bod yn amhosibl gwybod yn union faint o gartrefi yng Ngogledd Cymru sydd â larwm mwg, mae dangosydd dirprwyol yn ymwneud â thanau domestig yr aethpwyd atynt lle'r oedd larwm mwg wedi canu.





Dros y blynyddoedd diwethaf, bu gostyngiad cyson yn nifer y tanau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru lle'r oedd larwm mwg yno. Yn 2009-10 roedd newid annisgwyl yn y patrwm gwella a oedd wedi ei sefydlu ei hun, a chredwyd bod hynny i'w briodoli naill ai i gyflwyno'r system gofnodi digwyddiadau Prydeinig a ddaeth yn Ebrill 2009, neu fel arall bod y Gwasanaeth yn mynd at danau yng nghartrefi grwpiau y mae'n anos eu cyrraedd o ran dylanwadu ar ei hymddygiad trwy'r negeseuon diogelwch niferus a'r cynnig o offer am gyngor ac offer am ddim.

Er bod canran y tanau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt yng Ngogledd Cymru yn ystod 2009-10 lle nad oedd larwm mwg yno (25%), mewn gwirionedd yn gymharol isel o'i chymharu â'r ganran trwy Gymru (41%), roedd yn bwysig monitro'r sefyllfa er mwyn gofalu nad oedd y perfformiad yn dechrau dirywio. Rydym yn falch o adrodd bod y perfformiad yn llawer gwell gydol 2010-11, ac roedd canlyniadau diwedd y flwyddyn yn dangos canran is nag erioed o danau mewn cartrefi lle nad oedd larwm mwg yno. Mae'r 16% yn y categori hwn yng Ngogledd Cymru yn cymharu'n eithriadol dda gyda'r cyfartaledd trwy Gymru, sef XXX%[10].

[10] YCHWANEGU CYFEIRNOD AT BWLETIN LLYWODRAETH CYMRU A GYHOEDDWYD 14 HYDREF 2011

# Larymau Mwg mewn Tanau mewn Cartrefi - Canrannau





Mae'r categori 'larwm yno, ond heb ganu' yn cwmpasu amrywiaeth o is-gategorïau sy'n cynnwys batris diffygiol neu absennol, namau a larymau wedi eu tynnu i lawr. Fodd bynnag, mae dadansoddiad yn dangos mai'r prif reswm yw bod cyfyngu'r tân yn golygu nad oes cyfle iddo, na'r mwg ohono, ledaenu at y larwm er mwyn gwneud iddo ganu.

## CANLYNIADAU A PHERFFORMIAD – POBL FWY DIOGEL

Yn y rhan fwyaf o'r achosion (91% yn 2010-11), mae tanau damweiniol mewn cartrefi yn cael eu cyfyngu i un ystafell. Fe allai'r cartref fod gryn bellter o'r orsaf dân agosaf, felly rhaid bod yn ofalus iawn i sicrhau bod unrhyw dân yn cael ei ganfod yn gynnar a bod drysau mewnol yn cael ei gadw ar gau er mwyn rhwystro'r mwg a'r tân rhag lledu. Gall y mesurau syml hyn wneud byd o wahaniaeth i'r canlyniadau i bobl ac eiddo yn yr amser cyn i'r gwasanaeth tân ac achub gyrraedd.

**Canran y Tanau Damweiniol mewn Cartrefi a Gyfyngwyd i'r Ystafell Lle Cychwynnodd**




Mae gwybod beth i'w wneud, a gwneud cynllun dianc cyn i argyfwng ddigwydd, yn gymorth i bobl mewn cartrefi ymateb yn gywir os bydd y larwm mwg yn canu, er mwyn iddynt allu mynd allan yn ddiogel heb orfod aros i injan dân gyrraedd.

## CANLYNIADAU A PHERFFORMIAD – POBL IACHACH AM FWY O AMSER

Nod yr Awdurdod yw gweld adeg pan fydd larwm mwg ymhob cartref, a hwnnw wedi ei osod yn iawn ac yn gweithio. Fodd bynnag, law yn llaw â'r strategaeth i ddarparu cynifer o gartrefi ag y bodd â larymau mwg am ddim a chyngor am ddim, rydym eisiau canolbwyntio ein hymdrechion ar y bobl yn y gymdeithas sydd fwyaf agored i beryglon a'r lleiaf galluog i ofalu amdanynt eu hunain. Trwy gydweithio gydag asiantaethau gofal eraill yng Ngogledd Cymru a gwneud defnydd o ffynonellau gwybodaeth dibynadwy, rydym yn ceisio cadw nifer yr adegau pan fo pobl yn cael eu lladd neu eu hanafu oherwydd tân mor isel ag y bo modd.

Yn ôl yn 2003, datganodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar y pryd mai targed Llywodraeth y Cynulliad oedd gostwng nifer y tanau yng Nghymru rhwng 30% a 50% yn y pum mlynedd ganlynol. Ers hynny, mae'r Cynulliad wedi egluro mai'r ffigyrau gwaelodlin i'w defnyddio i asesu cynnydd yr Awdurdodau Tân ac Achub yn erbyn y targed uchelgeisiol hwn fyddai'r rhai ar gyfer blwyddyn galendr 2004 pan fu 26 o farwolaethau tân yng Nghymru (21 o ganlyniad o danau damweiniol a 5 o ganlyniad i danau bwriadol).

Er bod marwolaethau oherwydd tân yn digwydd yn gymharol anaml yng Ngogledd Cymru, maen nhw'n ddigwyddiadau trasig y mae'r Awdurdod yn benderfynol o wneud ei orau i ostwng eu nifer hyd yn oed yn rhagor. Y gwirionedd trist yw y bydd hi, yn y rhan fwyaf o achosion, yn rhy hwyr i achub unrhyw un y tân erbyn i'r Gwasanaeth dderbyn yr alwad am gymorth. Ar adegau, ni fyddwn yn derbyn yr alwad hyd nes y bydd y tân wedi ei ddiffodd ei hun. Felly mae'r gwaith atal yn flaenllaw yn strategaeth yr Awdurdod ar gyfer gostwng nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu oherwydd tân.

## CANLYNIADAU A PHERFFORMIAD – POBL IACHACH AM FWY O AMSER

Yn 2009-10, fe wnaeth tân ladd llai nag un person, ac anafu llai na naw o bobl, am bob 100,000 o bobl yng Nghymru.

Yng Ngogledd Cymru yn 2010-11, ni chofnodwyd yr un farwolaeth oherwydd tân mewn eiddo annomestig, ond bu farw 10 o bobl eu bywydau mewn tanau mewn eiddo domestig. Fe wnaeth rhai tanau achosi mwy nag un farwolaeth. Mewn rhai achosion, ni ellir rhagweld canlyniadau trasig o'r fath, ond mae ymchwil wedi dangos bod marwolaethau tân yn aml yn gysylltiedig â bregusrwydd, dyna pam fod y Gwasanaeth yn parhau i ganolbwyntio ar weithio gydag asiantaethau gwirfoddol a gofal er mwyn adnabod pobl sydd fwyaf mewn perygl, a hynny er mwyn targedu'r holl gynghorion a chefnogaeth diogelwch a chael yr effaith fwyaf.

| [redacted] | [redacted] | [redacted] | [redacted] |
|---|---|---|---|
| 2009-10 | 6 | 2 | 8 |
| Am bob 100,000 o boblogaeth | 0.88 | 0.29 | 1.17 |
| | | | |
| 2010-11 | 10 | 0 | 10 |
| Am bob 100,000 o boblogaeth | 1.47 | 0 | 1.47 |


Yn ystod 2010-11, cofnodwyd bod 97 o bobl wedi cael anaf mewn tân. Mae hyn yn cynnwys toriadau a chleisiau yn ogystal â llosgiadau a sgaldiadau. Mewn tanau damweiniol y cafwyd 86 o'r anafiadau hynny, a 53 ohonynt mewn tanau damweiniol mewn cartrefi.

| [redacted] | [redacted] | [redacted] | [redacted] |
|---|---|---|---|
| 2009-10 | 57 | 12 | 69 |
| Am bob 100,000 o boblogaeth | 8.41 | 1.76 | 10.17 |
| | | | |
| 2010-11 | 86 | 11 | 97 |
| Am bob 100,000 o boblogaeth | 12.67 | 1.62 | 14.29 |

O'i gymharu â 2009-10, ac er bod nifer yr anafiadau tân yn gostwng yn gyffredinol, cododd nifer yr anafiadau oherwydd tân yn sylweddol yn 2010-11 (o 69 i 97). Cafodd deg yn rhagor o bobl eu hanafu mewn tanau damweiniol mewn cartrefi nag yn 2009-

10, a chafodd pump yn rhagor o bobl eu hanafu mewn tanau bwriadol mewn cartrefi nag yn 2009-10.

Mae’r anghysondeb hwn rhwng y canlyniadau rhagorol o ran gostwng nifer y tanau a pharhad yr anafiadau oherwydd tân – er mewn categorïau mân anafiadau – yn destun dadansoddi manwl.




Er ein bod yn falch o'r gostyngiad o'i gymharu â 2008-09, efallai bod y newidiadau wrth gofnodi mân anafiadau yn y System genedlaethol newydd ar gyfer Cofnodi Digwyddiadau, a ddaeth i rym yn y Gwasanaeth yn Ebrill 2009, yn gyfrifol am rai gwahaniaethau rhwng blynyddoedd.


Mae'r adran o'r llywodraeth ganolog sy'n gyfrifol am lunio ystadegau tân trwy Brydain wedi nodi'r diffyg parhad posib hwn mewn ystadegau anafiadau tân trwy Brydain sydd yn bodoli o ganlyniad i'r system Adroddiadau Data Tân (FDR) a oedd ar bapur gan mwyaf i'r System newydd ar gyfer Cofnodi Digwyddiadau [11] .

[11] Monitor Ystadegau Tân Ebrill 2009-Mawrth 2010 Rhifyn 03/10 20 Awst 2010 tud. 21. Hawlfraint y Goron. http://www.communities.gov.uk/publications/corporate/statistics/monitorq1q420091

## TANAU MEWN EIDDO ANNOMESTIG

Mae tua 27,000 o eiddo annomestig yng Ngogledd Cymru, a'r rhan fwyaf ohonynt yn dod dan ddeddfwriaeth sydd â'r nod o sicrhau diogelwch y bobl ynddynt. Mae'r adeiladau hyn yn cynnwys, er enghraifft, ysbytai, cartrefi gofal, tai wedi eu troi'n fflatiau, adeiladau cyhoeddus, ysgolion, siopau, adeiladau trwyddedig, swyddfeydd, ffatrïoedd, hostelau a gwestai.

Yn 2010-11, cafwyd tân mewn 229 o eiddo annomestig y bu'n rhaid i'r Gwasanaeth Tân ac Achub fynd atynt. Mae hynny'n cyfateb i tua 8.35 o danau am bob 1,000 o eiddo o'r fath, o'i gymharu â'r 10.74 yng Nghymru gyfan yn y flwyddyn flaenorol.





Ym mis Hydref 2006, daeth y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 i rym. Roedd dyfodiad y gorchymyn hwn yn newid rôl yr Awdurdod Tân ac Achub i fod yn un yn ymwneud â gorfodaeth yn hytrach nag ardystiad, felly mae ffocws y Gwasanaeth wedi newid yn fwy diweddar i flaenoriaethu safleoedd hysbys i gael archwiliad ffurfiol o'u trefniadau ar gyfer diogelwch tân.

## ARCHWILIADAU DIOGELWCH TÂN AR SAFLEOEDD

Cynhaliwyd cyfanswm o 723 o archwiliadau diogelwch tân ar safleoedd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys 237 mewn gwestai a hosteli, 160 mewn cartrefi gofal, 88 mewn ffatrïoedd, swyddfeydd a gweithleoedd eraill, 75 mewn safleoedd trwyddedig, 40 mewn siopau, 22 mewn ysgolion a safleoedd addysg bellach, a 32 mewn tai amlfeddiannaeth, y rheini sydd wedi eu troi'n fflatiau, a fflatiau pwrpasol sydd 4 llawr neu uwch. Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd 21 o Rybuddion Gorfodaeth a 5 o Rybuddion Gwahardd.

Ymatebodd y gwasanaeth i 481 o ymgynghoriadau statudol ac anstatudol gan asiantaethau eraill (e.e. rheoliadau adeiladu, safonau gofal a thrwyddedu) a oedd yn golygu 1,049 o oriau o waith yn ystod y flwyddyn[12].

Ers dyfodiad y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, mae nifer yr eiddo annomestig yng Ngogledd Cymru wedi codi 2.5% o 26,743 i 27,419. Yn yr un cyfnod, fodd bynnag, fe wnaeth nifer tanau yr aethpwyd atynt yn yr adeiladau hynny ostwng 28.7% o 321 i 229, gan awgrymu bod y trefniadau newydd dan y Gorchymyn yn effeithiol.





[12] Darparwyd yr wybodaeth yn Ffurflenni Gweithredol Blynyddol 2010-11, FSWs.

## TANAU BWRIADOL

Mae tanau bwriadol yn golygu risg mawr nid yn unig i fywydau ond hefyd i ansawdd y bywydau hynny, ffyniant economaidd yr ardal, ei ysgolion, ei synnwyr o gymuned, ei safleoedd hoff, yn hanesyddol ac o ran treftadaeth, a'r dirwedd amgylcheddol a naturiol.

Mae gan bobl wahanol gymhellion dros gynnau tanau'n fwriadol, gan gynnwys er mwyn celu tystiolaeth o drosedd neu er mwyn twyllo cwmnïau yswiriant neu er mwyn peri niwed bwriadol i'w hunain neu bobl eraill. Felly, mae'n gwneud synnwyr i'r Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Heddlu weithio gyda'i gilydd i ostwng nifer yr achosion o danau bwriadol, beth bynnag fo'r cymhelliad y tu ôl iddynt.




Fe wnaeth nifer y tanau bwriadol ostwng eto yn 2010-11 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 1,536 i 1,438). Er bod gostyngiad sylweddol yng nghategori'r prif danau, cafwyd cynnydd bychan yn y categori tanau eilaidd.

Wedi dweud hynny, roedd y 1,065 o danau eilaidd bwriadol yn 2010-11 yn welliant mawr ar y 1,314 yn 2007-08 a'r 1,711 yn 2006-07. Mae hyn yn dangos bod y cydweithio rhwng Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn effeithiol, ac yn cymharu'n dda iawn â'r gyfradd digwyddiadau trwy Gymru, sef XXX o brif danau bwriadol a XXX o danau eilaidd bwriadol am bob 1,000 o boblogaeth[13].

| [redacted] | | | |
|---|---|---|---|
| 2009-10 | 482 | 1054 | 1536 |
| Am bob 10,000 o boblogaeth | 7.11 | 15.55 | 22.66 |
| | | | |
| 2010-11 | 373 | 1065 | 1438 |
| Am bob 10,000 o boblogaeth | 5.50 | 15.65 | 21.19 |

13 ADD REFERENCE TO WELSH GOVERNMENT BULLETIN PUBLISHED 14TH OCTOBER 2011.

## DIGWYDDIADAU GWASANAETH ARBENNIG


Heblaw am fynd at danau, bydd y gwasanaeth tân ac achub yn mynd at amrywiaeth eang o ddigwyddiadau nad ydynt yn ymwneud â thân, sef 'digwyddiadau gwasanaeth arbennig'. Yn 2010-11 aeth y gwasanaeth at 617 o ddigwyddiadau ar y ffyrdd, 76 (12.3%) lle'r oedd rhaid rhyddhau pobl oedd yn sownd. Mae hyn yn cymharu ag 767 o ddigwyddiadau ar y ffyrdd yn y flwyddyn flaenorol, a 90 (11.7%) o'r rheini lle'r oedd rhaid rhyddhau pobl.

Aethpwyd at 738 o ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig pellach yn 2010-11, gan gynnwys er mwyn ymdrin â gollyngiadau a diferiadau (68), darparu/cael gwared ar ddŵr (27), achub anifeiliaid (44), rhyddhau lifftiau (55) a chynorthwyo i gael mynediad (52), cael pobl i ddiogelwch (79) a rhoi cymorth i wasanaethau'r Heddlu a'r Ambiwlans (60). Roedd y cyfanswm bron yn union yr un fach â'r flwyddyn flaenorol (735).

## GALWADAU DIANGEN


Mae'r Awdurdod yn cefnogi gosod Larymau Tân Awtomatig mewn eiddo annomestig fel ffordd i rybuddio pawb ar y safle fod tân wedi cychwyn. Fodd bynnag, pan fo'r larymau hyn naill ai heb gael eu gosod yn iawn neu eu cynnal a'u cadw'n iawn, neu pan nad yw'r systemau'n cael eu rheoli'n iawn, maent yn dueddol i greu galwadau diangen, sy'n golygu risg ychwanegol pan fod pobl yn dechrau anwybyddu'r hyn a ddylai fod yn arwydd iddynt fynd allan o'r adeilad.

At hynny, os bydd injan dân yn cael ei hanfon at safle pan nad oes unrhyw argyfwng, mae hyn yn wastraffus ac yn golygu y gallai fod yn rhaid i injan dân arall ddod o ardal bellach i ddelio â digwyddiad brys go iawn.




Mae'r gostyngiad yn sicr yn beth calonogol, ond mae'r 1,322 o ddigwyddiadau o'r fath yn 2010-11 yn dal yn golygu bod rhwng tri a phedwar o'r galwadau diangen hyn yn digwydd bob dydd. At hynny, mae newid canol blwyddyn o ganlyniad i adolygiad Prydeinig o'r modd yr oedd galwadau diangen yn cael eu cofnodi wedi cael yr effaith o leihau'r nifer yn y categori 'galwadau diangen gan systemau larwm awtomatig' yn artiffisial trwy eu trosglwyddo i'r categori 'galwadau diangen didwyll'. Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa ac i gofio y bydd cymariaethau yn 2011-12 wedi cael eu heffeithio. Hefyd, bydd y Gwasanaeth yn parhau i weithio gyda rheolwyr safleoedd i ostwng y nifer yn gyffredinol, ond gan dargedu'r systemau hynny sy'n creu nifer o alwadau diangen.

## GALWADAU DIANGEN




Bob blwyddyn, bydd y Gwasanaeth yn derbyn nifer o alwadau maleisus sy'n cael eu gwneud gyda'r bwriad o gael ymateb er nad oes unrhyw sefyllfa frys. Yn ogystal â bod yn anghyfreithlon, gallai'r math hwn o ymddygiad gynyddu lefel y risg trwy ddefnyddio adnoddau'n ddiangen, ac felly mae'n ddefnydd diangen ar arian yr Awdurdod. Am y rhesymau hyn, mae'r Gwasanaeth yn gwneud ei orau glas i adnabod y galwadau ffug hyn fel rhai maleisus cyn anfon unrhyw adnoddau atynt. Lle bo modd, mae'r Gwasanaeth hefyd yn cymryd camau yn erbyn pobl sy'n fwriadol yn gwneud y galwadau ffug hyn.

Yn 2010-11 gwelwyd bod nifer y galwadau diangen maleisus a dderbyniodd y Ganolfan Reoli wedi disgyn eto bron 13% wrth i bobl ddod i ddeall bod eu hymgais i alw allan beiriant tân yn ddiangen pan nad oes argyfwng o gwbl yn anhebygol o lwyddo. O blith y 491 o alwadau diangen maleisus a dderbyniwyd, cafodd dros dri chwarter (373, neu 76%) eu herio'n llwyddiannus gan weithredwr yn yr Ystafell Reoli. O'i gymharu â'r degawd blaenorol, yn 2001-02, mae nifer y galwadau diangen maleisus wedi haneru a mwy (o 1,158), a'r ganran yr aethpwyd atynt wedi gostwng 42% i lai na 25%.

## YMATEB YN GYFLYM I ALWADAU 999

Mae bod mewn sefyllfa i allu ymateb yn gyflym i alwad 999 yn un o feini prawf y gwasanaeth tân ac achub, ac mae'r mater yn cael ei gymryd yn gwbl o ddifrif. Roedd adolygiad diweddar gan Lywodraeth y DU [14] o'r amseroedd ymateb mewn gwasanaethau tân ac achub yn Lloegr yn ceisio esbonio pam fod amseroedd ymateb wedi bod yn codi'n genedlaethol ers 1999. Roedd eu dadansoddiad yn dangos mai'r effaith bwysicaf unigol oedd y cynnydd yn lefel y drafnidiaeth ar y ffyrdd. Nid oedd awgrymiadau eraill, megis ystyriaethau iechyd a diogelwch, y cynnydd yn y gwaith Diogelwch Tân Cymunedol gan griwiau a chael gwared ar y safonau cenedlaethol o ofal tân, yn cael eu cefnogi gan y dystiolaeth.

Cafodd ein penderfyniad i adleoli'r brif Ystafell Reoli i gyfleuster pwrpasol gyda Heddlu Gogledd Cymru ei wneud yn rhannol er mwyn gwella'r gwaith o gydlynu ymateb i alwadau am gymorth. Rydym hefyd wedi gwneud trefniant gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru fel ein bod yn cael gwybod am wrthdrawiadau ar y ffyrdd yn gynt er mwyn inni allu gwneud penderfyniad gwybodus ynglŷn ag anfon criw tân ar unwaith ai peidio. Yr hyn a arferai ddigwydd oedd y byddai gwasanaethau brys eraill yn cyrraedd yn gyntaf a dim ond wedyn y byddai rhywun yn gwneud asesiad i benderfynu a oedd angen y gwasanaeth tân ac achub ai peidio, ac roedd hynny'n golygu nad oedd y gwaith i ryddhau pobl oedd yn sownd yn eu cerbyd yn cychwyn tan yn hwyrach.

Mae gwaith arall yn ddiweddar i wella'r amseroedd troi allan a chyrraedd o orsafoedd tân, yn cynnwys defnyddio technoleg newydd i gynorthwyo gyda'r gwaith o ddethol yr injan dân agosaf neu gerbyd arall i gyrraedd, newid amseroedd cychwyn a gorffen shifftiau ar orsafoedd criw dydd, a diweddaru systemau anfon allan, cyfathrebu a gwybodaeth yn yr Ystafell Reoli yn barhaus.

Yng Ngogledd Cymru, mae 44 o orsafoedd tân, 36 sydd â dim ond criw diffodd tân sy'n gweithio ar y System Dyletswydd yn ôl y Galw lle byddant yn ymateb i declyn hysbysu o le bynnag y byddant yng nghyffiniau'r orsaf. Felly, mae cyflymder yr amser cyrraedd yn cymryd hyn i ystyriaeth, ac mae argaeledd digon o ddiffoddwyr tân ar y System Dyletswydd yn ôl y Galw yn ffactor allweddol o ran cynnal gofal llawn yng Ngogledd Cymru. Yn dilyn adolygiad o'r prosesau mewnol yn 2010 o ran y trefniadau ar gyfer recriwtio diffoddwyr tân y System Dyletswydd yn ôl y Galw, mae'r prosesau wedi cael eu symleiddio a'u gwella. Mae hyn yn cynnwys cael swydd newydd, sef 'Rheolwr Argaeledd' fel rhan o'r ailstrwythuro rheolaethol diweddar.

Trwy gael rheolaeth dda o'r fflyd, a rhoi gwasanaeth rheolaidd o ansawdd uchel i'r cerbydau hefyd yn chwarae eu rhan, gan gynnwys bod yn ofalus wrth drefnu'r gwiriadau cynnal a chadw - ar yr orsaf dân ei hun os oes modd - gellir cwtogi ar yr amser nad yw'r cerbydau ar gael.

Ar yr adegau prin hynny pan fydd oedi wrth gyrraedd safle digwyddiad, caiff hynny ei archwilio'n drylwyr er mwyn gallu dysgu gwersi i wella'r perfformiad yn gyffredinol.

[14] Adolygiad yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol o amseroedd ymateb Gwasanaethau Tân ac Achub. Cyfres Ymchwil i Dân 1/2009 http://www.communities.gov.uk/publications/fire/frsresponsetimes

## SAFONAU GWASANAETH AR GYFER CYRRAEDD DIGWYDDIADAU

Yn 2004, terfynwyd y 'Safonau Gofal Tân' Cenedlaethol a ddatblygwyd yn ystod yr 1930au, a hynny o blaid Cynlluniau Integredig Rheoli Risg wedi eu pennu'n lleol a'u teilwra i weddu i'r ardal leol. Yng Ngogledd Cymru, roedd yr Awdurdod yn cydnabod pa mor anfoddhaol – a thwyllodrus – oedd yr hen safonau Prydeinig[15], yn enwedig oherwydd nad oeddent yn berthnasol i ardaloedd eang o Ogledd Cymru gan eu bod yn cael eu categoreiddio fel rhai 'gwledig anghysbell'.

Edrychodd Awdurdod Tân Gogledd Cymru ar y mater yn bragmataidd. Gan gydnabod bod pob digwyddiad brys yn cael eu cyrraedd mewn amser cyfartalog oedd fymryn dan naw munud, ymrwymodd yr Awdurdod yn 2004 i beidio â gadael i'r safon uchel honno ddirywio, a mynd ymlaen i gyflwyno amrywiaeth o welliannau i wneud ymateb y Gwasanaeth hyd yn oed yn well. Er enghraifft, ers hynny, mae'r Gwasanaeth wedi:

- cyflwyno meddalwedd newydd ar gyfer anfon allan fel bod yr adnodd agosaf a mwyaf priodol yn cael ei ddewis a'i anfon at y digwyddiad brys;
- adolygu'r 'safonau cyrraedd gosodedig' er mwyn gofalu bod yr adnoddau mwyaf priodol a anfonir fel mater o drefn at fathau penodol o ddigwyddiadau a lleoliadau;
- gwella ei wybodaeth o'r ffyrdd cyflymaf i gartrefi anghysbell a diarffordd;
- rhoi offer ychwanegol ar ei holl injanau tân rheng flaen fel nad ydynt yn gorfod disgwyl am gerbyd arall i ddod â nhw i'r digwyddiadau;
- adleoli'r Ystafell Reoli i le ar y cyd ag Ystafell Reoli Heddlu Gogledd Cymru a gwneud trefniadau i gael gwybod am wrthdrawiadau ar y ffyrdd gan Ystafell Reoli Ambiwlans Cymru fel bod modd ymateb yn fuan;
- cyflwyno Terfynellau Data Symudol i beiriannau tân fel rhan o fenter genedlaethol;
- parhau i fuddsoddi yn y fflyd o gerbydau brys a'r dechnoleg a ddefnyddir I hysbysu criwiau a'u hanfon allan.

At hynny, cynyddodd y Gwasanaeth yn fawr ei weithgarwch atal – o'r cyfartaledd o ryw 3,000 o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref hyd at 2004-05 i dros 30,000 y flwyddyn – a chanolbwyntio'n arbennig ar rai agweddau megis darparu cyngor i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig anghysbell, lleihau nifer y tanau bwriadol, a chynorthwyo i wella diogelwch ar y ffyrdd.

Yn 2006, mynegodd Llywodraeth y Cynulliad y byddai'n cyflwyno safon gwasanaeth newydd ar gyfer Cymru. Ymrwymodd i sicrhau y byddai 80% o gartrefi (o'u mesur trwy Gymru i gyd) yn ddigon agos i orsaf dân i alluogi i injan dân gyrraedd o fewn 10

[15] Roedd Cynllun Integredig Rheoli Risg yr Awdurdod 2004-05: 'Risg 4 - Mae Safonau Gofal Tân yn Dwyllodrus' yn dangos hyn gyda'r enghraifft o sefyllfa dan yr hen safonau Prydeinig lle byddai tân bychan mewn siop wag mewn dinas fawr yn cael dwy injan dân o fewn pum munud a thrydydd o fewn wyth munud, ond y byddai tân gyda'r nos yng nghartrefi teulu mewn pentref gwledig yn cael dim ond un injan dân o fewn ugain munud .

munud. Dywedwyd bod cartrefi sydd y tu mewn i'r dalgylchoedd hyn 'o fewn y safon gwasanaeth 10 munud'.

O fewn y 10 munud, caniatawyd i'r criwiau yn ôl y galw ymateb i'w gorsaf tân a newid i'w dillad diffodd tân cyn troi allan. Felly, roedd y pellter o orsaf dân yn sicr o fod yn eithaf byr.

Roedd safon 5 munud Llywodraeth y Cynulliad yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas â rhai o'r ardaloedd dwys eu poblogaeth a risg uchel yng Nghymru. Er eu bod wedi cael eu hadnabod trwy fodelu risg ar gyfrifiadur fel rhai sy'n dueddol o fod â chyfraddau anafusion uwch, nid oedd yr ardaloedd hyn o reidrwydd o fewn 5 munud i orsaf dân.

Roedd rhaglen o weithgarwch ychwanegol ym maes atal tanau i ddigwydd mewn ardaloedd sy'n bellach i ffwrdd oddi wrth orsafoedd tân.

Ryw ddwy flynedd yn ddiweddarach, yn Chwefror 2008, cyhoeddwyd manylion y dehongliad a dderbyniwyd, ynghyd â mesuriad o'r Safon cymhleth hwn[16].

Fodd bynnag, trwy'r profiad o fesur perfformiad yn erbyn y Safon Gwasanaeth hwn daeth ffaeleddau mawr i'r amlwg, a dechreuwyd ar adolygiad yn 2009. Datblygwyd dull newydd, gyda'r bwriad iddo ddisodli Safon 2006 o Ebrill 2011 ymlaen. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Tachwedd 2010 ac Ionawr 2011, cyhoeddwyd cylchlythyr gan Lywodraeth yng Ngorffennaf 2011[17] a oedd yn cadarnhau na fyddai'n ofynnol adrodd am berfformiad yn erbyn Safon Gwasanaeth 2006 yn 2010-11.

Bydd y Gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi amser ac adnoddau i wella'r modd y mae'n ymateb i ddigwyddiadau. Hefyd, bydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn datblygu safon cyrraedd lleol yn ystod 2011-12, sy'n briodol i ardal Gogledd Cymru nawr, yn ddibynnol ar unrhyw gynnig arall a ddaw i rym gan Lywodraeth Cymru.

[16] Gorchymyn 2008 Rhif 450 (W.40) a gyhoeddwyd yn Chwefror2008
[17] W-FRSC(2011)19 a gyhoeddwyd 21 Gorffennaf 2011

## GWEITHLU IACH, DIOGEL A CHYNHYRCHIOL

### Absenoldeb salwch

Yn Ebrill 2008, dyfarnwyd y wobr aur i'r Gwasanaeth yn y Safon Gorfforaethol Iechyd yn y Gwaith i gydnabod ei lwyddiannau o ran iechyd a lles yn y gweithle. Yn Ebrill 2011, dilyswyd hyn am dair blynedd bellach.

Erbyn hyn, mae'r Gwasanaeth yn gweithio tuag at y wobr blatinwm, gan adlewyrchu ymrwymiad yr Awdurdod i gefnogi iechyd a lles y staff.

Yn 2010-11, nifer y diwrnodiau neu shifftiau a gollwyd gan staff oherwydd absernoldeb salwch oedd 3,259, sy'n hafal i 7.1 o ddiwrnodiau neu shifftiau a gollwyd am bob gweithiwr sy'n cyfateb i lawn amser (ac eithrio staff ar y System Dyletswydd yn ôl y Galw).

O'u cymharu â'r 4,023 o ddiwrnodiau neu shifftiau a gollwyd oherwydd absenoldeb yn y flwyddyn flaenorol (8.8 am bob gweithiwr sy'n cyfateb i lawn amser), mae hyn yn ostyngiad sylweddol, a hynny hyd yn oed yn well gan fod y gwelliant i'w weld ymhob un o'r categorïau staff – yr ochr weithredol, yr ystafell reoli a'r ochr gefnogol.

Mae hyn hefyd yn cymharu'n ffafriol â'r cyfraddau absenoldeb salwch yn awdurdodau lleol Cymru, sef cyfartaledd o 10.34 o ddiwrnodiau a gollwyd am bob person yn 2010-11. [18]

Mae pob aelod o'r staff sy'n absennol oherwydd salwch yn dod dan bolisi rheoli absenoldeb y Gwasanaeth, sy'n ceisio cael cydbwysedd rhwng cymorth cefnogol a chamau teg a chlir gan y rheolwyr.

### Ymddeoliadau ar sail afiechyd

Mae'r gwasanaeth tân ac achub yn cymryd iechyd a diogelwch yn gwbl o ddifrif, nid yn unig ar gyfer criwiau tân sy'n mynd at ddigwyddiadau brys sy'n gallu bod yn beryglus ond hefyd ein gweithwyr unigol, mecanigion, cogyddion, gyrwyr, thechnegwyr cynnal a chadw - yn wir, pob un o'n gweithwyr.

Cyn belled ag y bo modd, rydym yn addasu ar gyfer afiechyd difrifol tymor hir ac anabledd, ac yn gwneud addasiadau priodol fel y gall pobl barhau'n gyflogedig gyda ni.  O dro i dro, fodd bynnag, ymddeol ar sail afiechyd yw'r unig ddewis realistig.

Yn 2010-11, cafwyd 11 o ymddeoliadau o'r Gwasanaeth oherwydd afiechyd.  Mae hyn yn 1% o gyfanswm y gweithlu. Roedd pump ohonynt heb fod yn gysylltiedig â'r gwaith, a chwe achos yn dal heb gael eu penderfynu ar ddiwedd y flwyddyn adrodd.

---

[18] Bwletin Perfformiad Awdurdodau Lleol 2010-11 a gyhoeddwyd gan Uned Ddata Cymru 29 Medi 2011.  http://www.dataunitwales.gov.uk/Publication.asp?id=SX7E49-A7800480&lang=cy

## GWEITHLU IACH, DIOGEL A CHYNHYRCHIOL

### Anafiadau i'r Staff

Ym mis Mawrth 2010, fe gyhoeddodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ddatganiad gyda'r bwriad o egluro sut y dylai'r Gwasanaeth Tân ac Achub gydymffurfio â dyletswyddau iechyd a diogelwch yn y gwaith o fewn eu gwaith ar yr ochr weithredol. Dan y teitl ***Striking the Balance***, mae'r datganiad hwn yn nodi'r heriadau penodol i'r Awdurdodau Tân ac Achub fel cyflogwyr. Roedd yn nodi:

Mae gweithredu'r gyfraith iechyd a diogelwch yn her i gyflogwyr Tân ac Achub mewn perthynas â rhywfaint o'u gweithgarwch ar yr ochr weithredol oherwydd:

- rhaid iddynt anfon diffoddwyr tân i sefyllfaoedd peryglus er mwyn achub bywydau, pan fyddai pawb arall yn ceisio dianc o'r perygl;
- yn aml, mae disgwyliadau afrealistig gan y cyhoedd y bydd diffoddwyr tân yn eu rhoi eu hunain mewn perygl hyd yn oed pan fo peryglon o'r fath yn gorbwyso unrhyw fanteision posib i'w hennill;
- mae llawer o'r digwyddiadau y mae diffoddwyr tân yn eu hwynebu yn gallu datblygu'n gyflym, rhai'n gallu datblygu mewn ffyrdd annisgwyl – ac fe allai diffoddwyr tân, o bryd i'w gilydd, wynebu sefyllfaoedd sydd y tu hwnt i'w profiad;
- rhaid iddynt baratoi gweithwyr unigol i allu gwneud penderfyniadau mewn sefyllfaoedd peryglus, cyflym, ac sy'n llawn emosiwn a phwysau, hyd yn oed pan allai fod, weithiau, wybodaeth anghyflawn neu anghywir am y sefyllfa;
- rhaid iddynt ymateb i sefyllfaoedd peryglus sydd heb fod wedi eu creu ganddynt hwy eu hunain – mae hyn yn wahanol i'r rhan fwyaf o sectorau eraill, lle mai busnes y cyflogwr sy'n creu'r peryglon; ac
- efallai na fyddant yn gallu rheoli neu liniaru rhai agweddau ar yr amgylchedd gweithio.

Nid yw'r Gwasanaeth yn cyfyngu ei reolaeth iechyd a diogelwch i ddigwyddiadau ar yr ochr weithredol wrth gwrs, ac mae pob damwain a ddigwyddodd ac a fu bron â digwydd, ynghyd ag anafiadau, yn cael eu cymryd gymaint o ddifri, p'un ai ydynt yn digwydd (er enghraifft) mewn swyddfa, cegin, man hyfforddi neu yn y gymuned.

Yn 2010-11, collwyd 263 o ddyddiau dyletswydd arferol oherwydd anafiadau a gafodd 18 o bobl mewn digwyddiadau ar yr ochr weithredol. Er bod unrhyw anaf yn destun pryder, mae hyn yn welliant sylweddol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda nifer y diwrnodiau a gollwyd wedi cael ei ostwng ddau draean, a nifer y staff a anafwyd yn nigwyddiadau'r ochr weithredol wedi eu haneru.

Cafodd 35 o ddiwrnodiau dyletswydd arferol eu colli oherwydd anafiadau a gafwyd gan 20 o bobl yn ystod gweithgareddau arferol. Mae hyn hefyd yn welliant enfawr o'I gymharu â'r flwyddyn flaenorol pryd y collwyd 243 o ddiwrnodiau dyletswydd arferol gan 35 o bobl a anafwyd yn ystod gweithgareddau arferol.

O ran anafiadau wrth hyfforddi ar gyfer digwyddiadau'r ochr weithredol, cafodd nifer y bobl a anafwyd ei ostwng yn llwyddiannus o 29 i 15, ond roedd nifer y diwrnodiau

dyletswydd arferol yn sylweddol uwch (556 o'i gymharu â 285) oherwydd bod dau o'r anafiadau hynny wedi arwain at golli bron 500 o ddiwrnodiau dyletswydd.

O'i gymharu â 7 yn y flwyddyn flaenorol, nid oedd yr un o'r anafiadau a gafodd staff yn 2010-11 yn rhai i'w hadrodd fel anafiadau mawr yn ystod y flwyddyn dan y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 1995 (RIDDOR). Nid oedd yr un yn angheuol.


## SEFYDLIAD EFFEITHLON Y MAE'N DDA GWNEUD BUSNES AG O

Mae'r Awdurdod yn ceisio bod yn sefydliad da i wneud busnes ag o, ac un agwedd ar hynny yw pa mor gyflym y mae'n setlo ei filiau gyda chwmnïau sy'n darparu nwyddau a gwasanaeth masnachol.

Yn 2010-11, fe wnaeth y Gwasanaeth brosesu 10,055 o anfonebau oedd yn dod o fewn y categori hwn – 380 yn llai nag yn 2009-10.

Talwyd 9,513 (94.6%) o fewn 30 diwrnod o dderbyn yr anfoneb.

**Canran yr Anfonebau Diddadl a dalwyd o fewn 30 diwrnod**



## NEWIDIADAU I FFIGYRAU 2009-10 A ADRODDWYD O'R BLAEN

Nid oes unrhyw newidiadau i'w hadrodd am ffigyrau 2009-10 a adroddwyd yn y Cynllun i Leihau Risg a Gwella a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod yn Hydref 2010.

| Cyfeirnod | Diffiniad | Canlyniadau a gyhoeddwyd | Canlyniadau wedi archwiliad |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |

Mae dadansoddiad llawn o'r holl ffigyrau yn Adran 6.

## GWELLA ANSAWDD BYWYDAU POBL MEWN AMRYWIOL FFYRDD

Roedd llwyddiant wrth ymdrin ag argyfyngau ar yr ochr weithredol, a hynny'n aml dan amgylchiadau anodd a pheryglus, yn amlwg unwaith eto trwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, yn ogystal â hyn, roedd y gwasanaeth hefyd yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o fentrau gyda'r nod o wella ansawdd bywyd pobl, lleihau risg a gwella'r gwasanaeth yn gyffredinol.

Mae eitemau newyddion yn cael eu rhyddhau trwy gydol y flwyddyn, a byddant ar gael ar wefan y Gwasanaeth. Dyma ddetholiad o weithgarwch y flwyddyn, gan ddangos amrywiaeth eang o bethau y mae'r gwasanaeth yn cymryd rhan ynddynt.

**Ebrill 2010** – Ymunodd staff o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru gyda Heddlu Gogledd Cymru ac asiantaethau gofal iechyd a chymdeithasol am wythnos er mwyn ymweld â phentrefi gwledig ym Meirionnydd yn y bws diogelwch cymunedol i ddarparu cyngor arbenigol i drigolion hŷn mewn ardaloedd sy'n anodd eu cyrraedd. Hefyd, bu staff y Gwasanaeth yng Ngholeg Iâl yn Wrecsam gyda staff o Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i ddarparu digwyddiad undydd ar gyfer myfyrwyr y coleg.

**Mai 2010** – Bu'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol yn gweithio gyda Cheidwad Mynydd Helygain i gynorthwyo i leihau nifer y tanau bwriadol yn ardaloedd Brynffordd a Phenre Helygain yn Sir y Fflint.

**Mehefin 2010** – Lansiwyd ymgyrch dewis iaith ar gyfer diogelwch tân gan y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru. Ymunodd y tri Gwasanaeth Tân ac Achub gyda'i gilydd i hyrwyddo gwasanaeth dwyieithog i gynorthwyo i gadw pobl yn ddiogel gartref.

**Gorffennaf 2010** – Datgelodd diffoddwyr tân Cymru eu cyfarpar amddiffyn personol, sy'n cael ei ystyried yn un o'r gwisgoedd diffodd tanau mwyaf datblygedig yn y byd. Cynhaliwyd wythnos o ddigwyddiadau diogelwch ar y ffyrdd yn Llandudno. Roedd y 'Digwyddiad Addysgu Modurwyr' yn rhan o ymgyrch Heddlu Gogledd Cymru dros yr haf, wedi ei hanelu at hyrwyddo gweithio'n dda mewn partneriaeth.

**Awst 2010** – Cafodd pobl ifanc o Sir Ddinbych gyfle i dreulio pum niwrnod fel diffoddwyr tân.

Llenwyd pum sgip â sbwriel o ystad cyngor yn ystod diwrnod amgylcheddol. Cliriwyd bron bedair tunnell o wastraff a sbwriel o Forfa'r Garreg ym Mhwllheli. Trefnwyd y diwrnod gan Gyngor Gwynedd, Cymunedau yn Gyntaf, Cartrefi Cymunedol Gwynedd a Chadw Cymru'n Daclus. Hefyd, cynhaliwyd dros 30 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ystod y diwrnod.

**Medi 2010** – Arweiniodd tân a gychwynnwyd yn fwriadol at ddinistrio dros 2,000 o fyrnau gwair, yn ogystal ag ysgubor. Cymerodd diffoddwyr tân wyth awr i ddiffodd y tân yn ardal Treffynnon.

Bu deg injan dân yn trin tân ar safle ailgylchu yn Sir y Fflint. Bu'r criwiau'n gweithio ar y safle gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ac Adran Iechyd yr Amgylchedd, ac yn cynghori trigolion yr ardal i gadw eu drysau a'u ffenestri ar gau. Ni chafwyd unrhyw anafiadau.

## GWELLA ANSAWDD BYWYDAU POBL MEWN AMRYWIOL FFYRDD

**Hydref 2010** – Agorwyd yr orsaf dân ar ei newydd wedd yn Llangefni gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Carl Sargeant AC.
Cynhaliwyd digwyddiad diogelwch ar y ffyrdd yng Ngholeg Cymunedol y Rhyl. Gwnaed cyflwyniadau i fyfyrwyr rhwng 16 a 18 mlwydd oed gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, a Bikesafe.
**Tachwedd 2010** – Ymunodd y Gwasanaeth gyda Heddlu Gogledd Cymru yn y fenter B.A.N.G. sydd wedi eu hanelu at geisio gostwng nifer y digwyddiadau a'r ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ystod cyfnod Calan Gaeaf a Noson Tân Gwyllt.
Lansiwyd system gyfathrebu newydd gwerth £45m ar gyfer y gwasanaethau tân ac achub trwy Gymru.
Rhybuddiodd staff Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru am beryglon y llusernau papur sy'n dod yn fwyfwy poblogaidd.
**Rhagfyr 2010** – Rhoddodd staff o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru sgwrs yn hyrwyddo diogelwch tân mewn digwyddiad a drefnwyd gan CAIS (yr asiantaeth cyffuriau ac alcohol), yn Neuadd Morfa, y Rhyl.  Bydd CAIS yn cynnig y dewis o gael Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref i'w holl gleientiaid fel mater o drefn.
Lansiwyd menter newydd o'r enw 'Drunk Cook, Won't Cook' i gadw myfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor yn ddiogel dros yr ŵyl.  Argraffwyd y neges hon yn ddwyieithog ar fatiau cwrw a phosteri ledled y campws.
**Ionawr 2011** – Defnyddiwyd FACEBOOK gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i addysgu myfyrwyr am beryglon tân, yn ogystal â mynd i'r digwyddiad 'Serendipedd' a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Bangor i gynorthwyo i godi ymwybyddiaeth.

**Chwefror 2011** – Dathlodd Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl ei 35,000fed ymwelydd â'r orsaf ers iddi agor ei drysau i'r gymuned ym Medi 2008.

**Mawrth 2011** – Mewn ymarferiad llifogydd brys o'r enw 'Gwyniad', daeth y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru, Heddlu Gogledd Cymru, yr RNLI, tîm Chwilio ac Achub yr Awyrlu, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a Chymdeithas Achub Mynydd Gogled Cymru at ei gilydd ar Lyn Tegid.

## GWEITHIO GYDAG ERAILL– BLWYDDYN O GYDWEITHIO

Mae'r awydd i gyflawni mwy ledled y sector cyhoeddus yng Nghymru trwy gydweithio yn un y mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi bod yn gweithio'n galed i'w gyflawni, ac mae'n cymryd yr awenau mewn nifer o agweddau ar weithio ar y cyd. Dyma rai enghreifftiau yn unig o'r math o fentrau y mae'r Gwasanaeth yn rhan ohonynt:

- Rhoi hyfforddiant ac offer i staff mewn sefydliadau partner e.e. Gofal a Thrwsio, Cymdeithas Tai Gogledd Cymru, Tai Pennaf, Tai Clwyd i ddarparu Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref i'r bobl y byddant yn dod i gysylltiad â hwy.

- Addysgu pob gyrwr – a gyrwyr ifanc yn arbennig – trwy'r Sioeau Ardrawiad a gynhelir gyda Heddlu Gogledd Cymru, Ambiwlans Cymru a swyddogion diogelwch y ffyrdd o'r cynghorau sir.

- Ymweld ag ysgolion i roi gwybodaeth am ddiogelwch tân fel rhan o gwricwlwm Cyfnodau Allweddol 1 i 4.

- Cynnal archwiliadau amlasiantaethol er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar ddiogelwch (gan gynnwys diogelwch tân) mewn adeiladau trwyddedig yn foddhaol.

- Cydweithio ag asiantaethau lleol eraill (gan gynnwys cyfleustodau) i baratoi ar gyfer unrhyw argyfyngau ar raddfa fawr a allai ddigwydd yn y dyfodol.

- Cydweithio fel rhan o wasanaeth swyddogion y wasg ar alwad ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru, a hynny fel ffordd gynaliadwy o ddarparu cymorth y tu allan i oriau i'r cyfryngau.

- Gweithio gyda Choleg Llysfasi a Heddlu Gogledd Cymru i ddatblygu ac asesu sgiliau Cymraeg ymhlith staff.

- Cydweithio â gwasanaethau tân ac achub eraill ar hyfforddiant, caffael, recriwtio, trefniadau'r ystafell reoli, dan ddarparu cefnogaeth i'n gilydd mewn digwyddiadau ar draws ffiniau.

- Cynnal ymarferion gydag amrywiaeth o sefydliadau ymateb eraill er mwyn sicrhau gwaith llwyddiannus ar y cyd mewn digwyddiadau, e.e. Brigâd Dân Dulyn, yr Awyrlu, timau Achub Mynydd, nyrsys gofal trawma, twnelau'r A55, Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymrwymo i adolygu'n barhaus pa mor effeithiol yw ei waith ar y cyd a'r trefniadau partneriaeth, ac i gynyddu nifer y partneriaethau cynhyrchiol y mae'n eu trefnu.

## BARN ALLANOL AM WASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

## 1. Asesiad Cymheiriaid o Sicrwydd Gweithredol Darparu Gwasanaethau

Fel rhan o'r broses Sicrwydd Gweithredol (rhagor o fanylion i'w cael yn Adran 5 o'r ddogfen hon), fe wnaeth tîm o aseswyr cymheiriaid dreulio nifer o ddiwrnodiau'n edrych ar hunanasesiad yr Awdurdod, cyfweld staff, aelodau'r Awdurdod a phartneriaid. Arweiniodd hyn at adroddiad ar hunanasesiad yr Awdurdod yn erbyn dau lwybr ymholi - sef Rheoli Risg Cymunedol a Diogelwch Cymunedol.

Cadarnhaodd y tîm asesu cymheiriaid fod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn wir yn adnabod ac yn blaenoriaethu'r risgiau sy'n wynebu'r gymuned. Nodwyd:

- y dull arloesol a ddatblygwyd yng Ngogledd Cymru i ddeall a thargedu'r rhai y mae eu proffil risg yn eu rhoi mewn mwy o berygl. Roedd y tîm hefyd yn falch fod y Gwasanaeth yn parhau i gynyddu ei ddealltwriaeth o amrywiaeth y bobl sy'n byw yng Ngogledd Cymru;
- y flaenoriaeth uchel a roddir i gynnal Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref, a dealltwriaeth y gwasanaeth o'r ffactorau sy'n cyfrannu at eu gwneud yn fwy agored i dân;
- yr ymwneud eang gyda phartneriaid wrth ddatblygu'r Cynllun Lleihau risg. Roedd hyn o ganlyniad i adborth cyffredinol ac ymwneud â phartneriaid gydol y flwyddyn yn hytrach na bod yn benodol i broses y Cynllunio i Leihau Risg;
- bod yr Awdurdod yn cydnabod y gallai wneud mwy i ddatblygu ei brosesau adolygu a dysgu, ac i symud yn nes at ddull yn seiliedig ar ganlyniadau.

Hefyd, cadarnhaodd y tîm asesu cymheiriaid bod gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru drefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer cyflwyno Diogelwch Cymunedol, a hynny'n unol â'r risgiau a'r blaenoriaethau a adnabuwyd. Nodwyd:

- y cysylltiadau clir sydd rhwng yr amcanion yn ei Gynllun i Leihau Risg ac amcanion ei Strategaeth Diogelwch Cymunedol
- y dystiolaeth glir o fewnblannu diwylliant o gydweithio i gefnogi cynnydd llwyddiannus y gweithgarwch Diogelwch Cymunedol
- y dull rhagweithiol a blaengar o edrych ar weithio mewn partneriaeth
- y gwaith sylweddol i gynnal nifer fawr o Archwiliadau Diogelwch Tân Cymunedol, a'r rheini wedi eu targedu'n briodol. Bu'r tîm hefyd yn ystyried bod y dull o edrych ar risg a chynnal Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref wedi ei fewnblannu'n dda yn y modd y mae'r Gwasanaeth yn cael ei redeg
- y potensial i gynyddu'r gwaith o fesur a gwerthuso gweithgarwch Diogelwch Cymunedol er mwyn cefnogi'n fwy cyson y gwaith o rannu arferion da a gwellilannau parhaus
- y potensial i gynyddu cadernid y modd y mae'n monitro'r wybodaeth am atgyfeiriadau risg uchel sy'n cael ei chofnodi yn ei System Rheoli Cofnodion.

## 2. Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru

Yn Awst 2010, lluniodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch y modd y mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael ei drefnu a'i reoli.

Casgliad cyffredinol yr adroddiad hwnnw oedd bod "arweinyddiaeth gadarn a gwelliannau i lywodraethu corfforaethol yn debygol o gefnogi gwelliannau yn y dyfodol". Negeseuon allweddol yr adroddiad oedd bod yr Awdurdod yn gyffredinol yn cael ei redeg yn dda o ran arweinyddiaeth, llywodraethu, datblygu polisïau a rheoli adnoddau a phobl. Canfu hefyd fod yr Awdurdod yn gweithio'n dda mewn partneriaeth gydag eraill. Nodwyd rhai gwendidau o ran rheoli perfformiad, ond roedd y rhai eisoes wedi cael eu cydnabod, a chamau wedi cael eu cymryd i wella cadernid y systemau rheoli gwybodaeth. Roedd pedwar maes i gyd yr oedd yr archwiliad yn tybio y gallai'r Awdurdod fod yn dymuno eu hystyried.

I ddilyn yr adroddiad asesu rhagarweiniol hwn, daeth Adroddiad Gwella Blynyddol yn Ionawr 2011 a oedd yn canolbwyntio ar reolaeth, hunanymwybyddiaeth, gwasanaeth a darpariaeth yr Awdurdod. Roedd yr adroddiad hwn yn ychwanegu dau faes pellach i'w hystyried, ac yn rhoi disgrifiad o'r Awdurdod a oedd yn un cadarnhaol yn gyffredinol.

Mae'r adroddiadau hyn ar gael ar http://www.wao.gov.uk/fireauthorities_745.asp.

Ni nododd yr Archwilydd Penodedig unrhyw angen am archwiliad statudol dan adran 10A o Ddeddf Llywodraeth Leol Act 1999, ac yn argymell na ddylai Gweinidogion Cymru ar yr adeg honno roi cyfarwyddyd dan adran 15 o'r Ddeddf.

Mae cynnydd mewn perthynas â'r camau arfaethedig yn cael ei fonitro gan Swyddfa Archwilio Cymru, gyda threfniadau i ddarparu adroddiadau cyhoeddus rheolaidd.

## 3. Astudiaethau Thematig Swyddfa Archwilio Cymru

Yn 2010, adnabu Swyddfa Archwilio Cymru, trwy ei waith Asesu Gwelliannau, fod llawer o awdurdodau'n ymgodymu â sicrhau bod technoleg a gwybodaeth yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi trawsnewid gwasanaethau a chael arbedion effeithlonrwydd. O ganlyniad i hynny, cynhaliwyd adolygiadau o dechnoleg a rheoli gwybodaeth mewn awdurdodau yn ystod 2011.

**Technoleg**

Roedd yr adolygiad hwn yn ceisio ateb y cwestiwn: 'A yw trefniadau'r Awdurdod ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi gwelliannau parhaus?'

Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod trefniadau'r Awdurdod ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi gwelliannau parhaus. ::

**Rheoli Gwybodaeth**

Roedd yr adolygiad hwn yn ceisio ateb y cwestiwn: 'A yw dull yr Awdurdod o edrych ar reoli gwybodaeth yn cefnogi gwelliannau'n gadarnhaol?'

Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod dull yr Awdurdod o edrych ar reoli gwybodaeth yn cefnogi gwelliannau, a'i fod yn gyffredinol yn ymwybodol o'r materion y mae angen iddo fynd i'r afael â nhw. Fodd bynnag, roedd yr adborth hefyd yn awgrymu y gallai fod lle i wella trefniadau llywodraethu.

**Adborth**

Roedd yr adborth a ddaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnig rhai meysydd penodol ar gyfer gwella, a bydd yr Awdurdod nawr yn eu hystyried ar gyfer eu datblygu o fewn cynlluniau gweithredu wedi eu costio.

DRAFT

Yn Hydref 2009, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru ei Lythyr Blynyddol at yr Awdurdod am 2008-09.

Roedd yn cadarnhau:

- bod y Datganiad o Gyfrifon wedi ei lunio'n gywir, ac na chafwyd unrhyw wendidau perthnasol yn y systemau ariannol arwyddocaol.

- bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol yn eu lle i sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau yn 2008-09.

- bod Cynllun Gwella'r Awdurdod 2009-10 yn cwrdd â'r gofynion statudol ac yn darparu barn gytbwys am ei berfformiad yn 2008-09.

- bod yr Awdurdod wedi gwneud cynnydd wrth ymdrin ag ystod o risgiau, a bod angen iddo nawr gytuno ar feysydd blaenoriaethau fel y nodir yn yr Asesiad Risg ar y Cyd yn 2009.

- bod yr Awdurdod wedi gwneud cynnydd wrth ostwng y lefelau risg i'r ochr weithredol a nodwyd gan y Tîm Asesu Cymheiriaid, a'i fod yn gweithio tuag wella rhagor ar ei ymateb ar yr ochr weithredol.

- bod yr Awdurdod wedi gwneud cynnydd wrth ostwng lefel y risg a nodwyd yn yr Asesiad Risg ar y Cyd.

Nid oedd yr Archwilydd Penodedig yn nodi unrhyw angen am arolygiad statudol dan adran 10A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, ac roedd yn argymell na ddylai'r Gweinidogion Cymreig roi unrhyw gyfarwyddyd ar y pryd hwnnw dan adran 15 o'r Ddeddf.

DRAFT

# ADRAN 3

## Y FLWYDDYN GYFREDOL 2011-12

### YMGYNGHORIAD 2010 AR GYNLLUN LLEIHAU RISG 2011-12 A THU HWNT

Dros haf 2010, bu'r Awdurdod yn ymgynghori ar amcanion drafft ar gyfer 2011-12 a thu hwnt. Roedd yr ymgynghoriad yn ymwneud â dwy agwedd ar wella.

Roedd yr **agwedd gyntaf** yn ymwneud â'r ddyletswydd gyffredinol i wella, ac yn gofyn i bobl p'un ai yr oeddent yn meddwl bod yr Awdurdod yn iawn i deimlo'n hyderus ei fod yn mynd i allu gwella. Roedd yr ymgynghoriad yn disgrifio:

- rhan yr Awdurdod mewn partneriaethau a chydweithio, hunanasesiadau ac adolygiadau, archwiliadau mewnol, asesiadau cymheiriaid ac archwiliadau ac arolygiadau allanol;
- gweithdrefnau ffurfiol yr Awdurdod ar gyfer cynllunio ac adrodd, trefniadau monitro a ffynonellau cyngor proffesiynol;
- trefniadau'r Awdurdod ar gyfer datblygu'r aelodau a chodau ymddygiad, strwythurau pwyllgorau i yrru gwelliannau yn eu blaen, polisïau a gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â methiannau (e.e. trin cwynion).

Roedd yr **ail agwedd** yn ymwneud â saith amcan penodol ar gyfer gwella, gyda thri ohonynt wedi cael eu hadnabod trwy'r broses Cynllunio i Leihau Risg.

Unwaith yr oedd yr Awdurdod wedi cymeradwyo Cynllun draft ar gyfer Lleihau Risg a Gwella 2009-12 a dogfen ymgynghorol, gosodwyd y cynllun draft ar wefan yr Awdurdod i gyfeirio ato fel 'gwaith yn mynd rhagddo' gan aros archwiliad, bod data cymharu ar gael, ayyb. Yn unol â'r cyfarwyddyd a ddaeth, caniatawyd cyfnod o 12 wythnos ar gyfer ymgynghori, a derbyniwyd ymatebion hyd at, ac yn cynnwys, y dyddiad cau sef 10 Medi 2010.

Argraffwyd a dosbarthwyd 3,500 o gopïau papur o'r ddogfen ymgynghorol, sef 'Dweud eich Dweud, ac anfonwyd e-byst at bobl i roi gwybod bod y ddogfen hefyd ar gael yn electronig ar wefan yr Awdurdod.

Cysylltwyd ag amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau, yn cynnwys: Cynghorau Tref a Chymuned, cynghorwyr sir, ASau, ACau ac ASEau, cymdeithasau tai, mudiadau o'r sector gwirfoddol, awdurdodau tân ac achub eraill, cwmnïau a broceriaid yswiriant, cyflogwyr rhai diffoddwyr tân yn ôl y galw, ac ystod o sefydliadau a allai fod â diddordeb ym mhynciau penodol eleni.

Anfonwyd copi at bob un o aelodau'r Awdurdod a'r staff.

Anfonwyd copïau o'r ddogfen i lyfrgelloedd ledled y gogledd, a'u dosbarthu mewn sioe amaethyddol yn ystod yr haf. Rhyddhawyd datganiad i'r wasg gan yr adran Cyfathrebu Corfforaethol, ac anfonwyd llythyr gan y Cadeirydd gyda phob dogfen a aeth yn y post er mwyn egluro'r broses ac i annog pobl i gymryd rhan.

## YMGYNGHORIAD 2010 AR GYNLLUN LLEIHAU RISG 2011-12 A THU HWNT

Roedd y ddogfen ymgynghorol a'r cynllun draft ar gael ar wefan yr Awdurdod, ac mae cyfleuster sain ar gyfer pobl sy'n cael trafferth darllen. Hefyd, roedd gwybodaeth ar gael trwy safle'r Gwasanaeth ar Facebook.

Derbyniwyd ymatebion trwy'r holiadur a ddarparwyd, trwy lythyr ac e-bost, ac yn electronig trwy'r cyswllt a ddarparwyd ar wefan yr Awdurdod.

Daeth 22 o ymatebion ysgrifenedig i law yn y dyddiad cau, ac un wedi hynny. Dadansoddwyd pob un, a bu Panel Gweithredol yr Awdurdod yn ystyried crynodeb o'r cynnwys ar 20 Medi 2010.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion a ddaeth i law yn cefnogi'r amcanion arfaethedig ar gyfer gwella, a'r trefniadau y mae'r Awdurdod yn bwriadu eu rhoi yn eu lle er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

Roedd rhai ymatebion yn ceisio eglurhad pellach ac esboniad ar y cynigion, tra'r oedd eraill yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer mesurau ychwanegol neu wahanol.

Nid oedd dim un yn anghytuno'n uniongyrchol â'r hyn yr oedd yr Awdurdod yn ei gynnig, er bod rhai yn mynegi safbwyntiau ynglŷn â blaenoriaethau perthynol petai gwasgfa o ran arian.

DRAFT

## AMCANION NEWYDD Y GWASANAETH AR GYFER 2011-12 A THU HWNT

Yn unol â'r dyddiadau terfynol a ddisgwylid, fe gyhoeddodd yr Awdurdod ei Gynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella ar gyfer 2011-12 yn Hydref 2010.

Gan wynebu'r angen i leihau ei gyllideb, penderfynodd yr Awdurdod yn ei gyfarfod yn Rhagfyr 2010 i rewi ei gyllideb refeniw ar £32miliwn dros y tair blynedd nesaf, a fyddai, mewn gwirionedd, yn golygu arbediad o £2.45miliwn fel arian parod – gostyngiad o 7.5% - a hwnnw i'w rannu'n hafal dros y tair blynedd. Byddai hyn yn golygu gostyngiad yn y gyllideb o £800,000 ymhob blwyddyn yn 2011-12, 2012-13 a 2013-14.

Felly, cyflwynwyd tri amcan newydd ar gyfer y gwasanaeth (A, B a C) am y flwyddyn, gyda'r nod o gynnal neu wella'r lefelau gwasanaeth i'r cyhoedd, ond heb gynyddu'r gyllideb.

## CYNLLUNIAU'R GWASANAETH

Er mwyn gofalu bod yr amcanion yn cael eu cyflawni fel y cynlluniwyd yn 2011-12, mae agweddau wedi eu neilltuo (gyda chyllidebau, lle bo'n berthnasol) i gynlluniau gwasanaeth adrannau. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu monitro'n ganolog bob chwarter er mwyn sicrhau bod y camau a'r gwariant a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn ar y trywydd iawn.

## MESURAU A DANGOSYDDION PERFFORMIAD LLEOL

Mae'r tudalennau canlynol yn cyflwyno amcanion yr Awdurdod ar gyfer 2011-12, ac esboniad cryno o'r rheswm pam y mabwysiadwyd pob un, y canlyniadau a ddisgwylir, yr hyn mae'r Gwasanaeth yn ei wneud i gyflawni'r amcanion, a'r mesurau a'r dangosyddion perfformiad y bydd llwyddiant yr Awdurdod yn cael ei fesur yn eu herbyn.

DRAFT

| Amcan Gwella 1 | (Effeithiolrwydd Strategol) |
|---|---|

| **Amcan** | **Ceisio cadw pobl a chymunedau'n ddiogel trwy atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi.** |
|---|---|
| Rheswm | Mae diogelwch cymunedol yn flaenoriaeth proffil uchel i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Er bod nifer gwirioneddol y marwolaethau a'r anafiadau oherwydd tanau mewn cartrefi yn yr ardal yn isel, mae effaith pob un yn uchel iawn. Gwnaed cynnydd da dros y degawd diwethaf wrth ostwng nifer yr achosion o danau damweiniol mewn cartrefi, ond mae gostyngiad tebyg yng nghyfradd y marwolaethau ac anafiadau yn profi'n anodd ei sicrhau. O'i chymharu ag mewn ardaloedd eraill, mae'r gyfradd achosion yn dal yn uwch nag y gallai fod. |
| Y canlyniad a ddisgwylir | Mae pobl yn disgwyl bod yn ddiogel gartref. Gyda'r gefnogaeth a'r cyngor cywir, gall pobl eu diogelu eu hunain rhag tanau damweiniol, trwy atal tân rhag digwydd yn y lle cyntaf, a thrwy wybod sut i ymateb yn gyflym ac yn gywir os bydd un yn digwydd.<br>Lle bo hynny'n methu, dylai pobl fod yn hyderus y bydd y gwasanaeth tân ac achub yn ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i'w hachub ac i gyfyngu ar y difrod i'w heiddo. |
| Y camau arfaethedig | 1. Gweithredu Strategaeth Diogelwch Cymunedol/Lleihau Risg, sy'n cynnwys:<br>• Darparu Cyngor Diogelwch Cymunedol<br>• Targedu a theilwra'r ddarpariaeth Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref<br>• Darparu offer yn rhad ac am ddim yn ôl yr angen a asesir.<br>2. Asesiad cymheiriaid o'r Strategaeth Diogelwch Cymunedol.<br>3. Monitro'n barhaus yr achosion o danau mewn cartrefi.<br>4. Cael sefydliadau partner i ddysgu gwersi o ganlyniad i danau mewn cartrefi er mwyn lleihau'r tebygolrwydd ohonynt yn digwydd eto.<br>5. Defnyddio gwybodaeth i ragweld ac atal tanau mewn cartref.<br>6. Datblygu safon cyrraedd lleol er mwyn cefnogi ymateb cyflym a chywir i danau mewn cartrefi.<br>7. Gwella argaeledd gorsafoedd tân y system yn ôl y galw, trwy reolaeth fwy effeithlon o'r prosesau recriwtio. |
| Mesurau llwyddiant | • Gostyngiad mewn marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad o danau damweiniol mewn cartrefi<br>• Cynnydd yn y % o bobl a ddihangodd yn ddianaf a heb gymorth o danau damweiniol mewn cartrefi<br>• Cynnydd yn y % o danau damweiniol mewn cartrefi a gyfyngwyd i'r ystafell lle bu iddynt gychwyn<br>• Gostyngiad yn y % o danau mewn cartrefi lle nad oedd larwm mwg yno<br>• Cynnydd yn y % o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gynhaliwyd yn dilyn atgyfeiriad gan sefydliad partner<br>• Cwblhau asesiad cymheiriaid o'r Strategaeth Diogelwch Cymunedol<br>• Gostyngiad yn niffyg argaeledd gorsafoedd y system yn ôl y galw oherwydd lefel criwio annigonol<br>• Datblygu safon cyrraedd lleol, a mesur gwaelodlin yn ei erbyn. |

DRAFT

**Amcan Gwella 2 (Ansawdd Gwasanaethau)**

| | |
|---|---|
| Amcan | **Cynorthwyo i leihau'r risg o danau'n digwydd yn ddamweiniol mewn eiddo annomestig, fel bod gweithgarwch arferol yn gallu parhau ac nad yw bywydau pobl sy'n ymweld ac yn gweithio yno'n cael eu rhoi mewn perygl.** |
| Rheswm | Gyda dyfodiad y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yn trosglwyddo cyfrifoldeb am ddiogelwch tân mewn adeiladau perthnasol i reolwyr y safleoedd hynny. Roedd hynny'n golygu bod y gwasanaeth tân ac achub yn newid o fod yn gorff tystysgrifo i fod yn awdurdod gorfodi. Gyda disgwyl cyfnod o gyfyngu economaidd, mae posibilrwydd i danau gynyddu mewn eiddo annomestig lle mae pobl i'w cael a lle nad oes pobl i'w cael. |
| Y canlyniad a ddisgwylir | Mae pobl yn disgwyl bod yn ddiogel mewn eiddo annomestig megis adeiladau cyhoeddus, gweithleoedd, gwestai, siopau a safleoedd chwaraeon. Mae angen i gymunedau hefyd deimlo'n hyderus na fydd tân yn difrodi eu hysgolion lleol, eu hysbytai, busnesau, cyfleusterau diwylliannol neu hamdden, neu'n achosi i sylweddau peryglus gael eu rhyddhau i'r amgylchedd. |
| Y camau arfaethedig | 1. Datblygu'n barhaus raglen dargedu archwiliadau o drefniadau diogelwch tân mewn eiddo annomestig gan ddefnyddio gwybodaeth leol a gwybodaeth sydd yn y System Rheoli Cofnodion.<br>2. Ymateb cyflym a chywir i danau mewn eiddo annomestig gan griwiau tân sydd â gwybodaeth ar derfynellau data symudol wedi eu cysylltu â chofnodion am beryglon a gwybodaeth arall. |
| Mesurau llwyddiant | • Gostyngiad yn nifer y tanau mewn eiddo annomestig.<br>• Cynnydd yn nifer cardiau gwybodaeth yr ochr weithredol a gwblheir.<br>• Cynnydd yn nifer yr ymweliadau risg â safleoedd risg uchel. |

DRAFT

| Amcan Gwella 3 | (Ansawdd Gwasanaethau) |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Amcan | **Cynorthwyo i leihau'r perygl a'r difrod a achosir gan argyfyngau nad ydynt yn danau, megis llifogydd, gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, a digwyddiadau cemegol.** |
| Rheswm | Mae'r gwasanaeth tân ac achub yn ymateb i ystod eang o ddigwyddiadau nad ydynt yn danau, a hynny gyda gradd uchel o arbenigedd technegol ac offer arbenigol. Mae llifogydd a digwyddiadau eraill sy'n ymwneud â'r tywydd yn gyffredin iawn yn y gaeaf, ac mae gwrthdrawiadau ar y ffyrdd yn fwy cyffredin na thanau trwy gydol y flwyddyn. Mae yna bosibilrwydd o ddigwyddiadau cemegol mewn adeiladau ac wrth gludo. |
| Y canlyniad a ddisgwylir | Amgylchedd mwy diogel, lle mae graddfa'r difrod i adeiladau a'r niwed i bobl yn cael eu lleihau gan wasanaeth achub sydd â sgiliau ac offer da. |
| Y camau arfaethedig | 1. Parhau i weithio'n rhyngasiantaethol (e.e. gydag Asiantaeth yr Amgylchedd) a chyfranogiad gweithredol yn y Fforwm Cydnerthedd Lleol.<br>2. Parhau i gymryd rhan mewn cynlluniau sydd â'r nod o gynyddu diogelwch ar y ffyrdd, megis Pass Plus Cymru, y Cynllun Addysg Moduro a'r Sioeau Gwrthdrawiadau.<br>3. Datblygu dull o greu proffiliau o wrthdrawiadau ar y ffyrdd yng Ngogledd Cymru er mwyn cefnogi a gwella'r strategaeth i liniaru eu heffeithiau.<br>4. Datblygu dangosyddion perfformiad lleol, a mesurau gwaelodlin yn eu herbyn, i gefnogi gwelliant yn y maes hwn.<br>5. Cynnydd parhaus yn y cofnodion cywir o ddeunyddiau peryglu sydd ar safleoedd. |
| Mesurau llwyddiant | • Bod wedi datblygu a chyflwyno dangosyddion perfformiad lleol sy'n cefnogi gwelliant profedig o ran effeithiolrwydd wrth ymateb i ddigwyddiadau brys nad ydynt yn danau. |

**Amcan Gwella 4 (Effeithiolrwydd Strategol)**

| | |
|---|---|
| Amcan | **Cynorthwyo i fynd i'r afael â phroblemau llosgi bwriadol fel nad yw pobl, cymunedau, busnesau, yr amgylchedd a threftadaeth yr ardal yn cael eu rhoi mewn perygl.** |
| Rheswm | Mae pobl yn cynnau tanau'n fwriadol am amrywiaeth o resymau. Mae rhai'n gysylltiedig â throseddau a phatrymau ymddygiad gwrthgymdeithasol- yr hyn a elwir yn droseddau 'signal', sef rhai a allay droi'n fwy difrifol os na chedwir llygad arnynt. Mae rhai eraill yn gysylltiedig â chyflyrau seicolegol a/neu ymddygiadol, sy'n arwain at hunanladdiad neu pyromania.<br>Gwnaed cyswllt rhwng cynnydd mewn llosgi bwriadol ag adegau o ddirwasgiad a dirywiad economaidd, ac mae gostyngiad yng nghyllidebau'r sector cyhoeddus yn gallu golygu bod llai arian yn cael ei wario ar fesurau diogelwch megis gosod camerâu CCTV mewn ardaloedd problemus. Mae cost adnewyddu'r difrod a achosir gan danau bwriadol mewn adeiladau cyhoeddus (e.e. ysgolion) a mannau cyhoeddus (e.e. parciau) yn gwthio cyllidebau hyd yn oed ymhellach. |
| Y canlyniad a ddisgwylir | Dim cynnydd mewn tanau bwriadol. |
| Y camau arfaethedig | 1. Cydweithredu â Heddlu Gogledd Cymru ac asiantaethau cyhoeddus a gwirfoddol eraill i atal tanau bwriadol a fandaliaeth oherwydd tân.<br>2. Gweithio'n agos gyda grwpiau ac unigolion penodol (e.e. trwy gynlluniau'r Ffenics a FACE) i ddylanwadu ar ymddygiad a'i gyfeirio oddi wrth losgi bwriadol. |
| Mesurau llwyddiant | • Gostyngiad yn nifer y tanau bwriadol yr awn atynt<br>• Nifer y bobl sy'n cwblhau cyrsiau'r Ffenics<br>• Bod wedi datblygu a chyflwyno dangosyddion perfformiad lleol, sy'n dangos ac yn hybu gwelliant o ran effeithiolrwydd cyrsiau'r Ffenics a'r cynlluniau FACE er mwyn dylanwadu ar ymddygiad a'i gyfeirio oedi wrth losgi bwriadol. |

DRAFT

**Amcan 5  (Y Cynllun Lleihau Risg)                    (Cynaliadwyedd)**

| | |
|---|---|
| Amcan | **Canolbwyntio ar wella datblygiad cynaliadwy'r Awdurdod trwy gael y cydbwysedd iawn rhwng effaith amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol darparu gwasanaeth tân ac achub.** |
| Rheswm | Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru eisoes wedi cyflawni llawer o waith amgylcheddol ac arbed ynni, yn bennaf trwy leihau ei ôl troed carbon trwy reoli ei adeiladau a'i gerbydau a'i ddefnydd o danwydd, ynni a dŵr.<br>Fodd bynnag, mae llawer mwy i'w wneud, gan gynnwys rhoi'r cynllun datblygiad cynaliadwy ar waith fesul cam. |
| Y canlyniad a ddisgwylir | Gogledd Cymru sy'n well, yn ddiogelach ac yn wyrddach, a hynny trwy reoli'i datblygiad cynaliadwy yn barhaus. |
| Y camau arfaethedig | Rhoi'r Cynllun Gweithredu Datblygiad Cynaliadwy ar waith fesul cam. |
| Mesurau llwyddiant | Pob agwedd ar y Cynllun Gweithredu Datblygiad Cynaliadwy yn cael ei fonitro:<br>• Gostyngiad yn nefnydd y Gwasanaeth o ynni a thanwydd<br>• Gostyngiad yn allyriadau tŷ gwydr y Gwasanaeth (ôl troed carbon y Gwasanaeth ei hun)<br>• Gostyngiad yn y defnydd o ddŵr<br>• Gostyngiad yn y gwastraff y mae'r Gwasanaeth yn ei anfon i'w dirlenwi<br>• Cynnydd yng ngwerth ystâd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru o ran bioamrywiaeth<br>• Gostyngiad mewn carbon o ganlyniad i ostwng nifer y tanau yng Ngogledd Cymru |

DRAFT

**Amcan Gwella 6 (Y Cynllun Lleihau Risg) (Tegwch)**

| | |
|---|---|
| Amcan | **Dod yn well am adnabod ac ymgysylltu â phobl a allai eu cael eu hunain dan anfantais gymdeithasol a/neu economaidd, fel ein bod yn gallu gwella eu synnwyr o les, a lleihau'r risg i'w diogelwch personol.** |
| Rheswm | Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn treulio llawer o amser yn meithrin perthynas â grwpiau lleiafrifol a chyrraedd allan at bobl sydd mewn mwy o berygl oherwydd amgylchiadau personol neu gyflwr eu hiechyd.<br>Mae enghreifftiau'n cynnwys:<br>▪ Cyflogi Cydlynydd y Trydydd Sector i gynorthwyo i ddatblygu cytundebau lefel gwasanaeth gyda chynrychiolwyr o amrywiaeth o grwpiau lleiafrifol<br>▪ Darparu archwiliadau diogelwch tân yn y cartref wedi eu teilwra ar gyfer gwahanol anghenion (e.e. pobl anabl neu oedrannus a bregus);<br>▪ Cynnal cyrsiau wythnos ar gyfer carcharorion yng Ngharchar Altcourse yng Nglannau Mersi;<br>▪ Cynnal amrywiaeth eang o raglenni ar gyfer pobl ifanc ac ysgolion;<br>▪ Gweithio gyda gyrwyr ifanc i gynorthwyo i hybu mwy o ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar y ffyrdd.<br>Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes gan y Gwasanaeth ddull cydlynedig ar gyfer creu proffiliau o'i gymunedau er mwyn targedu gweithgarwch diogelwch cymunedol i gael yr effaith orau. |
| Y canlyniad a ddisgwylir | Bod yn well am dargedu cynghorion ynglŷn ag atal tanau, yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o gymunedau penodol. |
| Y camau arfaethedig | 1. Dwyn ynghyd ystod o wybodaeth am boblogaethau o ffynonellau dibynadwy er mwyn cefnogi'r gwaith o dargedu cynghorion diogelwch effeithlon ac effeithiol.<br>2. Datblygu Cynllun Cydraddoldeb Sengl sy'n cynorthwyo i amddiffyn pobl rhag cael eu trin yn annheg ar sail eu hoedran, anabledd, gender, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd, hil, crefydd neu gred, neu gyfeiriadedd rhywiol. |
| Mesurau llwyddiant | • Datblygu proses i ddwyn ynghyd yr wybodaeth berthnasol am rannau penodol o ardal y Gwasanaeth.<br>• Datblygu a mabwysiadu Cynllun Cydraddoldeb Sengl. |

DRAFT

| **Amcan Gwella 7 (Y Cynllun Lleihau Risg)** | **(Argaeledd Gwasanaethau)** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Amcan | **Sicrhau bod trefniadau Cynllunio a Rheoli Parhad Busnes y Gwasanaeth mor gynhwysfawr a sicr ag y gallent fod.** |
| Rheswm | Mae’r cyhoedd yn disgwyl i’r gwasanaeth tân ac achub fod ar gael drwy’r amser, ac mae’n anodd dychmygu adeg pan na fyddai. Eto mae’r gwasanaethau brys hefyd yn agored i sefyllfaoedd megis absenoldebau oherwydd ffliw pandemig neu fethiant yn y cadwyni cyflenwi nwyddau a gwasanaethau hanfodol. Ac yn wahanol i’r gorffennol, ni fyddai’r lluoedd arfog ar gael i ddarparu gofal tân petai streic genedlaethol.<br>Mae polisi cynhwysfawr Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar reoli parhad busnes yn ei le, ac mae’r staff yn gwybod beth a ddisgwylir ganddynt. Fodd bynnag, rhaid gwella’r modd y mae’r cynlluniau parhad busnes yn cael eu profi a’u diweddaru. |
| Y canlyniad a ddisgwylir | Mwy o sicrwydd na fydd pob agwedd ar weithrediadau’r gwasanaeth tân ac achub, a’r trefniadau sy’n cefnogi’r gweithrediadau hynny, yn cael eu tarfu gan ddigwyddiad annisgwyl. |
| Y camau arfaethedig | 1. Ail-werthuso adnoddau a chyfrifoldebau Cynllunio Parhad Busnes er mwyn hybu pwyslais o’r newydd ar symud ymlaen gyda’r cynlluniau cyfredol a datblygu rhai newydd yn barhaus;<br>2. Rhoi cymaint o bwys ar reoli parhad busnes yn gorfforaethol ac yn weithredol, er mwyn sicrhau nad oes yr un maes wedi ei anghofio, a bod y cynlluniau adfer yn rhai cadarn. |
| Mesurau llwyddiant | • Diffinio’n glir a dyrannu cyfrifoldeb am Reoli Parhad Busnes o fewn y Gwasanaeth.<br>• Datblygu a rhoi cyfundrefn brofi ac ymarfer ar waith fesul cam er mwyn gwirio cywirdeb y cynlluniau cyfredol. |

DRAFT

**Amcan Gwella A (Strategaeth Adnoddau) (Cynaliadwyedd)**

| | |
|---|---|
| Amcan | **Newid agweddau ar strwythur y sefydliad a ffyrdd o weithredu.** |
| Rheswm | Lleihau lefel y risg sy'n wynebu'r Gwasanaeth trwy leihau – mewn ffordd gynlluniedig - y gost o ddarparu gwasanaethau tra'n gwella llawer ohonynt ar yr un pryd. |
| Y canlyniad a ddisgwylir | Gallu cynnal neu wella lefelau gwasanaeth i'r cyhoedd, ond gyda chyllideb lai. |
| Camau a gynlluniwyd | Trwy:<br>A.1 Gweithredu'r adolygiad o swyddogion.<br>A.2 Cyflwyno ffyrdd newydd o gyfawni'r swyddogaeth diogelwch tân deddfwriaethol.<br>A.3 Ymchwilio i ddichonolrwydd defnyddio cronfa wrth gefn o staff y System Amser Cyflawni i ymorol am orsafoedd y System yn ôl y Galw.<br>A.4 Adolygu'r swyddogaeth staff cefnogol.<br>A.5 Datblygu protocol ar gyfer Cynllunio a Gwerthuso Swyddi. |
| Mesurau llwyddiant | Cwblhau'r camau a'r gwariant a gynlluniwyd, a hynny o fewn y gyllideb. |

**Amcan Gwella B (Strategaeth Adnoddau) (Effeithlonrwydd)**

| | |
|---|---|
| Amcan | **Adolygu a gwella prosesau busnes mewnol.** |
| Rheswm | Adnabod a lleihau biwrocratiaeth a baich gweinyddol tra'n cynyddu gallu mewnnol a gwella allbwn ar yr un pryd. |
| Y canlyniad a ddisgwylir | Gallu cynnal neu wellla lefelau gwasanaeth i'r cyhoedd, ond gyda chyllideb lai. |
| Camau a gynlluniwyd | Trwy:<br>B.1 Adolygu effeithlonrwydd ystod o systemau busnes, a chlymu hynny gydag asesiad cadarn achos wrth achos o swyddi er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyson â gofynion y gwasanaeth.<br>B.2 Ailgynllunio'r swyddogaeth cefnogi a datblygu'r ochr weithredol.<br>B.3 Ailgynllunio'r swyddoaeth hyfforddi, datblygu a dysgu. |
| Mesurau llwyddiant | Cwblhau'r camau a'r gwariant a gynlluniwyd, a hynny o fewn y gyllideb. |

DRAFT

**Amcan Gwella C (Strategaeth Adnoddau) (Cynaliadwyedd)**

| | |
|---|---|
| Amcan | **Cynllunio a pharatoi ar gyfer y gostyngiad yng nghyllideb 2012-13** |
| Rheswm | Cwrdd â'r cynllun a gytunwyd ar gyfer cyllideb yr Awdurdod i gael arbediad arian parod o 7.5% (£2.45 miliwn) yn y tair blynedd rhwng Ebrill 2011 a Mawrth 2014. |
| Y canlyniad a ddisgwylir | Gallu cynnal neu wellla lefelau gwasanaeth i'r cyhoedd, ond gyda chyllideb lai. |
| Camau a gynlluniwyd | Cytuno ar gynllun i leihau costau staffio o ryw £1,000,000 (e.e. hunan-gylchrestru/cau gorsafoedd/cael gwared ar bympiau/dewis arall). |
| Mesurau llwyddiant | Cwblhau'r camau a'r gwariant gynlluniwyd, a hynny o fewn y gyllideb. |

DRAFT

# ADRAN 4

## Y FLWYDDYN I DDOD 2012-13

### YMGYNGHORIAD 2011

Rhwng 18 Gorffennaf 2011 a 9 Medi 2011, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar yr amcanion drafft ar gyfer 2012-13.

Penderfynodd yr Awdurdod y byddai, oherwydd mai nifer gymharol fach o newidiadau a gynigid, a chan gofio'r gost ac agweddau amgylcheddol cyhoeddi, yn creu taflen driphlyg syml yn crynhoi'r amcanion ac yn rhoi gwybodaeth gyffredinol arall yn hytrach na'r ddogfen ymgynghorol arferol sy'n lliwgar ac â llawer o dudalennau.

Dosbarthwyd 2,000 o gopïau papur, yn costio rhyw £550 i gyd. Anfonwyd e-byst at gysylltiadau cyfarwydd i roi gwybod iddynt am yr ymgynghoriad a bod gwybodaeth ar gael ar wefan yr Awdurdod.

Daeth 56 o ymatebion i law gan drigolion o bob un o'r chwe awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru, a chan ymwelwyr â'r ardal a oedd yn byw mewn rhannau eraill o Gymru. O blith yr holl ymatebion, roedd 52% yn dod gan drigolion Gogledd Cymru, ni roddodd 14% unrhyw gyfeiriad, a daeth 34% gan ymwelwyr â'r ardal. Un ymateb a dderbyniwyd ar ran sefydliad.

DRAFT


## YMGYNGHORIAD 2011

Rhestrwyd wyth amcan drafft ar gyfer 2012-13, a gofynnwyd tri chwestiwn i bobl. Yr amcanion drafft yr ymgynghorwyd yn eu cylch oedd:

| | |
|---|---|
| 1 | Cynorthwyo i gadw pobl a chymunedau yn ddiogel trwy atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi. |
| 2 | Cynorthwyo i leihau'r risg o danau'n dechrau'n ddamweinol mewn eiddo annomestig, fel bod gweithgareddau arferol yn gallu parhau ac nad oes perygl i fywydau'r bobl sy'n ymweld ac yn gweithio yno. |
| 3 | Cynorthwyo i leihau'r perygl a'r difrod a achosir gan argyfyngau nad ydynt yn danau, megis llifogydd, gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, a digwyddiadau cemegol. |
| 4 | Cynorthwyo i ymdrin â phroblemau llosgi bwriadol fel nad oes perygl i bobl, cymunedau, busnesau, yr amgylchedd a threftadaet yr ardal. |
| 5 | Canolbwyntio ar wella datblygiad cynaliadwy yr Awdurdod trwy gael y cydbwysedd cywir rhwng effaith amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol darparu gwasanaeth tân ac achub. |
| 6 | Dod yn well am adnabod ac ymgysylltu â phobl sy'n eu cael eu hunain dan anfantais cymdeithasol a/neu economaidd, fel ein bod yn gallu gwella eu synnwyr o les a lleihau lefel y risg i'w diogelwch personol. |
| 7 | Sicrhau bod trefniadau'r Gwasanaeth ar gyfer Cynllunio a Rheoli Parhad Busnes mor gynhwysfawr a sicr ag y bo modd. |
| 8 | Canfod ffyrdd o leihau cost gyffredinol rhedeg y Gwasanaeth bob blwyddyn er mwyn gweithredu o fewn cyllideb flynyddol sy'n £32 miliwn hyd at 2013/14. |


DRAFT

I ateb cwestiwn ynglŷn â chefnogaeth ar gyfer amcanion penodol, y pedwar amcan cyntaf a gafodd fwyaf o gefnogaeth, ond derbyniodd yr holl set gefnogaeth gan o leiaf 20% o'r rhai a ymatebodd.



## YMGYNGHORIAD 2011

I ateb cwestiwn ynglŷn â ph'un ai oes unrhyw amcanion na ddylai'r Awdurdod eu dilyn, dywedodd 22 nad oeddent yn erbyn unrhyw un o'r amcanion, ac ni chafwyd unrhyw sylw gan 17 arall. O blith yr 16 a fynegodd ddiffyg cefnogaeth i un neu ragor o'r amcanion, cyfeiriwyd at amcan 8 gan 9 o bobl fel un nad oeddent yn ei gefnogi.




I ateb cwestiynau ynglŷn â ph'un ai oes unrhyw welliannau y dylai'r Awdurdod fod yn canolbwyntio arnynt yn hytrach â'r rhai yr ymgynghorir yn eu cylch, fe wnaeth 22 un neu ragor o awgrymiadau:

- Roedd 5 yn awgrymu codi tâl am gael ein galw allan yn ddiangen a mynd at wrthdrawiadau ar y ffyrdd.
- Roedd 4 yn cefnogi parhau/ymestyn gwaith atal ac addysgu, ac roedd 2 arall yn benodol yn crybwyll grwpiau bregus.
- Roedd 4 yn awgrymu ffyrdd o leihau costau.
- Roedd 3 eisiau gwarchod gorsafoedd tân lleol neu gadw'r gofal tân yr un fath ag ydyw ar hyn o bryd.
- Roedd 2 yn dymuno gweld rhagor o bwyslais ar gyfrifoldebau craidd a hyfforddiant.
- Roedd 1 (nad oedd yn weithiwr inni) yn cefnogi gwell cyflog i ddiffoddwyr tân.
- Roedd 1 yn pwysleisio'r angen i baratoi ar gyfer effaith eang posib newid yn yr hinsawdd.
- Roedd 1 yn awgrymu pwysigrwydd sicrhau bod hydrant wrth ymyl pob fferm.

## AMCANION GWELLA 2012-13

Wedi ystyried yr ymatebion mewn cyfarfod o'r Panel Gweithredol ym Medi 2011, penderfynodd yr Awdurdod barhau i weithio yn 2012-13 tuag at yr wyth amcan fel y cawsant eu llunio.

# CYNLLUNIAU AMLINELLOL AM Y FLWYDDYN I DDOD SEF 2012-13

[Section to be added after the Fire Authority meeting 17th October 2011, outlining the planning implications of decisions, budget planning stages, etc.]

# ADRAN 5

## GWYBODAETH ARALL

### MANYLION CYSYLLTU

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad post: | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru<br>Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub<br>Ffordd Salesbury<br>Parc Busnes Llanelwy<br>Llanelwy<br>Sir Ddinbych<br>LL17 0JJ |
| Ffôn: | 01745 535250 |
| Gwefan: | www.gwastan-gogcymru.org.uk |

### GWYBODAETH YCHWANEGOL

- Daeth y **Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004** i rym yn Hydref 2004, gan ddod yn lle'r hen Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 1947 yng Nghymru a Lloegr.
  Mae'n egluro dyletswyddau a phwerau Awdurdodau Tân ac Achub i:
  - Hybu diogelwch tân
  - Ymladd tanau
  - Diogelu pobl ac eiddo rhag tanau
  - Achub pobl o ddamweiniau ar y ffyrdd
  - Ymateb i risgiau penodol eraill, megis digwyddiadau cemegol
  - Ymateb i argyfyngau ar raddfa fawr, megis ymosodiadau terfysgol
- Cyhoeddwyd y **Fframwaith Cenedlaethol 2008-11** gan Lywodraeth y Cynulliad dan adran 21 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. Mae'n nodi gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cynulliad ar gyfer y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru a'r hyn y gellid ei ddisgwyl ohonynt dros gyfnod y fframwaith. Bydd y Fframwaith hwn yn parhau yn ei le hyd at 31 Mawrth 2012 (oni bai y caiff ei ddisodli cyn hynny).
- Daeth y **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** i rym ar 1af Ebrill 2010. Roedd yn creu cyfundrefn statudol sy'n integreiddio'r broses o wella gwasanaethau lleol yn fwy tymor byr a chynllunio cymunedol mwy tymor hir. Cyhoeddwyd arweiniad penodol ar yr elfen wella (Rhan 1) ar gyfer gwasanaethau tân ac achub gan y Cynulliad ym Mai 2010.
- Daeth y **Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2010** i rym ar Ebrill 1af 2010. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tân ac achub gyhoeddi eu cynlluniau gwella wedi 30 Medi yn y flwyddyn cyn y flwyddyn

ariannol y mae'r cynllun gwella yn ymwneud â hi, cyhyd ag y bo hynny'n rhesymol yn ymarferol.

- Daeth y **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005** i rym yn Hydref 2006, gan ddisodli 70 darn o gyfraith yn ymwneud â diogelwch tân. Mae'n berthnasol i bob eiddo annomestig yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys y rhannau cymunol o flociau o fflatiau a thai amlfeddiannaeth. Roedd yn diddymu'r gofyniad i fusnesau fod â thystysgrifau tân ac yn rhoi'r cyfrifoldeb ar y sawl sy'n gyfrifol am y safle i ymdrin â diogelwch tân ar y safleoedd hynny.

- Daeth y **Ddeddf Cydraddoldeb Act 2010** yn lle dros 100 o ddarnau o gyfraith cydraddoldeb. Daeth y Ddyletswydd Gyffredinol a dyletswyddau penodol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru i rym yn Ebrill 2011. Mae gan gyrff sydd wedi eu rhestru (gan gynnwys Awdurdodau Tân ac Achub) hyd at Ebrill 2012 i gyhoeddi amcanion cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol.

- Derbyniodd y **Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004** gydsyniad brenhinol yn Hydref 2004. Mae'n darparu un fframwaith ar gyfer amddiffyn sifil i argyfyngau ar raddfa fawr sy'n bygwth niwed difrifol i les dynol, yr amgylchedd neu i ddiogelwch. Mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn ymatebwyr 'Categori 1' dan y ddeddf hon.

- **Cangen Tân Llywodraeth Cymru**
  Cafodd y cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau tân ac achub a hybu diogelwch tân yng Nghymru ei ddatganoli i Lywodraeth y Cynulliad ar 10 Tachwedd 2004. Mae'r isadran Diogelwch Cymunedol o Lywodraeth y Cynulliad wedi ei lleoli yn Rhyd-y-car, Merthyr Tudful CF48 1UZ.
  <http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/?skip=1&lang=cy>

- **Yr Ymgynghorydd Tân ac Achub**
  Mae deiliad y swydd yn atebol i Gyfarwyddwr Cymunedau a Chyfiawnder Cymdeithasol, ac mae'n cynghori Gweinidogion Cymru ynghylch materion tân ac achub.

- **Swyddfa Archwilio Cymru**
  Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyhoeddi adroddiadau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol y mae gofyn iddo/iddi asesu pa mor debygol yw hi y bydd yr Awdurdod yn parhau i wella a ph'un ai yw'r Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau ac yn gweithredu yn unol â'r canllawiau perthnasol a ddaeth. Mae archwilwyr hefyd yn gweithio gydag awdurdodau tân trwy Gymru i gyflwyno rhaglen o archwiliadau ariannol a gwerth-am-arian.
  http://www.wao.gov.uk/

- **Trwydded Atgynhyrchu Gwybodaeth Sector Gyhoeddus**
  Atgynhyrchir deunydd sydd yn destun diogelwch Hawlfraint y Goron yn y ddogfen hon o dan Drwydded Rhif C2010002320.

## YMYRRYD YN ACHOS METHU NEU BOSIBILRWYDD O FETHU CYDYMFFURFIO

Mae pwerau ymyrryd gan Lywodraeth Cymru:

- dan adran 22 o **Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004** os yw'n ystyried bod Awdurdod Tân ac Achub yn methu, neu'n debygol o fethu, gweithredu yn unol â'r Fframwaith Cenedlaethol. Mewn achosion o'r fath, byddai adran 23 – Protocol Ymyrryd yn berthnasol.
- dan adran 29 o **Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** os yw'n ystyried bod Awdurdod Tân ac Achub yn methu, neu mewn perygl o fethu, cydymffurfio â'r Mesur. Fodd bynnag, ni all Gweinidogion Cymreig, ymhob achos heblaw am yr amgylchiadau mwyaf eithriadol, ond ymyrryd wedi iddynt gynnig cefnogaeth wirfoddol i'r Awdurdod dan adran 28 o'r Mesur.

## AMSERLEN YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB AR GYFER RHOI'R MESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2009 AR WAITH

Bydd rhoi'r Mesur newydd ar waith fesul cam yn digwydd dros nifer o fisoedd wrth i awdurdodau tân ac achub ddilyn y prosesau blynyddol cysylltiedig.

Cyflwynwyd Dau Orchymyn:

- Cyflwynwyd Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2010 (Rhif 481) yn Ebrill 2010 i alluogi i gyhoeddi cynlluniau gwella'r awdurdodau tân ac achub yn Hydref bob blwyddyn.
- Daeth Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2011 (Rhif 558) i rym ar 1 Ebrill 2011, gan nodi dangosyddion perfformiad y gellid mesur perfformiad yn eu herbyn.

Er i'r Mesur ddod i rym yn gyntaf o Ebrill 2010 ymlaen, bydd yn cymryd hyd at 2013 i ddod i rym yn llwyr:

| | |
|---|---|
| **Hydref 2009** | Cyhoeddodd yr Awdurdodau eu Cynllun Gwella, a'u Cynllun Lleihau Risg rhag blaen ar gyfer 2010-11 dan y trefniadau blaenorol. |
| **Ebrill 2010** | Ymgymerodd Swyddfa Archwilio Cymru â'i Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol rhag blaen. Yn absenoldeb cyhoeddi amcanion ar gyfer gwella dan y Mesur newydd, cyfeiriodd y Swyddfa at amcanion Cynllun Lleihau Risg yr Awdurdod a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2009. |
| **Hydref 2010** | Cyhoeddodd yr Awdurdodau eu Cynlluniau i Leihau Risg/Gwella dan y Mesur.<br>Roedd yr olwg am yn ôl ar berfformiad yn seiliedig ar adrodd ynglŷn â pherfformiad yn erbyn y Cynlluniau Lleihau Risg/Cynlluniau Gwella o Hydref 2008 ymlaen, a oedd yn ymwneud â 2009-10 (na chyhoeddwyd dan y Mesur)<br>Roedd y cynllun am ymlaen yn cynnwys amcanion o ran gwella, fel y nodir yn y Mesur ar gyfer y flwyddyn 2011-12. |
| **Tachwedd 2010 (wedi ei ohirio tan Ionawr 2011)** | Roedd asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o berfformiad yn edrych ar Ddangosyddion Perfformiad (DPau) a oedd yn statudol dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 ar gyfer 2009-10, a'r perfformiad am 2009-10 yn seiliedig ar Gynllun Lleihau Risg 2008 (na chyhoeddir dan y Mesur). Cyhoeddwyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol gan y Swyddfa yn Ionawr 2011. |
| **Chwefror-Ebrill 2011** | Bydd Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru am ymlaen yn defnyddio amcanion y Cynllun Cyfunol i Leihau |

| | |
|---|---|
| | Risg/Gwella 2011-12 dan y Mesur. |
| **Hydref 2011** | Cyhoeddwyd Cynlluniau i Leihau Risg/Gwella gan Awdurdodau, yn ymwneud â pherfformiad yn 2010-11 yn seiliedig ar y Cynllun Lleihau Risg a gyhoeddwyd yn Hydref 2009 (na chyhoeddwyd dan y Mesur). Roeddent hefyd yn cynnwys Dangosyddion Perfformiad a ddatblygwyd ond nad oeddent yn statudol dan dan y Gorchymyn ar gyfer 2010-11**. Bydd y cynlluniau'n cynnwys amcanion gwella ar gyfer 2012-13. |
| **Ionawr 2011** | Bydd asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o berfformiad yn cynnwys asesiad o DPau anstatudol ar gyfer 2010-11 ac amcanion gwella ar gyfer 2010-11 (na chyhoeddir dan y Mesur). |
| **2012** | Bydd Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio amcanion Cynllun i Leihau Risg/Gwella 2012-13 dan y Mesur. |
| **Hydref 2012** | Awdurdodau'n cyhoeddi Cynlluniau i Leihau Risg/Gwella yn ymwneud â pherfformiad yn 2011-12 yn seiliedig ar eu Cynllun i Leihau Risg/Gwella a gyhoeddwyd yn Hydref 2010 dan y Mesur. Byddant yn cynnwys dangosyddion perfformiad statudol ar gyfer 2011-12. Bydd y cynlluniau'n cynnwys amcanion gwella ar gyfer 2013-14. |
| **Ionawr 2013** | Bydd asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o berfformiad yn cynnwys asesiad o'r dangosyddion perfformiad statudol ar gyfer 2011-12 ac amcanion gwella ar gyfer 2011-12 dan y Mesur. |
| **2013** | Bydd Asesiad Corfforaethol am ymlaen Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio amcanion Cynllun i Leihau Risg / Gwella 2013-14 dan y Mesur. |

**Roedd dau Gylchlythyr a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn cadarnhau'r sefyllfa o ran Dangosyddion Perfformiad 2010-11:

- Yng Ngorffennaf 2010, cyhoeddwyd Dangosyddion Perfformiad W-FRSC (2010)10 2010-11 – Trefniadau Cyfamserol, a oedd yn nodi'r dangosyddion perfformiad ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub a oedd yn berthnasol yn 2010-11. Maes o law, daw cyngor ar adrodd ynghylch perfformiad yn erbyn Safon Gwasanaeth 2006 i Danau yn y Cartref.
- Yng Ngorffennaf 2011, cyhoeddwyd Dangosyddion Perfformiad W-FRSC(2011)19 FRA 2010-11 – Gwybodaeth Ychwanegol, a oedd yn cadarnhau na fyddai gofyn i Awdurdodau Tân ac Achub adrodd ynghylch perfformiad yn erbyn y Safon Gwasanaeth am y cyfnod 2010-11.

## SICRWYDD GWEITHREDOL DARPARU GWASANAETHAU

Yn Nhachwedd 2006, cyflwynwyd trefniadau newydd gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer asesu perfformiad yr ochr weithredol. Mae'r broses asesu, sy'n bwydo i mewn i Raglen Cymru ar gyfer Gwella, yn golygu bod Awdurdodau'n llenwi hunanasesiad yn erbyn fframwaith a ddarperir, ac yn dilyn hynny yn cael asesiad cymheiriaid gan dimau o'r ddau wasanaeth tân ac achub yng Nghymru yn adrodd ar gywirdeb yr hunanasesiad hwn.

Blwyddyn 1 (2006) – Asesiad llawn gan ddefnyddio pecyn yn deillio o'r pecyn ar gyfer Lloegr.

Blwyddyn 2 (2007) – Asesiad o bwnc penodol, sef parodrwydd ar gyfer argyfyngau mawr a fyddai'n tarfu, gyda ffocws ar lifogydd.

Blwyddyn 3 (2008) – Asesiad yn seiliedig ar gynnydd yn erbyn materion a nodwyd yn asesiadau'r ddwy flynedd flaenorol.

Blwyddyn 4 (2009) - Hunanasesiad llawn yn erbyn saith Prif Lwybr Ymholi yn ymwneud â Rheoli Risg Cymunedol, Atal, Amddiffyn, Iechyd a Diogelwch, Hyfforddi a Datblygu, a Rheoli Galwadau a Chefnogaeth i Ddigwyddiadau. Roedd yr Asesiad Cymheiriaid yn canolbwyntio ar ddau Brif Lwybr Ymholi, sef Iechyd a Diogelwch a Hyfforddi a Datblygu.

Blwyddyn 5 (2010) – Asesiad o'r ddau brif lwybr ymholi penodol yn ymwneud â Rheoli Risg Cymunedol, a Diogelwch Cymunedol.

Blwyddyn 6 (2011) – Asesiad o'r ddau brif lwybr ymholi penodol yn ymwneud â Thrin Galwadau a Chefnogi ac Ymateb i Ddigwyddiadau.

# ADRAN 6

## GWYBODAETH AM BERFFORMIAD

**Crynodeb o ffigyrau perfformiad :**

| Blwyddyn | 2007-08 | 2008-09 | 2008-09 | 2008-09 |
|---|---|---|---|---|
| **DANGOSYDDION STRATEGOL CENEDLAETHOL** | | | | |
| | | | | |
| RRC/S/001i N Cyfanswm nifer y tanau | 3844[19] | 3442 | 3442 | 3389 |
| RRC/S/001i D Poblogaeth ardal yr Awdurdod Tân ac Achub | 675563 | 678543 | 678543 | 677971 |
| **am bob 10,000 o boblogaeth** | **54.83** | **50.73** | **50.73** | **49.99** |
| | | | | |
| RRC/S/001ii N Cyfanswm nifer yr holl brif danau | 1564 | 1509 | 1509 | 1504 |
| RRC/S/001ii D Poblogaeth ardal yr Awdurdod Tân ac Achub | 675563 | 678543 | 678543 | 677971 |
| **am bob 10,000 o boblogaeth** | **23.15** | **22.24** | **22.24** | **22.18** |
| | | | | |
| RRC/S/001iii N Cyfanswm nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi | 526 | 501 | 501 | 485 |
| RRC/S/001iii D Cyfanswm nifer y cartrefi yn ardal yr Awdurdod Tân ac Achub | 301063 | 303377.13 | 303377.13 | 303377.13 |
| **am bob 10,000 o boblogaeth** | **17.47** | **16.51** | **16.51** | **15.99** |
| | | | | |
| RRC/S/001iv N Cyfanswm nifer yr holl danau bwriadol | 1840 | 1596 | 1596 | 1545 |
| RRC/S/001iv D Poblogaeth ardal yr Awdurdod Tân ac Achub | 675563 | 678543 | 678543 | 677971 |
| **am bob 10,000 o boblogaeth** | **27.24** | **23.52** | **23.52** | **22.79** |
| | | | | |
| RRC/S/002i N Cyfanswm nifer y marwolaethau tân | 10 | 4 | 4 | 4 |
| RRC/S/002i D Poblogaeth ardal yr Awdurdod Tân ac Achub | 675563 | 678543 | 678543 | 677971 |
| **am bob 100,000 o boblogaeth** | **1.48** | **0.59** | **0.59** | **0.58** |
| RRC/S/002ii N Cyfanswm nifer y marwolaethau tân damweiniol | 8 | 4 | 4 | 4 |
| RRC/S/002ii D Poblogaeth ardal yr Awdurdod Tân ac Achub | 675563 | 678543 | 678543 | 677971 |
| **am bob 100,000 o boblogaeth** | **1.18** | **0.59** | **0.59** | **0.58** |

[19] Cyhoeddwyd eisoes fel 3,704.

| Blwyddyn | 2007-08 | 2008-09 | 2008-09 | 2008-09 |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| RRC/S/002iii N Cyfanswm nifer o farwolaethau a achoswyd gan danau bwriadol | 2 | 0 | 0 | 0 |
| RRC/S/002iii D Poblogaeth ardal yr Awdurdod Tân ac Achub | 675563 | 678543 | 678543 | 677971 |
| **am bob 100,000 o boblogaeth** | **0.30** | **0.00** | **0.00** | **0.00** |
| | | | | |
| RRC/S/002iv N Cyfanswm nifer yr anafiadau tân (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) | 80 | 111 | 111 | 111 |
| RRC/S/002iv D Poblogaeth ardal yr Awdurdod Tân ac Achub | 675563 | 678543 | 678543 | 677971 |
| **am bob 100,000 o boblogaeth** | **11.84** | **16.36** | **16.36** | **16.37** |
| | | | | |
| RRC/S/002v N Cyfanswm nifer yr anafiadau (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) oherwydd tanau a gychwynnodd yn ddamweiniol | 58 | 102 | 102 | 103 |
| RRC/S/002v D Poblogaeth ardal yr Awdurdod Tân ac Achub | 675563 | 678543 | 678543 | 677971 |
| **am bob 100,000 o boblogaeth** | **8.59** | **15.03** | **15.03** | **15.19** |
| | | | | |
| RRC/S/002vi N Anafiadau (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) oherwydd tanau bwriadol | 22 | 9 | 9 | 8 |
| RRC/S/002vi D Poblogaeth ardal yr Awdurdod Tân ac Achub | 675563 | 678543 | 678543 | 677971 |
| **am bob 100,000 o boblogaeth** | **3.26** | | **1.33** | **1.17** |
| | | | | |
| RRC/S/003 N Nifer y tanau mewn eiddo annomestig | 248 | 258 | 258 | 224 |
| RRC/S/003 D Nifer yr eiddo annomestig yn ardal yr Awdurdod Tân ac Achub | 27050 | 27055 | 27055 | 27055 |
| **am bob 1,000 o boblogaeth** | **9.17** | **9.54** | **9.54** | **8.28** |
| | | | | |
| RRC/S/004i Nifer y cartrefi yn y categori uwch a llawer uwch na'r risg cyfartalog (fel y pennwyd gan y meddalwedd FSEC) ac wedi derbyn Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref o fewn y flwyddyn adrodd, ac sydd o fewn y safon gwasanaeth 5 munud. | - | - | - | - |
| | | | | |
| RRC/S/004ii Nifer y cartrefi yn y categori uwch a llawer uwch na'r risg cyfartalog (fel y pennwyd gan y meddalwedd FSEC) ac wedi derbyn Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref o fewn y flwyddyn adrodd, ac sydd o fewn y safon gwasanaeth 10 munud. | - | - | - | - |
| RRC/S/004iii Nifer y cartrefi yn y categori uwch a llawer uwch na'r risg cyfartalog (fel y pennwyd gan y meddalwedd FSEC) ac wedi derbyn Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref o fewn y flwyddyn adrodd, ac sydd y tu allan i'r safon gwasanaeth 10 munud. | - | - | - | - |
| | | | | |
| RRC/S/004iv Nifer y tanau mewn cartrefi lle'r oedd Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref | - | - | - | 71 |

| Blwyddyn | 2007-08 | 2008-09 | 2008-09 | 2008-09 |
|---|---|---|---|---|
| a/neu weithgarwch cysylltiedig i leihau risg wedi digwydd o fewn dwy flynedd cyn y tân. | | | | |
| | | | | |
| EFR/S/001 N Cyfanswm nifer y digwyddiadau o feini prawf yr aethpwyd atynt o fewn 10 munud | - | | 391 | 391 |
| EFR/S/001 D Cyfanswm nifer y digwyddiadau o fewn y meini prawf | - | | 445 | 445 |
| **Canran yr aethpwyd atynt o fewn 10 munud** | | | **87.87%** | **87.87%** |
| | | | | |
| EFR/S/002 N Cyfanswm nifer y digwyddiadau o fewn y meini prawf yr aethpwyd atynt o fewn 5 munud | - | | 31 | 31 |
| EFR/S/002 D Cyfanswm nifer y digwyddiadau o fewn y meini prawf | - | | 115 | 115 |
| **Canran yr aethpwyd atynt o fewn 5 munud** | | | **26.96%** | **26.96%** |
| | | | | |
| **DANGOSYDDION CRAIDD** | | | | |
| RRC/C/001i N Marwolaethau a achoswyd gan danau damweiniol mewn cartrefi | 7 | 4 | 4 | 4 |
| RRC/C/001i D Poblogaeth ardal yr Awdurdod Tân ac Achub | 675563 | 678543 | 678543 | 677971 |
| **am bob 100,000 o boblogaeth** | **1.04** | **0.59** | **0.59** | **0.59** |
| | | | | |
| RRC/C/001ii1 N Marwolaethau a achoswyd gan danau bwriadol mewn cartrefi | 1 | 0 | 0 | 0 |
| RRC/C/001ii D Poblogaeth ardal yr Awdurdod Tân ac Achub | 675563 | 678543 | 678543 | 677971 |
| **am bob 100,000 o boblogaeth** | **0.15** | **0.00** | **0.00** | **0.00** |
| | | | | |
| RRC/C/001iii N Marwolaethau a achoswyd gan danau damweiniol mewn eiddo annomestig | 0 | 0 | 0 | 0 |
| RRC/C/001iii D Poblogaeth ardal yr Awdurdod Tân ac Achub | 675563 | 678543 | 678543 | 677971 |
| **am bob 100,000 o boblogaeth** | **0.00** | **0.00** | **0.00** | **0.00** |
| | | | | |
| RRC/C/001iv N Marwolaethau a achoswyd gan danau bwriadol mewn eiddo annomestig | 0 | 0 | 0 | 0 |
| RRC/C/001iv D Poblogaeth ardal yr Awdurdod Tân ac Achub | 675563 | 678543 | 678543 | 677971 |
| **am bob 100,000 o boblogaeth** | **0.00** | **0.00** | **0.00** | **0.00** |
| | | | | |
| RRC/C/001v N Anafiadau (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) yn digwydd oherwydd tanau a gychwynnwyd yn ddamweiniol mewn cartrefi | 52 | 55 | 55 | 66 |
| RRC/C/001v D Poblogaeth ardal yr Awdurdod Tân ac Achub | 675563 | 678543 | 678543 | 677971 |
| **am bob 100,000 o boblogaeth** | **7.70** | **8.11** | **8.11** | **9.73** |
| | | | | |
| RRC/C/001vi N Anafiadau (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) yn digwydd oherwydd tanau a | 17 | 5 | 5 | 4 |

| Blwyddyn | 2007-08 | 2008-09 | 2008-09 | 2008-09 |
|---|---|---|---|---|
| gychwynnwyd yn fwriadol mewn cartrefi | | | | |
| RRC/C/001vi D Poblogaeth ardal yr Awdurdod Tân ac Achub | 675563 | 678543 | 678543 | 677971 |
| **am bob 100,000 o boblogaeth** | **2.52** | **0.74** | **0.74** | **0.59** |
| | | | | |
| RRC/C/001vii N Anafiadau (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) yn digwydd oherwydd tanau a gychwynnwyd yn ddamweiniol mewn eiddo annomestig | 2 | 6 | 6 | 7 |
| RRC/C/001vii D Poblogaeth ardal yr Awdurdod Tân ac Achub | 675563 | 678543 | 678543 | 677971 |
| **am bob 100,000 o boblogaeth** | **0.30** | **0.88** | **0.88** | **1.03** |
| | | | | |
| RRC/C/001viii N Anafiadau (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) yn digwydd oherwydd tanau bwriadol mewn eiddo annomestig | 2 | 1 | 1 | 0 |
| RRC/C/001viii D Poblogaeth ardal yr Awdurdod Tân ac Achub | 675563 | 678543 | 678543 | 677971 |
| **am bob 100,000 o boblogaeth** | **0.30** | **0.15** | **0.15** | **0.00** |
| | | | | |
| RRC/C/002i N Cyfanswm nifer y galwadau ffug maleisus a dderbyniwyd | 652 | 545 | 545 | 565 |
| RRC/C/002i D Poblogaeth ardal yr Awdurdod Tân ac Achub | 675563 | 678543 | 678543 | 677971 |
| **per 1,000 population** | **0.97** | **0.80** | **0.80** | **0.83** |
| | | | | |
| RRC/C/002ii N Cyfanswm nifer y galwadau ffug maleisus nad aethpwyd atynt | 498 | 375 | 375 | 399 |
| RRC/C/002ii D Cyfanswm nifer y galwadau ffug maleisus a dderbyniwyd | 652 | 545 | 545 | 565 |
| **% o’r cyfanswm nad aethpwyd atynt** | **76.38%** | **68.81%** | **68.81%** | **70.62%** |
| | | | | |
| RRC/C/002iii N Cyfanswm nifer y galwadau ffug maleisus | 154 | 170 | 170 | 166 |
| RRC/C/002iii D Cyfanswm nifer y galwadau ffug maleisus a dderbyniwyd | 652 | 545 | 545 | 565 |
| **% o’r cyfanswm nad aethpwyd atynt** | **23.62%** | **31.19%** | **31.19%** | **29.38%** |
| | | | | |
| RRC/C/003 N Cyfanswm nifer y galwadau diangen a achoswyd gan systemau canfod tân awtomatig a systemau larwm mewn eiddo annomestig | 2020 | 1301 | 1301 | 1707 |
| RRC/C/003 D Nifer yr eiddo annomestig yn ardal yr Awdurdod Tân ac Achub | 27050 | 27055 | 27055 | 27055 |
| **am bob 1,000 eiddo annomestig** | **74.68** | **48.09** | **48.09** | **63.09** |
| | | | | |
| RRC/C/004i N Nifer y prif danau bwriadol | 527 | 570 | 556 | 540 |
| RRC/C/004i D Poblogaeth ardal yr Awdurdod Tân ac Achub | 675563 | 678543 | 678543 | 677971 |
| **am bob 10,000 o boblogaeth** | **7.80** | **8.40** | **8.19** | **7.96** |

| Blwyddyn | 2007-08 | 2008-09 | 2008-09 | 2008-09 |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| RRCC/004ii N Nifer y tanau eilaidd bwriadol | 1313 | 1037 | 1040 | 1005 |
| RRC/C/004ii D Poblogaeth ardal yr Awdurdod Tân ac Achub | 675563 | 678543 | 678543 | 677971 |
| **am bob 10,000 o boblogaeth** | **19.44** | **15.28** | **15.33** | **14.82** |
| | | | | |
| RRC/C/005i N Tanau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt lle’r oedd larwm mwg a/neu offer arall i ganfod tân wedi canu | 375 | 337 | 337 | 337 |
| RRC/C/005i D Cyfanswm nifer y tanau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt | 595 | 551 | 551 | 551 |
| **% lle'r oedd larwm wedi canu** | **63.03%** | **61.16%** | **61.16%** | **61.16%** |
| | | | | |
| RRC/C/005ii N Tanau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt lle’r oedd larwm mwg a/neu offer arall i ganfod tân yno ond heb ganu | 79 | 79 | 79 | 79 |
| RRC/C/005ii D Cyfanswm nifer y tanau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt | 595 | 551 | 551 | 551 |
| **% lle'r oedd larwm yno, ond heb ganu** | **13.28%** | **14.34%** | **14.34%** | **14.34%** |
| | | | | |
| RRC/C/005iii N Tanau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt lle nad oedd larwm mwg a/neu offer i ganfod tân i’w cael yno | 141 | 135 | 135 | 135 |
| RRC/C/005iii D Cyfanswm nifer y tanau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt | 595 | 551 | 551 | 551 |
| **% lle nad oedd unrhyw larwm** | **23.70%** | **24.50%** | **24.50%** | **24.50%** |
| **ERAILL** | | | | |
| CHR/ C/001i N Nifer staff unigol yr ochr weithredol sy’n gweithio ar y systemau amser cyflawn ac yn ôl y galw sy’n eu categoreiddio eu hunain fel rhai ag anabledd | 16 | 14 | 14 | 14 |
| CHR/ C/001i D Cyfanswm nifer y staff unigol ar yr ochr weithredol sy’n gweithio ar y system amser cyflawn a’r ddyletswydd yn ôl y galw | 896 | 869 | 869 | 869 |
| **% ag anabledd** | **1.79%** | **1.61%** | **1.61%** | **1.61%** |
| | | | | |
| CHR/ C/001ii N Nifer unigolion yn staff yr ystafell reoli a’r rhai nad ydynt ar yr ochr weithredol sy’n eu categoreiddio eu hunain fel rhai ag anabledd | 8 | 8 | 8 | 8 |
| CHR/ C/001ii D Cyfanswm nifer unigolion yn staff yr ystafell reoli a’r rhai nad ydynt ar yr ochr weithredol | 167 | 174 | 174 | 174 |

| Blwyddyn | 2007-08 | 2008-09 | 2008-09 | 2008-09 |
|---|---|---|---|---|
| **% ag anabledd** | **4.79%** | **4.60%** | **4.60%** | **4.60%** |
| | | | | |
| CHR/ C/001iii N Cyfanswm nifer y bobl rhwng 18 a 64 mlwydd oed sy'n eu categoreiddio eu hunain fel rhai ag anabledd yn ardal yr Awdurdod Tân ac Achub | 68848 | 68848 | 68848 | 68848 |
| CHR/ C/001iii D Cyfanswm nifer y bobl rhwng 18 – 64 mlwydd oed yn ardal yr Awdurdod Tân ac Achub | 391153 | 391153 | 391153 | 391153 |
| **% ag anabledd** | **17.60%** | **17.60%** | **17.60%** | **17.60%** |
| | | | | |
| CHR/ C/002i N Nifer yr aelodau unigol o'r staff sy'n eu categoreiddio eu hunain fel rhai'n perthyn i grŵp ethnig lleiafrifol | 9 | 10 | 10 | 10 |
| CHR/ C/002i D Cyfanswm nifer yr aelodau unigol o'r staff | 1063 | 1043 | 1043 | 1043 |
| **% lleiafrifoedd ethnig** | **0.85%** | **0.96%** | **0.96%** | **0.96%** |
| | | | | |
| CHR/ C/002ii N Cyfanswm nifer y personau o leiafrifoedd ethnig rhwng 18 a 64 mlwydd oed yn ardal yr Awdurdod Tân ac Achub | 3930 | 3930 | 3930 | 3930 |
| CHR/ C/002ii D Cyfanswm nifer y bobl rhwng 18 – 64 mlwydd oed yn ardal yr Awdurdod Tân ac Achub | 394760 | 394760 | 394760 | 394760 |
| **% lleiafrifoedd ethnig** | **1.00%** | **1.00%** | **1.00%** | **1.00%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| CHR/ C/003 N Cyfanswm nifer y diffoddwragedd tân a gyflogir | 32 | 33 | 33 | 33 |
| CHR/ C/003 D Nifer y diffoddwyr tân unigol a gyflogir | 896 | 869 | 869 | 869 |
| **% merched** | **3.57%** | **3.80%** | **3.80%** | **3.80%** |
| | | | | |
| CHR/ C/004i N Cyfanswm nifer y diwrnodiau gwaith/shifftiau sy'n Cyfateb i Lawn Amser a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch gan yr holl staff (ac eithrio'r staff ar gael yn ôl y galw) | 3594 | 3755 | 3755 | 3755 |
| CHR/ C/004i D Nifer gyfartalog yr holl staff (ac eithrio'r system yn ôl y galw) Cyfateb i Lawn Amser | 441.7 | 449.98 | 449.98 | 450.00 |
| **diwrnodiau/shifftiau a gollwyd am bob person** | **8.14** | **8.34** | **8.34** | **8.34** |
| | | | | |
| CHR/ C/004ii N Cyfanswm nifer y diwrnodiau gwaith/shifftiau sy'n Cyfateb i Lawn Amser a gollwyd gan staff lifrai amser cyflawn | 2310 | 2520 | 2520 | 2520 |

| Blwyddyn | 2007-08 | 2008-09 | 2008-09 | 2008-09 |
|---|---|---|---|---|
| CHR/ C/004ii D Nifer gyfartalog y staff lifrai amser cyflawn sy’n Cyfateb i Lawn Amser | 299 | 298 | 298 | 298 |
| **diwrnodiau/shifftiau a gollwyd am bob person** | **7.73** | **8.46** | **8.46** | **8.46** |
| | | | | |
| CHR/ C/004iii N Cyfanswm nifer y diwrnodiau gwaith/shifftiau sy’n Cyfateb i Lawn Amser a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch gan staff yr ystafell reoli | 149 | 145 | 145 | 145 |
| CHR/ C/004iii D Nifer gyfartalog staff yr ystafell reoli sy’n Cyfateb i Lawn Amser | 30.82 | 30.82 | 30.82 | 30.82 |
| **diwrnodiau/shifftiau a gollwyd am bob person** | **4.83** | **4.70** | **4.70** | **4.70** |
| | | | | |
| CHR/ C/004iv N The cyfanswm nifer of ddiwrnodiau gwaith/shifftiau sy’n Cyfateb i Lawn Amser a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch gan staff nad ydynt ar yr ochr weithredol | 1135 | 1090 | 1090 | 1090 |
| CHR/ C/004iv D Nifer gyfartalog nad ydynt ar yr ochr weithredol sy’n Cyfateb i Lawn Amser | 111.8 | 121.16 | 121.16 | 121.16 |
| **diwrnodiau/shifftiau a gollwyd am bob person** | **10.15** | **9.00** | **9.00** | **9.00** |
| | | | | |
| CHR/ C/005i N Cyfanswm nifer yr ymddeoliadau ar sail afiechyd | 4 | 3 | 3 | 3 |
| CHR/ C/005i D Nifer gyfartalog cyfanswm gweithwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub | 1050.5 | 1053 | 1053 | 1053 |
| **fel % o gyfanswm y gweithlu** | **0.38%** | **0.28%** | **0.28%** | **0.28%** |
| | | | | |
| CHR/ C/005ii N Nifer yr ymddeoliadau ar sail afiechyd yn yr ochr weithredol amser cyflawn | 0 | 1 | 1 | 1 |
| CHR/ C/005ii D Nifer gyfartalog y staff ar yr ochr weithredol amser cyflawn | 299 | 298 | 298 | 298 |
| **fel % o gyfanswm gweithlu’r System Dyletswydd Amser Cyflawn** | 0.00% | 0.34% | 0.34% | 0.34% |
| CHR/ C/005iii N Nifer yr ymddeoliadau ar sail afiechyd ymhlith staff ar gael yn ôl y galw | 3 | 2 | 2 | 2 |
| CHR/ C/005iii D Nifer gyfartalog staff ar gael yn ôl y galw | 587 | 584.5 | 584.5 | 584.5 |
| **fel % o gyfanswm gweithlu’r System Dyletswydd yn ôl y galw** | 0.51% | 0.34% | 0.34% | 0.34% |
| | | | | |
| CHR/ C/005iv N Nifer yr ymddeoliadau ar sail afiechyd ymhlith staff yr ystafell reoli | 0 | 0 | 0 | 0 |
| CHR/ C/005iv D Nifer cyfartalog staff yr ystafell reoli | 32.5 | 33 | 33 | 33 |
| **fel % o gyfanswm gweithlu’r Ystafell Reoli** | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 0.00% |
| | | | | |
| CHR/ C/005v N Nifer yr ymddeoliadau ar sail afiechyd ymhlith staff nad ydynt ar yr ochr weithredol | 1 | 0 | 0 | 0 |
| CHR/ C/005v D Nifer gyfartalog y staff nad ydynt ar yr ochr weithredol | 132 | 137.5 | 137.5 | 137.5 |
| **fel % o gyfanswm y gweithlu nad ydynt ar yr ochr weithredol** | **0.76%** | **0.00%** | **0.00%** | **0.00%** |
| | | | | |
| CFH/ C/001 N Nifer yr anfonebau diddadl a dalwyd o fewn 30 diwrnod | 8748 | 9310 | 9310 | 9310 |

| Blwyddyn | 2007-08 | 2008-09 | 2008-09 | 2008-09 |
|---|---|---|---|---|
| CFH/ C/001 D Nifer yr anfonebau diddadl a dalwyd yn ystod y flwyddyn | 9649 | 10098 | 10098 | 10098 |
| **% a dalwyd o fewn 30 diwrnod** | **90.66%** | **92.20%** | **92.20%** | **92.20%** |
| | | | | |
| **LLEOL** | | | | |
| | | | | |
| Lleol N Cyfanswm nifer of tanau eilaidd yr aethpwyd atynt | | 1557 | 1557 | 1509 |
| Lleol D Poblogaeth ardal yr Awdurdod Tân ac Achub | 675563 | 678543 | 678543 | 677971 |
| **am bob 10,000 o boblogaeth** | | **22.95** | **22.95** | **22.26** |
| | | | | |
| Lleol N Cyfanswm nifer y galwadau ffug maleisus yr aethpwyd atynt | 154 | 170 | 170 | 166 |
| Lleol D Poblogaeth ardal yr Awdurdod Tân ac Achub | 675563 | 678543 | 678543 | 677971 |
| **am bob 1,000 o boblogaeth** | **0.23** | **0.25** | **0.25** | **0.25** |
| | | | | |
| **Lleol Cyfanswm nifer yr Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gynhaliwyd** | **26,504** | **31,180** | **31,180** | **31,180** |
| | | | | |
| **Lleol Canran y tanau damweiniol mewn cartrefi a gyfyngwyd i'r ystafell lle cychwynnodd** | **95%** | **92%** | **92%** | **92%** |
| | | | | |
| | | | | |

**YMGYNGHORIADAU**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynllun Lleihau Risg Llawn | Haf 2006 | Mis Hydref 2006 | 2007-08 ymlaen |
| Cynllun Gweithredu Blynyddol | Haf 2007 | Mis Hydref 2007 | 2008-09 |
| Cynllun Gweithredu Blynyddol | Haf 2008 | Mis Hydref 2008 | 2009-10 |
| Cynllun Gweithredu Blynyddol | Haf 2008 | Mis Hydref 2009 | 2010-11 |
| Cynllun Lleihau Risg Llawn (egwyddorion) | Haf 2009 | | |
| Cynllun Llawn i Leihau Risg a Gwella (manwl) | Haf 2010 | Mis Hydref 2010 | 2011-12 |
| Cynllun Gweithredu Blynyddol | Haf 2011 | Hydref 2011 | 2012-13 |

**SUT GALL UNRHYW UN GYFRANNU I AMCANION GWELLA YN Y DYFODOL**

Mae Adrannau 5 a 6 o'r Mesur Llywodraeth Leol 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ymgynghori'n eang cyn dod i benderfyniadau terfynol ynglŷn â gwella.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn argymell y dylai Awdurdodau ymgynghori â dinasyddion, busnesau lleol, partneriaid cynllunio cymunedol, awdurdodau tân ac achub eraill, a phartneriaid cyfredol a phosib eraill.

Mae'r Awdurdod yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus bob haf pan fydd yn rhoi cyhoeddusrwydd i'w amcanion lleihau risg a gwella am y flwyddyn i ddod, a bydd yn gwahodd sylwadau gan unrhyw un sydd â diddordeb yn yr hyn y mae'r Awdurdod yn ei wneud.  Rhoddir ystyriaeth i bob sylw a ddaw i law, cyn cyhoeddi cynlluniau'r flwyddyn ganlynol yn derfynol.

Os bydd unrhyw un yn dymuno cyfrannu syniadau newydd ynglŷn ag amcanion ar gyfer gwella yn y dyfodol ysgrifennu at y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Ffordd Salesbury, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, Sir Ddinbych LL17 0JJ.